

# ssia

Social Services Improvement Agency  
Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Mewn partneriaeth â  
Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan

## Adolygiad o fodolau a fframweithiau

### Cam 2 - at wraidd y mater

Mawrth 2015



Datblygwyd gan

**Cordis**Bright

## Tabl cynnwys

<b>1</b>	<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>4</b>
1.1	Cefndir.....	4
1.2	Trosolwg.....	5
1.3	Elfennau cyffredin.....	5
1.4	Ymagwedd.....	7
1.5	Nodyn ar bolisi ac ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth.....	7
1.6	Strwythur yr adroddiad.....	9
<b>2</b>	<b>Arwyddion Diogelwch</b> .....	<b>10</b>
2.1	Beth ydyw?.....	10
2.2	Cynulleidfa darged.....	13
2.3	Mewnbynnau.....	13
2.4	Deilliannau bwriadedig.....	14
2.5	Effeithiolrwydd a thystiolaeth.....	15
2.6	Cost a gwerth am arian.....	19
2.7	Rhoi Arwyddion Diogelwch ar Waith.....	20
<b>3</b>	<b>Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion</b> .....	<b>24</b>
3.1	Beth ydyw?.....	24
3.2	Mewnbynnau.....	25
3.3	Cynulleidfa darged.....	26
3.4	Deilliannau bwriadedig.....	26
3.5	Effeithiolrwydd a thystiolaeth.....	27
3.6	Cost a gwerth am arian.....	29
3.7	Gweithredu.....	30
3.8	Beirniadaethau o Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion.....	31
<b>4</b>	<b>Model Hackney Adfer Gwaith Cymdeithasol</b> .....	<b>33</b>
4.1	Beth ydyw?.....	33
4.2	Cynulleidfa darged.....	37
4.3	Mewnbynnau.....	37
4.4	Deilliannau bwriadedig.....	38
4.5	Effeithiolrwydd a thystiolaeth.....	38
4.6	Cost a gwerth am arian.....	45
4.7	Gweithredu.....	45

<b>5</b>	<b>Therapi Aml-systemig.....</b>	<b>49</b>
5.1	Beth ydyw?.....	49
5.2	Cynulleidfa darged.....	55
5.3	Mewnbynnau .....	56
5.4	Deilliannau bwriadedig.....	56
5.5	Effeithiolrwydd a thystiolaeth .....	57
5.6	Cost a gwerth am arian.....	59
5.7	Gweithredu .....	60
<b>6</b>	<b>Cyfweld cymelliannol.....</b>	<b>65</b>
6.1	Beth ydyw?.....	65
6.2	Cynulleidfa darged.....	68
6.3	Mewnbynnau .....	68
6.4	Deilliannau bwriadedig.....	69
6.5	Effeithiolrwydd a thystiolaeth .....	70
6.6	Cost a gwerth am arian.....	72
6.7	Gweithredu .....	73
<b>7</b>	<b>P Driphlyg.....</b>	<b>76</b>
7.1	Beth ydyw?.....	76
7.2	Cynulleidfa darged.....	80
7.3	Mewnbynnau .....	80
7.4	Deilliannau bwriadedig.....	81
7.5	Effeithiolrwydd a thystiolaeth .....	81
7.6	Cost a gwerth am arian.....	84
7.7	Gweithredu .....	85
<b>8</b>	<b>Casgliadau.....</b>	<b>88</b>
<b>9</b>	<b>Atodiad un: Llyfryddiaeth.....</b>	<b>91</b>
<b>10</b>	<b>Atodiad dau: Protocol Asesu Arwyddion Diogelwch .....</b>	<b>98</b>
<b>11</b>	<b>Atodiad tri: Sail dystiolaeth ar gyfer Arwyddion Diogelwch .....</b>	<b>99</b>
<b>12</b>	<b>Appendix four: Evidence base for SFBT .....</b>	<b>104</b>



# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

Comisiynwyd Cordis Bright gan Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnal adolygiad o fodelau a fframweithiau ar gyfer ymyriadau gyda phlant a theuluoedd. Mae'n ceisio helpu rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd i ddeall ystod o fodelau a fframweithiau sy'n bodoli a all helpu arwain ymarfer effeithiol, rheolaeth a dylunio sefydliadol. Mae hefyd yn archwilio effeithiolrwydd nifer o'r modelau hyn, a'r sail dystiolaeth ar eu cyfer.

Cynlluniwyd rhan gyntaf yr ymchwil i helpu deall yr ystod modelau a fframweithiau sy'n bodoli ar draws y sbectrwm cymorth llawn. Cyflwynir hyn yn yr adroddiad Cam 1 sy'n cynnwys adolygiadau byr o dros 100 o fodelau sydd â sail dystiolaeth ffurfiannol neu gadarnach.

Yr adroddiad Cam 2 yw hwn, sy'n adeiladu ar ganfyddiadau Cam 1 yr ymchwil. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno adolygiad 'at wraidd y mater' o'r chwech o fodelau a fframweithiau canlynol:

- Arwyddion Diogelwch
- Model Hackney Adfer Gwaith Cymdeithasol.
- Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion (SFBT) (sy'n nodwedd o Arwyddion Diogelwch)
- Therapi Aml-systemig (MST) (sy'n gysylltiedig â'r dull systemig a ymgorfforwyd ym model Hackney Adfer Gwaith Cymdeithasol)
- Cyfweld Cymelliannol
- P Driphlyg

Dewiswyd Arwyddion Diogelwch ac Adfer Gwaith Cymdeithasol fel dau fodel system-gyfan, trawsffurfiol sy'n cael eu defnyddio'n eang gan ymarferwyr yn y DU a mannau eraill. Teimlwyd y byddai adolygiad manylach o'r modelau hyn yn ddefnyddiol er mwyn asesu graddau'r sail dystiolaeth ar gyfer eu heffeithiolrwydd, yn ogystal â nodi'r mecanweithiau newid a thrawsffurfio y gallai'r modelau hyn eu cynnig.

Mae'r model Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn cael ei adolygu yma am fod llawer o'i egwyddorion craidd yn sail i Arwyddion Diogelwch, a gall dealltwriaeth o un helpu llywio dealltwriaeth o'r llall. Yn yr un modd, dewiswyd Therapi Aml-systemig gan ei fod yn rhannu ymagwedd systemig gydag Adfer Gwaith Cymdeithasol. Dewiswyd Cyfweld Cymelliannol a P Driphlyg am eu bod yn ddulliau sy'n cael eu hymarfer yn gyffredin a welir yn eang fel rhai ag iddynt sail dystiolaeth sefydledig.

Gyda'i gilydd, credwyd bod y chwech o fodelau a fframweithiau hyn yn cynrychioli amrywiaeth eang o ddulliau o weithio gyda phlant a theuluoedd o ran:

- Yr haen(au) y mae'r model yn gweithredu arni a lefel(au) yr angen y mae'n briodol ar ei chyfer
- Cynulleidfa darged
- Deilliannau bwriadedig
- Sail dystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd
- Mewnbynnau

## 1.2 Trosolwg

Mae'r adolygiadau 'at wraidd y mater' a gyflwynir yn yr adroddiad Cam 2 hwn yn adeiladu ar Gam 1 drwy archwilio, lle maent ar gael:

- Gwybodaeth am beth yw'r model neu'r fframwaith e.e. ei gefndir, egwyddorion craidd, arferion neu strategaethau craidd a ddefnyddir, cynulleidfa darged, deilliannau bwriadedig ac ati
- Tystiolaeth yn ymwneud ag effeithiolrwydd yr ymagwedd
- Tystiolaeth yn ymwneud â pha nodweddion neu agweddau ar y model y canfuwyd eu bod yn fwyaf effeithiol o ran arwain at ddeilliannau cadarnhaol
- Tystiolaeth yn ymwneud â'r ffordd orau i roi'r model ar waith er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd, a rhwystrau posibl sydd wedi'u nodi
- Gwybodaeth yn ymwneud â chost, gwerth am arian ac adnoddau sydd eu hangen i weithredu'r model neu'r fframwaith
- Y graddau y mae elfennau cyffredin ar draws y modelau a allai fod yn ganolog i effeithiolrwydd

## 1.3 Elfennau cyffredin

Mae'r adolygiadau isod yn dangos bod yna rai egwyddorion, cydrannau, ymagweddau a/neu dechnegau yr ymddengys eu bod yn nodweddion cyffredin ar draws pob un neu rai o'r fframweithiau a adolygwyd yn yr adroddiad hwn. Er enghraifft, mae elfennau cyffredin allweddol yn cynnwys:

- **Perthynas adeiladol rhwng ymarferydd a chleient:** Mae pob un o'r modelau (ac eithrio P Driphlyg) yn ceisio meithrin perthynas gydweithredol gyda chleientiaid yn seiliedig ar bartneriaeth ac agwedd nad yw'n nawddoglyd.
- **Ffocws ar gryfderau:** Mae pob un o'r modelau (ac eithrio Cyfweld Cymelliannol) yn canolbwyntio ar gryfderau'r teulu a'r plentyn wrth asesu a

chynllunio, ond i raddau amrywiol hefyd, mae'n ceisio cydbwysu hyn â nodi risgiau a pheryglon. Un rhesymwaith cyffredin ar gyfer canolbwyntio ar gryfderau ar draws y modelau yw bod hyn hefyd yn ffynhonnell cydberthynas a meithrin perthnasoedd gyda theuluoedd.

- **Pennu nodau a nodi atebion:** Mae Arwyddion Diogelwch, Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion, Adfer Gwaith Cymdeithasol, Therapi Aml-systemig a P Driphlyg bob un ohonynt yn rhannu, fel nodwedd gyffredin, pwysigrwydd nodi a phennu nodau gyda theuluoedd neu gleientiaid fel rhan o gynllun ar gyfer newid a datblygu y gellir mynd yn ôl ato er mwyn monitro cynnydd.
- **Defnyddio iaith sy'n hawdd i gleientiaid ei deall:** Mae gweithwyr proffesiynol yn rhoi pob datganiad mewn iaith syml yn hytrach nag iaith wedi'i phroffesiynoli ac sy'n hawdd ei deall gan gleientiaid yn nodwedd o Arwyddion Diogelwch a Chyfweld Cymelliannol.
- **Nodi rhwydweithiau diogelwch ehangach:** Mae Arwyddion Diogelwch, Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion a Therapi Aml-systemig i gyd yn rhannu elfen ymarfer gyffredin, sef nodi rhwydweithiau diogelwch ehangach, fel ffrindiau, teuluoedd, athrawon, cymdogion ac ati sydd yn chwarae rhan neu a allai chwarae rhan yn gwella deilliannau ar gyfer plant a theuluoedd.
- **Ymarfer a theori systemig:** Mae Adfer Gwaith Cymdeithasol, Therapi Aml-systemig a P Driphlyg i gyd, i raddau amrywiol, yn seiliedig ar ymarfer systemig a theori dysgu cymdeithasol sy'n rhoi unrhyw faterion neu anawsterau a wynebir gan blant a theuluoedd mewn cyd-destun cymdeithasol a pherthynol.
- **Beichiau achosion llai:** Mae Adfer Gwaith Cymdeithasol a Therapi Aml-systemig ill dau yn sicrhau bod beichiau achosion llai gan ymarferwyr fel eu bod yn gallu gweithio'n fwy trylwyr a hyblyg gyda theuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw.
- **Hyfforddiant ôl-gymhwysol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus:** Mae Arwyddion Diogelwch, P Driphlyg a Therapi Aml-systemig i gyd yn pennu y dylid rhoi'r cyfle i ymarferwyr gael hyfforddiant parhaus yn y model. Mae hyn yn helpu sicrhau datblygiad proffesiynol yn ogystal â sicrhau parhau'n ffyddlon i ddull y model.
- **Goruchwyliaeth o ansawdd uchel a rheolaidd:** Mae pob un o'r modelau yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer goruchwyliaeth reolaidd o ansawdd uchel gan ymarferwyr sy'n fwy medrus neu brofiadol yn y model. Mae model uned Adfer Gwaith Cymdeithasol yn ymgorffori hyn fel nodwedd annatod o'r dull gan fod ymarferwyr plant yn gweithio ochr yn ochr ac ar y cyd â gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol a chlinigwr ar bob achos.

At hynny, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn amlygu dwy nodwedd allweddol o'r berthynas rhwng modelau a fframweithiau ar gyfer ymyriadau gyda phlant a theuluoedd a newid system gyfan:

- Yn gyntaf, gellir defnyddio ymyriadau penodol a'u hegwyddorion fel ffynhonnell newid system gyfan a thrawsffurfiad diwylliannol lle mae dull ar y cyd o weithio gyda theuluoedd a phlant yn cael ei ymgorffori ar draws sefydliad.
- Yn ail, fod modelau a fframweithiau, neu eu hegwyddorion o leiaf, yn debygol o fod yn fwyaf effeithiol pan gânt eu defnyddio a'u cymhwyso yn y modd hwn, h.y. ar draws sefydliad cyfan ac fel ffynhonnell newid diwylliant sefydliadol.

## 1.4 Ymagwedd

Defnyddiwyd methodoleg ddesg i gynnal yr adolygiadau 'at wraidd y mater' hyn lle casglwyd y dystiolaeth fwyaf cadarn a diweddar a oedd ar gael gan:

- Y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar a System Glirio ar Sail Tystiolaeth California (CEBC). Mae'r systemau clirio hyn yn adolygu miloedd o ymyriadau ac yn asesu cryfder y dystiolaeth ar gyfer eu heffeithiolrwydd yn erbyn set o safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol, fel y dangosir yn Ffigur 1.
- Adolygiadau systematig a meta-ddadansoddol o astudiaethau presennol ar fodelau a fframweithiau. Mae'r rhain yn cyfuno a chyfosod tystiolaeth bresennol i ddarparu argraff gyffredinol o'r sail dystiolaeth ar gyfer model neu fframwaith penodol.
- Chwilio Google a Google Scholar gyda themau fel 'Arwyddion Diogelwch / Signs of Safety' + 'Gwerthuso / Evaluation' neu 'Arwyddion Diogelwch / Signs of Safety' + 'Hap-dreial wedi'i Reoli / Randomised Controlled Trial'.

Defnyddiwyd strategaeth 'pelen eira' hefyd lle'r aethpwyd ar drywydd astudiaethau buddiol yn ôl pob golwg y cyfeiriwyd atynt mewn astudiaethau a ganfuwyd, a'u cynnwys lle'r oeddent yn berthnasol. Gellir gweld yr astudiaethau a ddefnyddiwyd i lywio'r adolygiad hwn yn y llyfryddiaeth yn Atodiad Un, ac maent wedi'u trefnu yn ôl y model neu'r fframwaith y maent a wnelo â nhw.

## 1.5 Nodyn ar bolisi ac ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth

Deallir yn gyffredinol bod y term 'polisi yn seiliedig ar dystiolaeth' yn golygu polisi yn seiliedig ar ymchwil gwrthrychol wedi'i sefydlu'n drwyadl a thystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd dulliau polisi penodol. Un agwedd gyffredin bwysig ar 'bolisi yn seiliedig ar dystiolaeth' yw'r defnydd o hap-dreialon wedi'u rheoli ac astudiaethau dylunio lled-arborfol i ymchwilio i effeithiolrwydd ymyriad neu bolisi penodol.

Fel y gellir gweld yn Ffigur 1, mae hap-dreialon wedi'u rheoli wedi cael yr enw (e.e. gan sefydliadau fel y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar) am fod y 'safon aur' ar gyfer mesur effeithiolrwydd am eu bod yn darparu'r dull gorau ar gyfer priodoli achosiaeth i ymyrraeth. Mewn hap-dreialon wedi'u rheoli, bydd cyfranogwyr cymwys yn cael eu neilltuo ar hap i naill ai'r grŵp triniaeth (sy'n derbyn yr ymyrraeth) neu'r grŵp rheoli (sy'n derbyn triniaeth-fel-arfer fel rheol). O'u cynnal yn dda, gall unrhyw wahaniaethau mesuradwy rhwng y deilliannau yn y grŵp triniaeth o gymharu â'r rheiny ymhlith y grŵp rheoli gael eu priodoli wedyn i'r



ymyrraeth ei hun, yn hytrach nag i unrhyw wahaniaethau eraill rhwng y grwpiau. Hwn felly yw'r ffordd orau i ganfod a yw ymyrraeth yn 'gweithio' neu beidio.

*Ffigur 1 Crynodeb o safonau dystiolaeth a graddfeydd cysylltiedig a ddyfernir gan y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar*

Disgrifiad y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar o dystiolaeth	Sail dystiolaeth
Sefydledig	Aml werthusiadau o ansawdd uchel (hap-dreialon wedi'u rheoli/dyluniad lled-arbrofol) gydag effaith gadarnhaol gyson ar draws poblogaethau ac amgylcheddau
Cychwynnol	Gwerthusiad unigol o ansawdd uchel (hap-dreialon wedi'u rheoli/dyluniad lled-arbrofol) gydag effaith gadarnhaol
Ffurfiannol	Gwerthusiad ansawdd is (dim hap-dreialon wedi'u rheoli/dyluniad lled-arbrofol) sy'n dangos deilliannau gwell ar gyfer cyfranogwyr mewn rhaglenni

Dylid cydnabod, fodd bynnag, nad yw llawer o ymyriadau effeithiol posibl wedi'u rhoi ar brawf eto drwy hap-dreial wedi'i reoli, ac mewn rhai achosion, efallai na fydd hap-dreial wedi'i reoli yn ymarferol neu'n ddichonadwy oherwydd, er enghraifft:

- Efallai na fydd hap-neilltuo cyfranogwyr i grŵp triniaeth neu grŵp rheoli yn bosibl, yn foesegol neu'n ddymunol e.e. gellid teimlo y dylai cyfranogwyr gael eu cyfeirio yn ôl angen yn hytrach na hap-neilltuo. Mewn achosion o'r fath, cynhelir dyluniad lled-arbrofol yn lle hynny weithiau. Mae'r rhain yn 'arbrofol' yn yr ystyr eu bod yn cymharu deilliannau'r grŵp 'triniaeth' gyda'r grŵp 'rheoli'; fodd bynnag, nid yw'r cyfranogwyr yn cael eu neilltuo ar hap rhwng y grwpiau hyn. Fel y cyfryw, ni all gwahaniaethau mewn deilliannau rhwng grwpiau gael eu priodolo o angenrheidrwydd i'r ymyrraeth neu'r 'driniaeth'.
- Nid yw ymyriadau yn aml yn cael eu darparu ar wahân i ddulliau neu nodweddion gwasanaeth eraill (e.e. gall ymarferydd ymgorffori elfennau o Therapi Aml-systemig a Chyfweld Cymelliannol yn ei waith). Felly, ni ellir priodoli effeithiau triniaeth yn hawdd i un ymyrraeth benodol.

Mae Ffigur 1 yn dangos bod y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar yn dosbarthu'r sail dystiolaeth ar gyfer y rhaglenni hyn gydag aml hap-dreialon wedi'u rheoli neu ddyluniadau lled-arbrofol o ansawdd uchel yn eu lle fel rhai 'sefydledig'. Bernir

mai sail dystiolaeth ‘gychwynnol’ sydd gan y rheiny ag ond un hap-dreial wedi’i reoli neu ddyluniad lled-arbrofol ar waith, tra bernir mai sail dystiolaeth ‘ffurfiannol’ sydd gan y rheiny sydd â gwerthusiadau ansawdd is nad ydynt yn bodloni meini prawf hap-dreial wedi’i reoli neu ddyluniad lled-arbrofol.

O ran cymhwyso canfyddiadau ymchwil a thystiolaeth, mae Munro yn dadlau, oherwydd y cymhlethdod o weithio gyda phlant a theuluoedd o safbwynt eu problemau a’u hanghenion, a’r ffyrdd y gellir ymyrryd â nhw:

*‘Nid mater syml ydyw o ddewis ymyriad oddi ar y silff a’i gymhwyso i blentyn a theulu’.*

The Munro Review of Child Protection: Final Report, A child-centred system, tud. 92

Felly, mae Munro yn awgrymu, yng nghyd-destun gwaith cymdeithasol, y deellir ‘ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth’ orau mewn ystyr eang fel

*‘...defnyddio’r dystiolaeth orau sydd ar gael i lywio ymarfer ym mhob cam o’r gwaith, ac integreiddio’r dystiolaeth honno gyda dealltwriaeth y gweithiwr cymdeithasol ei hun o amgylchiadau’r plentyn a’r teulu a’u gwerthoedd a’u dymuniadau’.*

Ibid.

## 1.6 Strwythur yr adroddiad

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi’u strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn cyflwyno adolygiad ‘at wraidd y mater’ o Arwyddion Diogelwch
- Mae Adran 3 yn cyflwyno adolygiad ‘at wraidd y mater’ o Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion
- Mae Adran 4 yn cyflwyno adolygiad ‘at wraidd y mater’ o fodel Hackney Adfer Gwaith Cymdeithasol
- Mae Adran 5 yn cyflwyno adolygiad ‘at wraidd y mater’ o Therapi Aml-systemig
- Mae Adran 6 yn cyflwyno adolygiad ‘at wraidd y mater’ o Gyfweld Cymelliannol
- Mae Adran 7 yn cyflwyno adolygiad ‘at wraidd y mater’ o P Driphlyg
- Mae Adran 8 yn cyflwyno sylwadau terfynol ac elfennau cyffredin a nodwyd ar draws modelau.

Mae Atodiadau un, dau a thri yn cyflwyno’r llyfryddiaeth, crynodeb o’r dystiolaeth ar gyfer Arwyddion Diogelwch a chrynodeb o’r sail dystiolaeth ar gyfer Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion, yn y drefn honno.

## 2 Arwyddion Diogelwch

### 2.1 Beth ydyw?

Mae'r model Arwyddion Diogelwch yn disgrifio'i hun fel fframwaith amddiffyn plant sy'n seiliedig ar berthynas, ac a drefnir ar sail diogelwch, a gynlluniwyd i helpu teuluoedd adeiladu diogelwch i blant drwy alluogi'r teuluoedd hynny i ddangos eu cryfderau dros amser. Datblygwyd Arwyddion Diogelwch yn y 1990au yng Ngorllewin Awstralia gan Andrew Turnell a Steve Edwards, mewn cydweithrediad â bron i 120 o weithwyr amddiffyn plant yng Ngorllewin Awstralia (Bunn, 2013). Mae Arwyddion Diogelwch yn berchen i, ac yn cael ei weithredu gan y Resolutions Consultancy, yn Perth, Awstralia.

Mae Arwyddion Diogelwch yn seiliedig ar ddefnyddio technegau cyfweld yn seiliedig ar gryfderau, ac yn benodol mae'n defnyddio technegau o'r model Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion. Ei nod yw cynorthwyo ymarferwyr i weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth gyda phlant, teuluoedd a'u rhwydweithiau ehangach i sicrhau diogelwch a lles y plentyn. Fel rhan o hyn, mae Arwyddion Diogelwch yn darparu fframwaith ar gyfer cynnal asesiadau risg cynhwysfawr, lle caiff peryglon a chryfderau/diogelwch eu nodi, a chynhyrchu cynlluniau gweithredu ar gyfer cynyddu diogelwch a lleihau risg a pherygl drwy ganolbwyntio ar gryfderau, adnoddau a rhwydweithiau sydd gan y teulu (Bunn, 2013). Cynlluniwyd y model i'w ddefnyddio o gychwyn achos i gau achos, ac i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol yn ystod pob cam o'r broses amddiffyn plant (CEBC). Mae'r model wedi cael ei ddefnyddio'n eang hefyd mewn gwaith ymyrraeth gynnar ac mae ei gymhwyso mewn ymarfer sy'n mynd y tu hwnt i amddiffyn plant (Bunn, 2013).

Mae cynigwyr Arwyddion Diogelwch yn awgrymu ei fod yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei ddefnyddio fel ffynhonnell newid a thrawsffurfiad 'system gyfan' lle:

- Mae diwylliant sefydliadol yn symud o un o gydymffurfio â diwylliant dysgu sy'n canolbwyntio ar ba mor dda y mae'n gwasanaethu plant a phobl ifanc (Munro, Turnell a Murphy, 2014), fel y dadleuir yn Adolygiad Munro (DfE, 2011).
- Mae diwylliant sefydliadol yn symud o natur dadol i natur adeiladol lle gall gweithwyr proffesiynol ac aelodau teulu ymgysylltu â'i gilydd mewn partneriaeth i fynd i'r afael â sefyllfaoedd o gam-drin a chamddefnyddio plant (Munro, Turnell a Murphy, 2014).

At ei gilydd, mae gan Arwyddion Diogelwch sail dystiolaeth ffurfiannol ar gyfer effeithiolrwydd.

#### 2.1.1 Egwyddorion craidd

Mae Turnell (2012) yn crynhoi tair egwyddor graidd sy'n sail i'r model Arwyddion Diogelwch:

- Mae perthnasoedd gweithio yn hollbwysig: Sefydlu perthnasoedd a phartneriaethau gweithio adeiladol rhwng gweithwyr proffesiynol ac aelodau teulu, a rhwng gweithwyr proffesiynol eu hunain.
- Meddwl yn feirniadol: Mynd ati i feddwl yn feirniadol a chynnal sefyllfa o ymholi lle mae ymarfer myfyriol ar y cyd a pharodrwydd i gyfaddef camgymeriad wedi'u hymgorffori.
- Yn seiliedig ar brofiadau bob dydd: Aros yn seiliedig yng ngwaith bob dydd ymarferwyr amddiffyn plant lle mae asesu a chynllunio diogelwch yn seiliedig ar brofiad y plentyn o fyw bob dydd.

### 2.1.2 Elfennau ymarfer craidd

Mae'r chwe elfen ymarfer craidd yn y model Arwyddion Diogelwch a ddisgrifir gan Turnell ac Edwards (1999) fel a ganlyn:

- Deall sefyllfa pob aelod o'r teulu
- Dod o hyd i eithriadau i'r camddefnydd\*
- Canfod cryfderau ac adnoddau teulu\*
- Canolbwyntio ar nodau\*
- Graddio diogelwch a chynnydd drwy ddefnyddio cwestiynau graddio (e.e. ar raddfa o 1-10, pa mor debygol ydyw yn eich barn chi y bydd y math hwn o ddigwyddiad yn digwydd eto?)\*
- Asesu parodrwydd, hyder a gallu

Mae nifer o'r elfennau ymarfer craidd (a nodwyd uchod gyda seren) yn Arwyddion Diogelwch yn seiliedig ar egwyddorion Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion, a archwilir yn fanylach ynddo'i hun yn adran 3. Fodd bynnag, nid yw Arwyddion Diogelwch fel y'u cynlluniwyd gan Turnell ac Edwards yn cymhwyso Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion i faes amddiffyn plant yn syml. Mae Arwyddion Diogelwch yn cynnwys nifer o ddulliau, offer, asesiadau a chanllawiau allweddol sy'n ei wahaniaethu fel model penodol, fel y Fframwaith Asesu Risg (Bunn, 2013).

### 2.1.3 Y Fframwaith Asesu Risg (Mapio) a chynllunio diogelwch

Mae dull systematig Arwyddion Diogelwch o gasglu gwybodaeth a chynnal asesiadau yn un o elfennau allweddol y dull ac yn un o'r prif ffyrdd sy'n ei wneud yn wahanol i ddefnyddio Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn syml mewn maes amddiffyn plant. Mae'r dull asesu wedi'i gynllunio i fesur risg a pherygl, ond hefyd i gydweddu â'r model sy'n canolbwyntio ar atebion lle canolbwyntir ar gryfderau ac arwyddion diogelwch ac adeiladu arnynt. Mae'r protocol asesu yn mapio niwed, perygl, ffactorau cymhleth, cryfderau, diogelwch presennol a diogelwch gofynnol, a dyfarniad diogelwch lle mae plant wedi'u camddefnyddio

neu'n agored i niwed. Bwriedir iddo fod yn gynllun gweithredu ac yn gofnod achos canolog ar gyfer trefnu ymyriadau o gychwyn cyntaf achos drwodd at gau achos (Bunn, 2013).

Gan ddefnyddio Protocol Asesu (un tudalen) Arwyddion Diogelwch, gofynnir pedwar cwestiwn:

- Beth ydyn ni'n pryderu yn ei gylch?
- Beth sy'n gweithio'n dda?
- Beth sydd angen iddo ddigwydd?
- Dyfarniad, yn nodweddiadol ar raddfa o 0-10, gan ystyried pa mor ddifrifol ydyw'r gweithwyr proffesiynol, y teulu a phobl allweddol yn credu yw'r sefyllfa ar gyfer y plentyn?

Gellir gweld enghraifft o brotocol sylfaenol Arwyddion Diogelwch yn Atodiad dau. Ochr yn ochr â chymhwyso'r egwyddorion craidd, mae'r 'disgyblaethau' canlynol yn sail i ddefnyddio'r protocol a'r offer asesu a chynllunio yn effeithiol er mwyn helpu arwain sut mae'r ymarferydd yn gweithio gyda'r teulu (DCP 2012):

- Dealltwriaeth glir a thrwyadl o'r gwahaniaeth rhwng niwed yn y gorffennol, perygl yn y dyfodol a ffactorau cymhlethu.
- Gwahaniaeth clir a thrwyadl yn cael ei wneud rhwng cryfderau ac amddiffyn, yn seiliedig ar y diffiniad gweithio fod 'diogelwch' yn cael ei ystyried fel cryfderau ac yn cael ei ddangos fel amddiffyn (mewn perthynas â pherygl)
- Rhoi pob datganiad mewn iaith syml yn hytrach nag iaith wedi'i phroffesiynoli ac sy'n hawdd ei deall gan gleientiaid.
- Gymaint â phosibl, pob datganiad yn canolbwyntio ar ymddygiadau penodol, gweladwy (e.e. 'nid yw Mary yn cymryd meddyginiaeth bresgripsiwn) ac yn osgoi termau sy'n llwythog gan ystyron, ac yn llwythog gan farnau (e.e. 'ni ellir ymddiried ynddi' neu 'mae'n anodd').
- Defnydd medrus o awdurdod.
- Rhagdybiaeth sylfaenol fod yr asesu yn waith sy'n mynd rhagddo yn hytrach na darn gosod penodedig.

Yn ystod y broses asesu risg a gwaith achos, eir ati i gynllunio diogelwch fel arfer at y diben o gynllunio sut y gellir cyflawni newid er mwyn cynyddu diogelwch y plentyn (plant) dan sylw. Dyma'r prif gamau y mae Turnell (2012) yn eu hamlinellu i greu cynllun diogelwch:

- Gwaith paratoi yn cynnwys pob partner amlasiantaeth

- Sefydlu perthnasoedd gweithio gyda'r teulu
- Disgrifiad syml, dealladwy o'r pryderon amddiffyn plant mewn iaith bob dydd
- Nodau diogelwch
- Gofynion sylfaenol
- Cynnwys rhwydwaith diogelwch ffrindiau a theulu helaeth a gwybodus
- Cyd-drafod y 'sut', h.y. manylion y cynllun
- Ailuno olynol a monitro cynnydd
- Cynnwys plant wrth gynllunio diogelwch

Mae offer penodol y gellir eu defnyddio i gynnwys plant mewn asesu risg a chynllunio diogelwch yn cynnwys: *Three Houses*, *Safety House*, *Wizards and Fairies*, *Words and Pictures* (dull ar gyfer esbonio pryderon amddiffyn plant i blant), a *Family Life Safety Planning*, yn cynnwys cynlluniau diogelwch priodol i oedran yn *Words and Pictures* ar gyfer plant.

Dylanwadwyd ar nifer o nodweddion allweddol Arwyddion Diogelwch gan y dull Atebion [Resolutions] ym Mryste o weithio gyda cham-drin plant 'sy'n cael ei wadu'. Yn benodol, tynnodd Arwyddion Diogelwch ysbrydoliaeth a sicrhodd drylwyrdeb mewn cynllunio diogelwch manwl, a syniadau ar gyfer cynnwys a hysbysu plant, fel y broses *Words and Pictures*<sup>1</sup>.

## 2.2 Cynulleidfa darged

Cynlluniwyd i Arwyddion Diogelwch gael ei ddefnyddio gan ymarferwyr amddiffyn plant wrth weithio gyda theuluoedd, pobl ifanc a phlant (0-18) lle mae amheuaeth o gam-drin neu esgeuluso plant, neu fod achos o hynny wedi'i gadarnhau. Fodd bynnag, gellir ei gymhwyso ymhellach na'r maes amddiffyn plant.

## 2.3 Mewnbynnau

### *Cymwysterau a hyfforddiant darparwyr*

Ar gyfer ymarferwyr ar lawr gwlad, argymhellir eu bod yn meddu ar radd Baglor mewn gwaith cymdeithasol neu faes cysylltiedig o leiaf. Ar gyfer goruchwylwyr, argymhellir eu bod yn meddu ar radd Meistr mewn gwaith cymdeithasol neu faes cysylltiedig (CEBC).

Yn nodweddiadol, mae hyfforddiant cyflawn yn y model Arwyddion Diogelwch yn golygu pum niwrnod o hyfforddiant dros bedair wythnos. Mae'r ddau ddiwrnod

<sup>1</sup> <http://www.vivhogg.com/signs-of-safety/>

cyntaf yn tueddu canolbwyntio ar hanfodion ac egwyddorion, ac amlinelliad o therapi sy'n canolbwyntio ar atebion. Mae'r ail ddau ddiwrnod o hyfforddiant yn tueddu digwydd bythefnos yn ddiweddarach ac yn canolbwyntio ar y model Arwyddion Diogelwch. Mae'r diwrnod olaf yn canolbwyntio ar brofiadau o'r model ar waith.

Ar hyn o bryd mae hyfforddiant cyflwyniadol yn cael ei ddarparu gan nifer o ymgynghorwyr a hyfforddwyr yn y DU i roi cyflwyniad i'r model ac mewn awdurdodau sy'n gweithredu'r model ar draws eu sefydliad. Mae diwrnod ychwanegol ar gynnwys plant yn cael ei gynnig hefyd (Bunn, 2013).

### *Paramedrau a argymhellir*

Mae'r dwyster a argymhellir o ran defnyddio Arwyddion Diogelwch gydag unrhyw un teulu yn dibynnu ar bob teulu unigol y mae amddiffyn plant yn partneru â nhw, ac mae'n dibynnu ar ble mae'r achos arni o fewn yr asiantaeth amddiffyn plant (ymchwiliadau/gwasanaethau parhaus, ac ati). Yn gyffredinol, byddai cysylltiadau'n amrywio o 1-2 awr a byddai'n digwydd yn fisol o leiaf, os nad mwy.

O ran cyfnod amser, mae'r dull wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio o'r adeg y daw'r alwad gyntaf i mewn i'r asiantaeth drwodd at gau achos. Byddai'r cyfnod amser yn gweithio gyda'r teulu yn dibynnu ar bob teulu ac amgylchiadau. Yn hyn o beth mae Arwyddion Diogelwch yn wahanol i Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion sydd ond yn darparu ymyriadau tymor byr.

### *Lleoliadau cyflwyno*

Mae Arwyddion Diogelwch yn nodweddiadol yn cael ei gynnal yn un o'r lleoliadau canlynol:

- Cartref Mabwysiadol
- Cartref Teulu Biolegol
- Asiantaeth Gymunedol
- Gofal Maeth/Gofal gan Berthynas
- Ysbyty
- Clinig Cleifion Allanol
- Cyfleuster Gofal Preswyl
- Ysgol

## **2.4 Deilliannau bwriadedig**

Deilliannau bwriadedig Arwyddion Diogelwch yw (CEBC):



- Lleihau cyfraddau cam-drin plant.
- Lleihau cyfraddau camddefnyddio mynych.
- Lleihau achosion o chwalu teuluoedd a'r nifer o leoliadau gofal maeth.

Mae'r model hefyd yn bwriadu sicrhau'r deilliannau canlynol yn gysylltiedig â phrosesau:

- Cynyddu ymgysylltiad plant a theuluoedd a chyfranogiad uniongyrchol mewn gwaith amddiffyn plant a phenderfyniadau.
- Cynyddu boddhad swydd a chyfradd cadw gweithwyr ymarferwyr lles plant.
- Cynyddu 'dyfnder ymarfer' ymarferwyr a thyfu systemau a strwythurau amddiffyn plant sy'n datblygu ymarferwyr felly. Diffinnir 'dyfnder ymarfer' fel gallu'r ymarferydd i feddwl yn drylwyr, llunio barnau yn dryloyw a'u cynnal gyda gostyngeddwydd, gweithredu'n dosturiol a dod â phawb arall sy'n gysylltiedig â'r mater, boed yn lleyg neu'n broffesiynol, gyda nhw ar y daith gymhleth hon.
- Creu iaith a rennir mewn perthynas ag asesu risg a fframwaith a diwylliant ymarfer ar draws yr holl ymatebion amddiffyn plant, yn statudol ac anstatudol, llywodraeth ac anllywodraethol, sydd hefyd yn ddealladwy a hygyrch i deuluoedd a phlant. Mae Arwyddion Diogelwch yn dadlau fod hyn yn hanfodol gan fod deilliannau da ar gyfer plant sy'n agored i niwed i gyd yn dibynnu ar berthnasoedd gweithio da rhwng teuluoedd a gweithwyr proffesiynol a rhwng gweithwyr proffesiynol eu hunain.

## 2.5 Effeithiolrwydd a thystiolaeth

### 2.5.1 Sail dystiolaeth gyffredinol

At ei gilydd nid oes sail dystiolaeth 'sefydledig' na 'chychwynnol'<sup>2</sup> ar gyfer effeithiolrwydd Arwyddion Diogelwch; ni ellir honni'n hyderus ei fod yn 'gweithio' o ran cyflawni ei ddeilliannau bwriadedig. Yn ôl y CEBC a'n hymchwil ni'n hunain, nid oes unrhyw werthusiadau cyhoeddedig, wedi'u hadolygu gan gymheiriaid, o Arwyddion Diogelwch sy'n defnyddio hap-dreial wedi'i reoli neu ddyluniad lled-arbrofol. Am y rheswm hwn, naill ai nid yw wedi'i adolygu gan y prif systemau clirio neu mae wedi'i ddiffinio, yn achos y CEBC, fel 'Nid oes modd ei Raddio'.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg ar gyfer effeithiolrwydd Arwyddion Diogelwch. Mae tystiolaeth yn amrywio o waith ansoddol wedi'i gynhyrchu'n fewnol gan ymarferwyr y model, sy'n tueddu cwmpasu profiadau ymarferwyr a rhieni/plant, i ychydig o adroddiadau gwerthuso wedi'u comisiynu'n allanol a dadansoddiadau data ar lefel leol cyn ac ar ôl y digwyddiad. Er bod y dystiolaeth

<sup>2</sup> Mae'r termau 'sefydledig' a 'chychwynnol' yma yn cael eu defnyddio yn yr ystyr a amlinellir gan y Sefydliad Ymyrraeth Gyinnar yn Ffigur 1.



hon sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu bod newid cadarnhaol yn digwydd gyda'r model Arwyddion Diogelwch, mae'r ffaith fod y rhan fwyaf o astudiaethau yn seiliedig ar hunan adroddiadau, samplau bach a/neu eu bod yn cael eu cynnal neu'u dadansoddi gan ymarferwyr eu hunain, yn golygu mai gwerth cyfyngedig sydd iddynt o ran canfod effeithiolrwydd y model (Bunn, 2013). Mae Turnell ac Edwards a rhai eraill yn y maes yn cydnabod cyfyngiadau amlwg gwaith wedi'i gynhyrchu'n fewnol gyda'r posibiladau o ragfarn (Bunn, 2013).

Mae'r sail dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg sydd ar gael ar gyfer Arwyddion Diogelwch yn cael ei hadolygu yma, yn gyntaf o ran profiadau ymarferwyr a rhieni/plant, ac yn ail o ran deilliannau achosion.

## 2.5.2 Profiadau ymarferwyr a rhieni/plant o Arwyddion Diogelwch

### *Profiadau cadarnhaol*

Mae llawer o'r ymchwil ar Arwyddion Diogelwch wedi'i seilio ar neu ynglŷn â phrofiadau ymarferwyr a rhieni/plant o'r model ar waith. Mae hyn yn bwysig o ran helpu i sefydlu sut allai teuluoedd a gweithwyr proffesiynol ymateb i ymyriad.

Canfu adolygiad o dystiolaeth yn ymwneud ag Arwyddion Diogelwch fod y buddion allweddol canlynol yn y model mewn perthynas â phrofiadau ymarferwyr a rhieni/plant yn dod i'r amlwg yn gyson:

- **Gwelliannau ym mhrofiadau, sgiliau a boddhad swydd yr ymarferwyr** – gydag astudiaethau yn adrodd am gynnydd mewn hunanarfarniad ymarferwyr o arbenigedd a medrusrwydd, mwy o amser i fyfyrion ar achosion, cynnydd mewn recriwtio/cadw staff a gwell morâl/boddhad. Nododd staff hefyd fod offer yn helpu i drefnu ymarfer, canolbwyntio ar ddiogelwch/risg a mesur newid, yn darparu mwy o offer defnyddiol nag oedd ar gael yn flaenorol.
- **Gwelliannau mewn perthnasoedd rhwng rhieni ac ymarferwyr** – gydag astudiaethau yn adrodd bod perthnasoedd yn dod yn fwy agored, tryloyw ac o ansawdd gwell, rhieni/gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu 'deall' yn well a'u parchu mwy gan weithwyr, a pheidio â theimlo eu bod yn cael eu beio am faterion, gyda chanfyddiadau mwy cadarnhaol o sgiliau gofalu gweithwyr.
- **Cynnwys teuluoedd mwy yn y broses** - gydag astudiaethau yn adrodd bod teuluoedd yn cael eu cynnwys mwy wrth gynhyrchu deilliannau, mwy o gyfranogiad os oes anawsterau'n cael eu datrys, mwy o gred mewn newid (gan weithwyr a rhieni) a mwy o gydnabyddiaeth ddywededig o newid (gan weithwyr proffesiynol i rieni).

Gellir gweld dadansoddiad manylach o'r astudiaethau y mae'r themâu hyn yn codi ohonynt yn Atodiad tri, ynghyd â nodiadau methodolegol, fel y'u crynhoir yn Bunn (2013).

Yn fwy diweddar, cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol o weithrediad Arwyddion Diogelwch mewn dwy awdurdodaeth yn Minnesota (Skrypek, 2013). Fel rhan o'r gwerthusiad hwn cyfwelwyd â 15 o randdeiliaid a nododd y newidiadau canlynol

yr oedd gweithwyr proffesiynol wedi'u gweld dros y deng mlynedd diwethaf o ran system amddiffyn plant eu sir:

- Mwy o gydweithredu neu gydweithredu gwell gydag adran Amddiffyn Plant eu sir
- Cynnwys teuluoedd mwy wrth nodi atebion i wella diogelwch ar gyfer plant
- Mwy o dryloywder gyda theuluoedd a pharch tuag atynt
- Rhoi rhwydweithiau diogelwch ar waith (teulu, ffrindiau, a chymdogion) i ddarparu system gymorth i deuluoedd
- Mwy o drefniant, effeithlonrwydd, a safoni mewn arferion lles plant
- Mwy o ddefnydd o arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac arferion sy'n cael eu hysgogi gan ymchwil
- Deilliannau gwell ar gyfer teuluoedd: llai o atgwmpo, mwy o ddiogelwch a pharhad

Fodd bynnag, yn ogystal â'r ffaith fod y canfyddiadau hyn yn seiliedig ar arsylwadau nifer fach o ymarferwyr, gofynnwyd iddynt ynglŷn â newidiadau cyffredinol i'r system amddiffyn plant yr oeddent yn gweithio ynddi, yn hytrach na newidiadau sydd wedi dod yn sgil Arwyddion Diogelwch yn benodol.

O ran boddhad cyffredinol gydag Arwyddion Diogelwch, canfuwyd y canlynol gan un o'r ymgynghoriadau mwyaf (n=251) ar brofiadau ymarferwyr o Arwyddion Diogelwch yn benodol (DCP, 2010):

- Dywedodd 35% o staff fod Arwyddion Diogelwch wedi gwneud 'gwahaniaeth cadarnhaol iawn', a dywedodd 45% o staff ei fod wedi gwneud 'gwahaniaeth eithaf cadarnhaol' i'w hymarfer'.
- Teimlai 88% o staff fod Arwyddion Diogelwch yn 'ddefnyddiol iawn' neu'n 'eithaf defnyddiol' yn eu proses benderfynu ynglŷn â diogelwch a lles plant.
- Teimlai 26% o staff yn gadarnhaol fod Arwyddion Diogelwch yn darparu darlun/cyfeiriad/cofnod clir.

### *Profiadau sy'n peri pryder*

Mae astudiaethau o Arwyddion Diogelwch yn seiliedig ar brofiadau ymarferwyr a rhieni/plant yn amlgu rhai meysydd pryder hefyd ynglŷn ag effeithiolrwydd Arwyddion Diogelwch a gweithredu'r model yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gorbwylais ar gadw plant gyda'u teuluoedd, ar draul eu diogelwch weithiau (Skrypek, 2013).

- Aneffeithiolrwydd wrth fynd i'r afael ag achosion o esgeulustod cronig (Ibid).
- Canlyniadau anhysbys neu aneglur ar gyfer plant neu deuluoedd nad ydynt yn dilyn drwodd ar gynlluniau (Ibid).
- Anhawster yn cynnal trylwyrdd a disgyblaeth i'r model ymhlith gweithwyr (Ibid).
- Ansicrwydd ynghylch sefydlogrwydd rhwydweithiau diogelwch ar ôl cau achosion (Ibid).
- Anallu i weithwyr gynnal gwrthrychedd wrth nodi pryderon ynglŷn â rhieni (Ibid).
- Anhawster yn gwneud cytundebau ac adeiladu consensws gyda rhieni pan fo nodau'n gwrthdaro, ac yn enwedig pan fydd rhieni neu ofalwyr yn dioddef o broblemau iechyd meddwl neu pan fydd symud plentyn yn ddi-oed yn ddiangen (Sundman 2002).
- Anhawster plant a phobl ifanc (yn ogystal ag oedolion) yn deall Arwyddion Diogelwch (Alcock, 2009).

### 2.5.3 Deilliannau achosion

Mae rhai gwerthusiadau o Arwyddion Diogelwch yn asesu deilliannau achosion o ran amcanion amddiffyn plant (fel lleihad mewn digwyddiadau o gamdriniaeth neu ddigwyddiadau mynych) neu newidiadau mewn plant/teuluoedd (fel lles plentyn wedi'i asesu'n glinigol). Er bod y rhain yn amlwg yn fwy defnyddiol nag astudiaethau yn seiliedig ar brofiadau ymarferwyr a rhieni/plant o ran canfod effaith ac effeithiolrwydd Arwyddion Diogelwch, nid ydynt yn dystiolaeth 'gadarn' o effeithiolrwydd o hyd am nad yw deilliannau achos teuluoedd sy'n gysylltiedig ag Arwyddion Diogelwch yn cael eu cymharu yn unrhyw un o'r astudiaethau hyn gyda deilliannau achos teuluoedd tebyg nad ydynt yn gysylltiedig ag Arwyddion Diogelwch. Nid oes modd felly canfod p'un ai Arwyddion Diogelwch yw 'achos' unrhyw ddeilliannau achos penodol neu beidio.

Yn eu hadolygiad o Arwyddion Diogelwch a'i sail dystiolaeth, mae Wheeler a Hogg (2012) yn nodi dwy brif set ddata y gellir eu defnyddio i archwilio effaith a deilliannau achosion lle mae Arwyddion Diogelwch wedi'i gymhwyso ar draws awdurdodaethau mawr.

Mae'r gyntaf yn ymwneud â Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Sir Olmsted yn Minnesota, UDA. Yma fe ddechreuont ddefnyddio'r model Arwyddion Diogelwch gyda phob gwaith achos er 2000, ac mae pob gwaith achos yn canolbwyntio ar gynlluniau diogelwch penodol wedi'u haddasu yn ôl teuluoedd. Canfuwyd yma, yn ystod y 12 mlynedd ers gweithredu'r cynlluniau, mae'r asiantaeth wedi (Turnell 2008, dyfynnwyd yn Wheeler a Hogg 2012):

- Haneru nifer y plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal

- Haneru nifer y teuluoedd yr eir â nhw i'r llys
- Cofnodi cyfradd atgwmpo o 2% (mesurwyd drwy archwiliad talaith/ffederal), o gymharu â safon ffederal ddisgwyliedig yn yr Unol Daleithiau o 6.7%.

Fodd bynnag, ar yr un pryd â gweithredu Arwyddion Diogelwch, mae newidiadau radical eraill wedi digwydd i strwythuro'r timau, cynadledda achosion ac achosion llys, felly mae'n anodd canfod pa newid y gellir ei briodoli i (Bunn, 2013).

Daw'r ail enghraifft o Wasanaethau Cymdeithasol Cymunedol yn Sir Carver (CCCSS), hefyd yn Minnesota, UDA. Yma, fe ddechreuont weithredu Arwyddion Diogelwch ar ddiwedd 2004 (Turnell 2008, dyfynnwyd gan Wheeler a Hogg 2012). Ers hynny maent wedi gweld:

- Nifer y lleoliadau allan o'r cartref a phlant mewn gofal tymor hir yn gostwng dros y ddwy flynedd diwethaf.
- Nifer y teuluoedd sy'n gweld terfynu hawliau rhieni yn lleihau, gyda 21 o deuluoedd yn 2004 a 2005 yn mynd drwy'r broses hon o gymharu â dim ond 4 yn 2006/7.

Fe wnaeth Koziolk (2009 cyfathrebu personol, dyfynnwyd gan Wheeler a Hogg 2012) gofnodi lleihad yn nifer y plant sy'n cael eu gosod hefyd o ganlyniad i adroddiad camdriniaeth (hanner yr hyn ydoedd cyn cyflwyno Arwyddion Diogelwch) a gostyngiad yn y nifer sy'n gysylltiedig â lleoliad newydd o fewn 60 diwrnod o asesiad amddiffyn plant. Yn 2006, roedd hyn yn cynnwys 57 o blant, erbyn 2007 roedd i lawr i 35 ac erbyn 2008, 26 oedd y nifer.

Ar sail cyfweiliadau gydag ymarferwyr amddiffyn plant a dadansoddi data gweinyddol ar gyfer Sir Carver a Sir Olmstead, daw Skrypek et al. (2013) i'r casgliad:

*'gall fod rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu y gall Arwyddion Diogelwch fod yn gysylltiedig â gostyngiad yn nifer y lleoliadau allan o'r cartref ar gyfer achosion newydd, llai o blant yn dychwelyd i leoliadau ar ôl cael eu hail-uno yn eu cartrefi, a llai o achosion yn ail-agor ar gyfer gwasanaethau o fewn 6 mis o gau achosion'.*

## 2.6 Cost a gwerth am arian

Nid yw'r adolygiad hwn wedi gallu datgelu unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth am y gwerth am arian neu'r buddion cost a gynnigir gan y model.

Serch hynny, ar sail tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar gyfer buddion a all fod yn deillio o Arwyddion Diogelwch, mae cynigwyr y model wedi awgrymu fod y model yn dangos 'potensial da ar gyfer arbedion cost' (Munro, Turnell, a Murphy, 2014).

Fe wnaeth llawer o ymarferwyr Arwyddion Diogelwch yn y DU a fu'n rhan o arolwg Bunn (2013) bwysleisio'r angen i ystyried cyllid ac adnoddau wrth gyflwyno Arwyddion Diogelwch am ei fod yn aml yn golygu bod angen i nifer o

ymarferwyr neu reolwyr hyfforddi dros gyfnod amser estynedig. Er enghraifft, awgrymodd un o'r ymarferwyr a gyfwelwyd gan Bunn y byddai strategaeth gweithredu Arwyddion Diogelwch bum mlynedd ar draws awdurdod lleol cyfan yn mynnu buddsoddiad mawr o ran amser ac adnoddau. Cefnogir hyn gan y ffaith fod Munro, Turnell a Murphy wedi cael dyfarniad o £4.37 miliwn yn ddiweddar o Gronfa Arloesi Gofal Cymdeithasol yr Adran Addysg i roi Arwyddion Diogelwch ar waith ar draws deg awdurdod lleol yn Lloegr, sy'n helpu rhoi rhyw syniad o'r gost bosibl o weithredu'r model mewn un awdurdod lleol.

## 2.7 Rhoi Arwyddion Diogelwch ar Waith

Mae'r adran hon yn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â'r modd gorau o roi Arwyddion Diogelwch ar waith o ran y meysydd canlynol:

- Meincnodau gweithredu sy'n dynodi lefelau llwyddo cynnar yn y gweithredu
- Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), goruchwyliaeth a rheolaeth
- Materion gweithredu

### 2.7.1 Meincnodau gweithredu

Cafodd un o'r gwerthusiadau manylaf a gomisiynwyd yn allanol o ffactorau proses sy'n bwysig wrth roi'r model Arwyddion Diogelwch ar waith ei gynnal yn Minnesota, UDA gan Wilder Research (Skrypek 2010).

Lluniwyd nifer o feincnodau sy'n dynodi lefelau llwyddo cynnar yn y gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Datblygiad athroniaeth amddiffyn plant o "weithiwr proffesiynol fel arbenigwr" i "weithiwr proffesiynol fel partner"
- Hyder gweithwyr yn Arwyddion Diogelwch
- Ymrwymiad gweithwyr
- Ymrwymiad goruchwylwyr
- Ymrwymiad gan arweinwyr gweinyddol
- Rhannu arfer
- Proses gyfochrog mewn goruchwyliaeth
- Cynnwys ac addysgu partneriaid eraill

Maent yn awgrymu mai dim ond pan fydd y model wedi bod ar waith am dair i bum mlynedd y dylid ystyried meincnodau tymor hwy (fel boddhad teuluoedd, gostyngiad mewn lleoliadau ac ati) h.y. maent yn awgrymu y dylid defnyddio

nodweddion prosesau a gweithgarwch i fonitro llwyddiant yn y tymor byr i'r tymor canolig, yn hytrach na deilliannau ynddynt eu hunain.

### 2.7.2 Prosesau allweddol

Mae Keddell (2011) yn eu cyhoeddiad ymchwil yn dod i'r casgliad o ddadansoddi cyfweliadau (gydag ymarferwyr, rhieni, gofalwyr a phobl ifanc), bod nifer o brosesau yn cael eu gweld fel rhai sy'n hanfodol i lwyddiant model Arwyddion Diogelwch o ran helpu cyflawni ailuno yn llwyddiannus. Mae'r elfennau hyn yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng y cleient a'r gweithiwr, fel:

- Diffyg beusrwydd wrth lunio problemau gwreiddiol (h.y. ddim yn beio'r rhiant ond deall pam mae rhywbeth wedi digwydd)
- Gwrthsefyll adweithedd 'risg' wrth fonitro diogelwch (cynnal cynlluniau diogelwch rheolaidd yn gyson i werthuso unrhyw newid a risg, atal adwaith risg difeddwl gan weithiwr)
- Cred a dealltwriaeth gan weithwyr o rianta 'digon da' (bod yn realistig a chyd-drafod meini prawf ar gyfer dychwelyd)
- Gweithwyr yn credu mewn newid (mewn rhieni, ac yn sylwi pan fydd pethau yn newid/mynd yn dda).

### 2.7.3 DPP, goruchwyliaeth a rheolaeth

Mae gwerthusiadau proses o Arwyddion Diogelwch yn awgrymu fod rhan allweddol o weithredu'r model mewn sefydliad, yn ogystal â hyfforddiant a sefydlu cychwynnol, yn golygu ceisio sefydlu cymorth ar gyfer goruchwyliaeth a phrosesau sefydliadol. Fel y dywed Turnell (2012):

*'I hyfforddiant wneud gwahaniaeth, mae'n rhaid i'r syniadau a'r arferion gael eu cefnogi gan oruchwyliaeth a phrosesau sefydliadol parhaus sy'n cefnogi ac yn ymgorffori hyfforddiant ac arferion newydd'.*

Felly, mae llawer o awdurdodau sy'n gweithredu'r model a fu'n rhan o'r arolwg gan Bunn (2013) yn caffael diwrnodau ychwanegol o hyfforddiant uwch i ddatblygu arweinwyr ymarfer sydd wedyn yn gallu cynorthwyo'r staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant cyflwyniadol. Awgrymodd rhaid siroedd eu bod yn cael 'hyfforddwr ymarfer lleol'; ymarferydd gyda lefel uchel o sgiliau yn y model a fyddai'n gallu gweithio fel ymgynghorydd achosion. Yng Ngorllewin Awstralia, mae arweinwyr ymarfer yn cael hyfforddiant ychwanegol er mwyn arwain gydag ymgynghoriadau ymchwilio gwerthfawrogol, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r holl faterion, ac maent yn gallu mapio achosion yn effeithiol. Bydd proses reolaidd yn digwydd wedyn bob pythefnos neu'n fisol lle bydd arweinwyr ymarfer yn mapio achos gyda staff eraill ac yn cynnal o leiaf un ymchwiliad gwerthfawrogol. Y cam nesaf yw sefydlu proses lle bydd arweinwyr ymarfer yn cyfarfod bob mis neu ddau i adolygu gwaith. Mae'r grwpiau hyn yn cael eu harwain gan Hwylusydd Arweinwyr Ymarfer. Deirgwaith y flwyddyn, bydd



arweinwyr ymarfer yn ymgasglu mewn grŵp mawr o hyd at 60 i gael hyfforddiant, ac i adolygu a chynllunio ar gyfer y dyfodol (Bunn, 2013).

Mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd gweithwyr yn datblygu ac yn cynnal dulliau yn seiliedig ar gryfderau gyda hyder a chreadigrwydd os yw eu goruchwylwyr a'u rheolwyr wedi'u hyfforddi mew goruchwyliaeth yn seiliedig ar atebion hefyd, ac yn gweithredu hyn fel proses gyfochrog (Wheeler a Hogg, 2012). Mae Turnell (2012, 1999) yn pwysleisio pwysigrwydd goruchwyliaeth a rheolaeth ôl-hyfforddiant er mwyn arwain at weithredu'r model yn llwyddiannus:

*'Mae sefydliadau amddiffyn plant yn tueddu cyfystyru darpariaeth hyfforddiant staff fel dechrau a diwedd gweithredu, ond mewn gwirionedd hyfforddi staff mewn syniadau ac arferion newydd yw'r cam cyntaf mewn dysgu a gweithredu sefydliadol.'*

Mae pwysigrwydd sicrhau bod goruchwylwyr a rheolwyr wedi'u hyfforddi yn y model Arwyddion Diogelwch yn adlewyrchu'r awgrym gan gynigwyr y model ei fod yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei weithredu fel ffynhonnell newid system gyfan. Er enghraifft, dywedodd lluniwr y model:

*'... mae'r model yn cyflawni'r buddion mwyaf pan gaiff ei ddefnyddio fel y sylfaen ar gyfer taith ddysgu asiantaeth gyfan i greu dyfnder cynyddol yn ei drefniadaeth ac ymarfer amddiffyn plant.'*

(Turnell 2012, tud50)

Mae Bunn (2013) a Munro, Turnell a Murphy (2014) yn dadlau hefyd y credir bod datblygu a gweithredu'r model yn fwyaf llwyddiannus hefyd os yw'r sefydliad cyfan, gan gynnwys rheolwyr gwasanaethau, yn gysylltiedig â newid y 'ffordd o wneud pethau' a rennir, a sicrhau newid diwylliannol sefydliadol.

#### 2.7.4 Materion gweithredu

Mae rhai o werthusiadau proses Arwyddion Diogelwch hefyd yn amlygu materion posibl a all godi wrth weithredu'r model. Mae'r materion, goblygiadau a phryderon posibl canlynol wedi'u nodi o'r llenyddiaeth ar Arwyddion Diogelwch:

- **Newid system gyfan:** Roedd tystiolaeth yn awgrymu os nad yw'r 'system gyfan' yn cael ei hyfforddi a'i sefydlu mewn Arwyddion Diogelwch, gall fod yn llai effeithiol gan ei bod yn bosibl na fydd penderfyniadau a wneir o fewn y fframwaith yn cael eu cefnogi gan weithwyr proffesiynol eraill. Awgrymwyd y gallai'r addysg a'r hyfforddiant hwn gael ei ymestyn i bartneriaid mewn systemau eraill (e.e. llysoedd, ysgolion, iechyd y cyhoedd) i sicrhau cysondeb ar draws systemau ar gyfer teuluoedd (Idzelis et al., 2013).
- **Arwyddion Diogelwch a Risg:** Y prif bryder a drafodir gan rai awduron yn y llenyddiaeth yw ofn na fydd dull sy'n seiliedig ar atebion efallai yn delio â materion risg neu faterion amddiffyn plant gan ei fod yn canolbwyntio ar yr ochr gadarnhaol ac atebion, yn enwedig pan fydd perthynas gadarnhaol wedi'i hadeiladu gyda rhiant neu ofalwr (Bunn, 2013). Er enghraifft, mae

astudiaethau wedi tynnu sylw at y pryderon canlynol ymhlith ymarferwyr y model:

- Y ddibyniaeth ar rwydweithiau Diogelwch a Chynlluniau Diogelwch<sup>3</sup> fel dewis arall i leoliad allan-o'r-cartref, ac amheuon ynghylch sefydlogrwydd rhwydweithiau diogelwch ar ôl cau achosion (Bunn, 2013; Idzelis et al., 2013).
  - Gorbwyslais ar gadw plant gyda'u teuluoedd, ar draul eu diogelwch weithiau (Idzelis et al., 2013)
  - Aneffeithiolrwydd wrth fynd i'r afael ag achosion o esgeulustod cronig (Idzelis et al., 2013)
  - Canlyniadau anhysbys neu aneglur ar gyfer plant neu deuluoedd nad ydynt yn dilyn drwodd ar gynlluniau (Idzelis et al., 2013)
- **Integreiddio gyda fframweithiau a diwylliannau presennol:** Bydd heriau gweithredu cynnar yn digwydd weithiau ynglŷn â sut i integreiddio'r model gydag arferion presennol le gall fod offer i asesu risg, diogelwch a lles teuluoedd yn barod. Yn ogystal, mae Munro, Turnell a Murphy (2014) wedi canfod fod gweithredu Arwyddion Diogelwch (sy'n canolbwyntio ar blant/teuluoedd), ochr yn ochr â dulliau presennol sy'n canolbwyntio ar brosesau, yn arwain at weithi aneffeithiol ac aneffeithlon.
  - **Disgyblaeth, trylwylder a chysondeb.** Roedd rhai ymarferwyr, goruchwylwyr a rheolwyr yn rhannu pryder ynglŷn â'r graddau y gellir cymhwyso'r model gyda disgyblaeth, trylwylder a chysondeb (Skrypek, 2013). Canfu 'Systematic Review of Models of Analysing Significant Harm' (Barlow, et al, 2012) nad oes gan Arwyddion Diogelwch lawlyfr o ran gweithredoli parthau neu ddisgrifwyr ymddygiadol (e.e. nid yw'n awgrymu asesiad penodol o barthau heblaw am 'risg' a 'diogelwch'). Mae hyn yn golygu fod asesu parthau eraill yn cael ei adael i ddisgresiwn yr ymarferydd. Fodd bynnag, mae astudiaethau eraill yn awgrymu fod y dull hyblyg hwn yn gryfder yn y model, a'i bod yn bwysig bod y dull yn cael ei ffurfio i gyd-destunau a sefydliadau penodol (Skrypek, 2013).

---

<sup>3</sup> Mae rhwydweithiau diogelwch yn cyfeirio at ymarfer Arwyddion Diogelwch lle bydd aelodau teulu neu oedolion priodol eraill yn cael eu hystyried i helpu dewis a chyd-drafod amgylchedd diogel ar gyfer y plentyn



## 3 Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion

### 3.1 Beth ydyw?

Mae Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn ddull seiliedig ar gryfderau, sy'n pwysleisio'r adnoddau sydd gan bobl a sut gellir cymhwyso'r rhain i broses newid gadarnhaol. Datblygwyd Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion o ymarfer clinigol yn y Brief Family Therapy Centre yn Wisconsin ar ddechrau'r 1980au. Fe'i datblygwyd gan Steve de Shazer ac Insoo Kim Berg, a bwysleisiodd pwysigrwydd galluogi cleientiaid i wneud mwy o'r hyn sy'n gweithio'n dda iddynt (Woods a Green, 2011).

Yn ei hanfod, mae Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn gweithio drwy archwilio'r dyfodol y mae cleient yn ei ddymuno yn hytrach na chanolbwyntio ar broblem a datrys problem, mae'n ceisio nodi ffynonellau, cryfderau a nodau er mwyn cyrraedd dyfodol a ddymunir (ac wrth wneud hynny, mae'n newid y broblem). Bydd yr ymarferydd sy'n canolbwyntio ar atebion yn holi'n ofalus er mwyn sefydlu'r dyfodol a ddymunir ac i'w wneud yn bendant, gweladwy, realistig ac amlwg i gleientiaid wrth i gamau gael eu cyflawni tuag atynt (Bunn, 2013).

Fel dull hyblyg, mae Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion wedi'i gymhwyso ar draws ystod o gyd-destunau a grwpiau cleientiaid, yn cynnwys lleoliadau ysgolion a lleoliadau teuluoedd, gyda gweithwyr proffesiynol ac aelodau'r gymuned, mewn grwpiau ac fel unigolion.

At ei gilydd, sail dystiolaeth gychwynnol sydd gan Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion ar gyfer effeithiolrwydd.

#### 3.1.1 Egwyddorion craidd

Mae BRIEF (sefydliad hyfforddi yn y DU - <https://www.brief.org.uk/>) yn nodi'r egwyddorion craidd canlynol sy'n ganolog i Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion:

- Gweld person fel rhywbeth sy'n fwy na'u problem
- Edrych am adnoddau yn hytrach na diffygion yn unig
- Archwilio dyfodol posibl a dyfodol a ddymunir
- Archwilio beth sydd eisoes yn cyfrannu at y dyfodol hwnnw
- A thrin cleientiaid fel yr arbenigwyr yn eu bywydau a ffynhonnell yr ateb i'w problem eu hunain

#### 3.1.2 Elfennau ymarfer craidd

Mae Bunn (2013) yn nodi'r elfennau ymarfer craidd canlynol sy'n ymddangos yn fynych yn y llenyddiaeth ar Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion:

- Defnyddio cwestiwn ‘gwyrth’ i ganfod beth yw’r dyfodol y mae cleient yn ei ddymuno, ac edrych ar beth sydd eisoes yn cyfrannu at y dyfodol hwn er mwyn helpu sefydlu gweithredoedd a chamau. E.e. *“dychmygwch heno, tra’ch bod yn cysgu, bod gwyrth yn digwydd ac mae eich gobeithion o ddod yma yn cael eu gwireddu (neu mae’r problemau sy’n dod â chi yma yn cael eu datrys), ond oherwydd eich bod yn cysgu, nid ydych chi’n sylweddoli fod y wyrth hon wedi digwydd. Beth ydych chi’n mynd i sylwi sy’n wahanol am eich bywyd pan fyddwch chi’n deffro sy’n dechrau dweud wrthyfch fod y wyrth hon wedi digwydd?”*
- Defnyddio cwestiynau graddio e.e. *“lle mae 10 yn golygu eich bod yn sicr na fydd y math hwn o ddigwyddiad yn digwydd eto ac mae eich mab yn ddiogel, ac mae 0 yn golygu eich bod yn credu bod pob tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd eto, sut fyddech chi’n graddio eich sefyllfa ar hyn o bryd?”*
- Amserlennu egwyl ymgynghori (ddewisol), ac yn ystod yr amser hwnnw gall y therapydd ‘fynd at’ gydweithwyr, sydd o bosib wedi bod yn arsylwi’r sesiwn o du ôl i ddrych dwyffordd, i drafod cynnydd a phenderfynu ar dasg gwaith cartref
- Rhoi set o ganmoliaethau (ddewisol) i’r cleient sy’n myfyrio ar gryfderau ac adnoddau, gan y gall hyn gynyddu cydweithrediad
- Aseinio tasgau gwaith cartref rhwng sesiynau (lle bo’n gymwys)
- Edrych am gryfderau neu atebion, sylwi arnynt a’u henwi
- Gosod nodau
- Edrych am eithriadau i’r problem
- Agwedd barchus a chydweithredol tuag at gleientiaid, a gweld y cleient fel rhywun sydd â’r atebion a’r potensial i newid.

### 3.2 Mewnbynnau

#### *Paramedrau*

Mae sesiynau yn para rhyw awr fel arfer, ac mae ymyriadau yn rhai tymor byr iawn fel arfer, weithiau yn un sesiwn yn unig (Corcoran a Pillai, 2007). Fodd bynnag, yn ôl Macdonald (2014), mae rhwng 3 a 6.5 o sesiynau Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn cael eu darparu fel arfer.

#### *Cymwysterau proffesiynol*

Mae Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn cael ei arfer gan amrywiaeth eang o ymarferwyr o gefndiroedd proffesiynol gwahanol a all gael effaith ar ffurf a phroses cyflwyno’r model.

Mewn meta-ddadansoddiad o astudiaethau o Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion (Kim, 2008), awgrymwyd fod cymhwysedd proffesiynol mewn Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn mynnu mwy nag 20 awr o hyfforddiant.

### *Lleoliadau cyflwyno*

Mae Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn cael ei gyflwyno, a gall gael ei gyflwyno, mewn amrywiaeth eang o leoliadau, ac nid oes rhaid iddo fod yn gyfyngedig i ystafell therapi neu gwnsela. Er enghraifft, mae wedi'i gyflwyno mewn lleoliadau ysgol, teulu, proffesiynol a chymunedol.

### **3.3 Cynulleidfa darged**

Mae Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn cael ei gymhwyso i ystod eang o grwpiau cleientiaid, gan gynnwys plant a theuluoedd, ac ar draws y sbectrwm angen cyfan.

Fodd bynnag, mae Woods a Green (2012) yn awgrymu, fel dull tymor byr, efallai fod Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn fwyaf priodol i'w ddefnyddio gyda grwpiau cleientiaid gwirfoddol i fynd i'r afael â phroblemau materion unigol, yn hytrach na grwpiau cleient gorfodol sy'n debygol o fod yn wynebu heriau cymhleth a lluosog, neu lle'r ystyrir bod plant yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol. Yn yr achosion hyn, lle'r ystyrir bod y lefel angen yn cymhleth neu'n aciwt, y gweithiwr proffesiynol, i bob pwrpas, yw deiliad y broblem a gall fod yn ofyddnol iddo ddarparu ymyrraeth tymor hwy na Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion. Mae Woods a Green (2012) yn awgrymu bod rhaid i'r gwahaniaeth agwedd hwn rhwng dull statudol tymor hwy a dull tymor byrrach sy'n canolbwyntio ar y cleient gael eu cysoni cyn bod ymarferydd a rheolwr achosion yn defnyddio Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion gyda theulu lle mae pryderon ynghylch amddiffyn plant.

### **3.4 Deilliannau bwriadedig**

Gan fod Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn cael ei ddefnyddio ar draws ystod eang o grwpiau cleientiaid a chan ystod eang o weithwyr proffesiynol, a chan mai ei nod yn fras yw sicrhau cyflawni dyfodol dymunol y cleient a datrys problemau, bydd deilliannau bwriadedig Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn dibynnu ar y dyfodol a'r nodau a ddymunir gan y defnyddiwr gwasanaeth (Bunn, 2013). Fel y cyfryw, nid yw'r adolygiad hwn wedi datgelu unrhyw ddeilliannau bwriadedig penodol y mae Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn ceisio neu wedi'i ddylunio i'w cyflawni (Ibid).

Serch hynny, mae gwerthusiadau o Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion, fel y'i hadolygwyd gan Woods a Green 2012, yn ceisio asesu effaith y dull ar y deilliannau canlynol, sy'n rhoi syniad o ddeilliannau bwriadedig posibl y model:

- Gwella ymddygiad plant (mewnoli ac allanoli)
- Gwella iechyd meddwl

- Gwella presenoldeb yn yr ysgol a chyflawniad
- Lleihau problemau teuluol, yn cynnwys lleihau lleoliadau allan-o'r-cartref a diwrnodau a dreulir mewn gofal
- Gostyngiadau mewn cam-drin plant
- Gwell lleoliadau gofal a sefydlogrwydd lleoliadau maeth
- Iechyd corfforol gwell

### 3.5 Effeithiolrwydd a thystiolaeth

#### 3.5.1 Sail dystiolaeth gyffredinol

Yn eu hadolygiad systematig o dystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion, fe wnaeth Woods a Green (2012) gynnwys 38 o astudiaethau yn y gronfa o 'dystiolaeth orau' o 1990-2010, y maent yn eu diffinio fel y rhai â 'lefel ganolig o briodoldeb methodolegol' neu well. Fodd bynnag, mae nifer o gyfyngiadau yn amlwg yn y sail dystiolaeth hon, sy'n cynnwys:

- Absenoldeb grwpiau rheoli neu grwpiau cymharu
- Defnydd cyfyngedig o fesurau deilliannau dibynadwy a dilys
- Gwybodaeth gyfyngedig am y modd y gellir defnyddio elfennau therapi gwahanol a'u cyfuno gyda meysydd problem gwahanol, mathau o gleientiaid ac ymyriadau cydategol.

Mae Woods a Green (2011) hefyd yn amlygu'r bylchau canlynol mewn ymchwil:

- Effeithiolrwydd hysbys Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion mewn perthynas â grwpiau penodol fel plant hŷn neu'r rheiny ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD).
- Mae rôl elfennau therapiwtig craidd Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion mewn perthynas â deilliannau yn aneglur hefyd: roedd rhai astudiaethau ymddangosiadol lwyddiannus yn defnyddio dwy gydran therapiwtig graidd, ond mewn rhai astudiaethau llai llwyddiannus defnyddiwyd mwy o elfennau.

At ei gilydd, ymddengys bod sail dystiolaeth 'gychwynnol' ar gyfer effeithiolrwydd Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion mewn perthynas â chynulleidfaoedd penodol a deilliannau dymunol.

#### 3.5.2 Profiadau ymarferwyr a rhieni/plant

### *Profiadau ymarferwyr*

Gwnaeth Skidmore (1993) arolwg o raddedigion o dair rhaglen hyfforddi Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion er mwyn asesu eu barnau ynglŷn â rhai o elfennau ymarfer craidd Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion: cwestiynau graddio, cwestiynau eithriad, cwestiynau gwyrth, a chwestiynau newid cyn-triniaeth.

O'r pedwar cwestiwn Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion hwn, fe wnaeth therapyddion raddio'r cwestiwn gwyrth fel yr un mwyaf therapiwtig. Cwestiynau graddio a ddefnyddiwyd amlaf, ac roedd therapyddion yn graddio'r cwestiynau hyn fel y ffordd orau i werthuso cynnydd cleient. Disgrifiodd therapyddion gwestiynau eithriad fel rhai a oedd yn nodweddiadol yn arwain cleient i adrodd am eithriadau a gwelliannau yn ei broblemau/phroblemau, ac i ddisgrifio beth wnaeth i gyflawni'r newid. Graddiodd therapyddion y cwestiynau ynghylch newidiadau cyn-triniaeth fel y rhai lleiaf effeithiol o'r cwestiynau, a'r rhai anoddaf i'w defnyddio yn llwyddiannus (Skidmore, 1993).

### *Profiadau rhieni/plant*

Mae McKeel (1996) yn cyflwyno tystiolaeth i awgrymu bod cleientiaid Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn gwerthfawrogi'r ffocws ar gryfderau, sylwi ar wahaniaethau, canolbwyntio ar beth sy'n gweithio, ac awyrgylch gadarnhaol eu therapi, sy'n ddefnyddiol. Mae McKeel yn awgrymu hefyd fod cleientiaid yn elwa fwyaf ar Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion pan fyddant yn datblygu perthynas agos gyda'u therapydd, a byddant yn fwyaf beirniadol pan na fyddant yn datblygu perthynas agos neu'n teimlo nad ydynt yn cael eu clywed neu'u deall.

### 3.5.3 Deilliannau

O fewn y gronfa o 38 o astudiaethau tystiolaeth orau a adolygwyd gan Woods a Green (2011), mae 34 o astudiaethau'n dynodi rhai deilliannau cadarnhaol o leiaf ar gyfer y grŵp targed therapiwtig, a chanfu wyth astudiaeth fod ymyrraeth Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn arwain at rai deilliannau a oedd yn well na triniaeth-fel-arfer neu gyflwr rheoli.

Mae 'tystiolaeth orau' a gynhwyswyd yn adolygiad systematig Woods a Green (2011) yn rhoi tystiolaeth resymol o leiaf o effeithiolrwydd Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn y meysydd canlynol:

- Problemau ymddygiad allanoli plant (e.e. ymosoddedd, cydweithredu, triwantiaeth)\*
- Problemau mewnoli plant (e.e. iselder, hunan-barch)\*
- Gwella dealltwriaeth gwranddo a rhuglder darllen plant
- Gwella gallu teuluoedd sy'n mynd drwy ysgariad i ymdopi
- Gwella gweithredu pobl ifanc â namau datblygiadol

- Lleihau achosion mynych o gamdriniaeth
- Darparu strwythur cefnogol effeithlon i rieni a phlant gydag anabledau dysgu
- Gosod nodau ar gyfer teuluoedd plant â phroblemau ymddygiad

Y deilliannau wedi'u nodi â seren sydd â'r sail dystiolaeth fwyaf cadarn. Canfu Bond et al. (2013) hefyd fod Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion i weld yn arbennig o effeithiol fel ymyrraeth gynnar pan na fydd problemau yn rhai difrifol. Mae adolygiadau gan Gingerich a Einsengart (2000) a Corcoran a Pillai (2007) wedi nodi astudiaethau ymchwil, yr ystyrir eu bod ansawdd da, sy'n awgrymu bod Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn effeithiol ar gyfer meysydd fel sgiliau rhianta (Zimmerman, Jacobsen, MacIntyre a Watson, 1996), troseddwr glasoed gwrthgymdeithasol (Seagram, 1997) a phroblemau ymddygiad plant (Corcoran, 2006).

### 3.6 Cost a gwerth am arian

Ar sail pum astudiaeth o ansawdd uchel a ddarparodd costau amser penodol, roedd Woods a Green (2011) yn gallu cyfrifo costau ariannol uniongyrchol y pum budd cadarnhaol a gafwyd trwy ddarparu Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion. Cyflwynir eu costau tybiannol amcangyfrifedig ar gyfer Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn Ffigur 2.

*Ffigur 2 Costau tybiannol ar gyfer ymyrraeth Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion, fel y'u cyfrifwyd gan Woods a Green (2011)*

Costau tybiannol ar gyfer ymyrraeth Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion	
Costau ar gyfer hyfforddwr neu therapydd o'r tu allan	£40 yr awr neu £300 y diwrnod
Costau ar gyfer cwrs hyfforddi tridiau a fynychir yn allanol	£450 (£150 y diwrnod) + £250 o dreuliau fesul therapydd
Costau ar gyfer therapydd mewnol	£22 yr awr neu £165 y diwrnod
Costau goruchwyliaeth (un awr amser goruchwyliaeth am oriau o therapi)	£22 yr awr

Fe wnaeth Woods a Green (2011) hefyd gyfrifo mai cost uned amcangyfrifedig gymedrig darparu ymyrraeth Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion llwyddiannus oedd rhyw £248 fesul cleient (rhiant/plentyn) fesul ymyriad, gyda'r amcangyfrif cymedrig ar gyfer Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion i unigolion (£319) yn uwch nag amcangyfrifon ar gyfer Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion ar gyfer grŵp (£144) neu Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion un-sesiwn (£138). Mae Gingerich a Peterson (2013) yn awgrymu bod Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn debygol o fod yn rhatach na dulliau amgen oherwydd ei fyrder.

Fodd bynnag, dim ond dwy astudiaeth a nodwyd gan Woods a Green (2011) sy'n ceisio cyfrifo buddion Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion. Mae Seagram (1997), er enghraifft, yn cyfrifo budd o \$50,000 ar gyfer pob troseddwr ifanc sy'n cael ei adfer yn llwyddiannus gan ddefnyddio ymyriad Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion. Fodd bynnag, nid oedd y buddion canlyniadol y pennwyd eu gwerth fel \$50,000 yn cynnwys lleihad yn yr achosion o atgwmpo, na chanfuwyd unrhyw effaith o Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion ar ei gyfer. At hynny, nid yw'r astudiaeth hon wedi'i chyhoeddi ac nid yw wedi'i hadolygu gan gymheiriaid, felly nid yw'n darparu tystiolaeth gadarn.

Cynhaliodd Wake et al. (2009) werthusiad o ddefnydd meddygon teulu o Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion i leihau mynegai màs y corff ymhlith plant 5-9 oed sy'n ordew. Fodd bynnag, er gwaethaf costau sylweddol yn darparu'r ymyrraeth Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion, ni ddeilliwyd unrhyw fuddion iechyd gan y cyfranogwyr. Daeth Wake et al. (2009) i'r casgliad felly fod yr ymyrraeth Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn y cyd-destun hwn yn *'gynnydd nodedig mewn costau am ddim gwelliant gwirioneddol mewn [deilliannau]'*.

Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, fod y casgliad hwn ond yn gymwys i'r gwerth arian a gynigir gan Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion mewn cyd-destun penodol iawn.

At ei gilydd, nid oes digon o dystiolaeth i lunio casgliadau ynglŷn â chost-ffeithiolrwydd Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion.

### 3.7 Gweithredu

Ar sail eu hadolygiad systematig o Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion, mae Woods a Green (2011) yn nodi'r ffactorau sydd ei hangen ar gyfer gweithredu Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn effeithiol, yn enwedig yng nghyd-destun gwaith amddiffyn plant:

**Llywodraethu awdurdod lleol:** Lle'r ystyrir bod plant yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, dylai llywodraethu awdurdod lleol arwain dewis ymarferwyr gofal cymdeithasol ac integreiddio dulliau ymyrraeth Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion. Dylai'r cyfryw lywodraethu gynnwys y darpariaethau ar gyfer hyfforddi, goruchwyllo a rheoli ymarfer Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion mewn gofal cymdeithasol plant.

**Hyfforddiant:** Lle mae Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn cael ei ddefnyddio, mae trefniadau llywodraethu awdurdod lleol yn cael eu cynghori i bennu mai staff y mae eu hyfforddiant yn darparu'r canlynol iddynt o leiaf sy'n ymarfer Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol plant:

- Cymhwyster proffesiynol sylfaenol
- Cymwyseddau generig mewn therapïau seicolegol



- Cymwyseddau penodol mewn Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion
- Meta-gymwyseddau, yn cynnwys:
  - Dealltwriaeth o pam y gallai Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion fod yn ddefnyddiol mewn achos penodol a sut gellir ei integreiddio'n ddiogel i elfennau angenrheidiol eraill o asesu ac ymyrryd cynhwysfawr a thymor hwy ar gyfer y plentyn a'r teulu
  - Y gallu i werthuso'r sail ymchwil ar effeithiolrwydd Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion
  - Y gallu i werthuso effeithiolrwydd Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion fel rhan o'r ymyrraeth gyda phlentyn unigol a theulu.

**Hyfforddiant arbenigol:** Bydd defnyddio Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion wrth ymgymryd ag ymyriadau statudol gyda phlant sy'n dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol yn mynnu hyfforddiant/datblygiad arbenigol ychwanegol mewn gwasanaeth gan ymarferwyr arbenigol profiadol sydd â hanes o lwyddo mewn rhoi ymyriadau Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion ar waith yn llwyddiannus ym maes amddiffyn plant.

**Goruchwyliaeth:** Dylai ymarferwyr sy'n defnyddio ymyriad Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion mewn gwaith amddiffyn plant feddu ar lefelau priodol o oruchwyliaeth ymarfer Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion proffesiynol gan ymarferydd profiadol a hyfforddedig arall.

**Defnyddio Cofnodion:** Dylai pob ymarferydd Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion gadw cofnodion cynhwysfawr a phriodol o bob sesiwn therapiwtig. Mewn achosion amddiffyn plant, dylai'r cyfryw gofnodion fod ar gael i weithiwr cymdeithasol dyranedig y plentyn a'i reolwr llinell, a dylent adolygu'r achos yn rheolaidd a gwerthuso perthnasedd gwybodaeth o sesiynau therapiwtig i'r asesiad o anghenion y plentyn a'r cynllun dilynol.

**Rheoli:** Fel rhan o adolygu achosion yn rheolaidd lle mae'r model yn cael ei ddefnyddio, dylai rheolwyr llinell ymgynghori ag ymarferwyr achosion Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion a'u goruchwylwyr ymarfer i werthuso effeithiolrwydd a pherthnasedd yr ymyriad Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion.

**Cymhwysedd i ymarfer:** Dylai ymyriad Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion unrhyw ymarferydd yn ystod camau statudol gwaith amddiffyn plant ddilyn cyfnod o ymarfer Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion cymwys gyda grŵp cleientiaid gwirfoddol.

### 3.8 Beirniadaethau o Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion

Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu, fel y soniwyd eisoes mewn perthynas â chynulleidfa darged Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion, nad yw'r therapi hwn o bosibl yn effeithiol gyda phob grŵp cleientiaid neu bob lefel angen. Yn benodol, awgrymodd yr Adolygiad Achos Difrifol i farwolaeth Peter Connelly:



*'Tra'n pwysleisio bod cryfderau rhieni yn bwysig, nid yw Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn gydnaws â'r ymagwedd awdurdodol at rieni yng ngham amddiffynnol ymholiadau, asesu a chynhadledd amddiffyn plant'.*

Bwrdd Lleol Haringey ar gyfer Diogelu Plant, 2009

Yn ddigon tebyg, mae Stalker, Levene a Coady (1999) yn dadlau fod natur fer Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn ei wneud yn llai effeithiol gyda phroblemau mwy difrifol; hefyd, gallai ei duedd i esgeuluso asesu cyd-destunol eang gelu'r dadansoddiad o broblemau arwyddocaol, fel y rhianta a'r gofal y mae plant yn eu derbyn. Yn fyr, mae Woods a Green (2011) yn awgrymu bod Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion yn ddull a allai alluogi ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar y cleient gyda rhieni, gyda fawr o asesu gwrthrychol, neu ddim o gwbl, o'r broblem ar gyfer y plentyn.

## 4 Model Hackney Adfer Gwaith Cymdeithasol

### 4.1 Beth ydyw?

Mae Adfer Gwaith Cymdeithasol yn rhaglen a ddatblygwyd ym Mwrdeistref Hackney yn Llundain gyda'r nod o wella gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd. Yn ôl gwerthusiad annibynnol gan Cross et al. (2010), mae'r model yn deillio o gydnabod fod gwaith cymdeithasol yn broffesiwn arbennig o heriol sy'n mynnu ystod o sgiliau cymhleth, sylfaen gadarn mewn gwybodaeth broffesiynol a dealltwriaeth o'i sail dystiolaeth. Mae'r rhaglen hefyd wedi deillio o ymdeimlad fod sgil proffesiynol ac ymreolaeth broffesiynol gweithwyr cymdeithasol wedi cael eu diraddio gan strwythurau rheoli a gynlluniwyd i wella atebolrwydd a rheolaeth risg, ond sydd wedi newid y ffordd y mae gweithwyr cymdeithasol yn rhyngweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau yn sylweddol. Mae'r system yn seiliedig ar ddull systemig a theori dysgu cymdeithasol.

Mae Adfer Gwaith Cymdeithasol hefyd yn ceisio sicrhau newid diwylliannol ac ailsefydlu ffocws gwaith cymdeithasol ar y teulu, yn hytrach nag ar y gweinyddu a'r fiwrocratiaeth y mae'r gwaith wedi'i ymgorffori ynddynt. Mewn Adfer Gwaith Cymdeithasol, gall gweinyddu ddod yn fwy o swyddogaeth gefnogol ddilys yn hytrach na baich i ymarfer.

Mae Morning Lane Associates, sef ymgynghoriaeth a sefydlwyd gan Steve Goodman ac Isabelle Trowler a ddatblygodd y model, yn adrodd eu bod yn gweithio gyda 30 o'r 152 o awdurdodau lleol yn Lloegr<sup>4</sup> ar hyn o bryd.

At ei gilydd, o ran effeithiolrwydd, mae sail dystiolaeth ffurfiannol i Adfer Gwaith Cymdeithasol.

#### 4.1.1 Ffactorau sefydliadol

##### *Model uned systemau*

Nodwedd ganolog i'r model Adfer Gwaith Cymdeithasol yw cyflwyno 'unedau' gwaith cymdeithasol sy'n cynnwys pum gweithiwr proffesiynol, bob un ohonynt â rôl a set sgiliau benodol. Gweithir gyda'r teulu (neu blentyn) ar y cyd o fewn y tîm hwn, a chynhwysir unigolion gwahanol fel yr ystyrir yn briodol. Mae'r 'unedau' gwaith cymdeithasol yn cynnwys:

- Gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol – sy'n arwain yr uned, sydd â chyfrifoldeb yn y pen draw am wneud penderfyniadau ynglŷn ag achosion ac sy'n darparu arbenigedd ac arweinyddiaeth

<sup>4</sup> <http://www.communitycare.co.uk/2013/07/16/stress-busting-hackney-model-under-threat-from-cherry-picking-councils/>

- Gweithiwr cymdeithasol cymwys – mae ei rôl yn debyg i'r rôl mewn awdurdodau eraill
- Ymarferydd plant – efallai nad yw'n gymwys, er ei fod yn aml yn weithiwr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso
- Cydlynnydd unedau – sy'n darparu cymorth gweinyddol uwch, ychydig fel cynorthwydd personol ar gyfer yr uned
- Clinigwr 0-.5 sy'n therapydd systemig cymwys, ac yn gallu darparu mewnbwn therapiwtig i deuluoedd neu blant sydd ei angen.

I bob pwrpas, mae'r strwythur staffio hwn yn golygu fod Adfer Gwaith Cymdeithasol yn seiliedig ar gymhareb un goruchwyliwr (y gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol) i ddau ymarferydd (y gweithiwr cymdeithasol a'r ymarferydd plant), gyda goruchwyliaeth a mewnbwn clinigol ychwanegol ar gael gan y Clinigwr.

Gelir y modelau unedau yn 'fodelau unedau systemig' gan eu bod yn defnyddio dull systemig o weithio gyda phlant a theuluoedd, ac fe'i archwilir ymhellach isod. Torrwyd tir newydd gyda modelau unedau systemig yn Hackney o 2007 (Durr, 2011; Hackney 2008), gyda nifer o awdurdodau lleol eraill yn rhoi'r model cyfan neu elfennau o'r model ar waith yn fwy diweddar (gweler er enghraifft, Swydd Gaergrawnt, 2012, Ynys Wyth, 2011).

### *Gwasanaeth ymateb cyntaf*

Ail nodwedd sefydliadol allweddol Adfer Gwaith Cymdeithasol yw ad-drefnu'r ffordd y delir ag atgyfeiriadau sy'n dod i mewn. Delir ag atgyfeiriadau o fewn Adfer Gwaith Cymdeithasol gan wasanaeth Ymateb Cyntaf, sef y pwynt cysylltu cyntaf. Bydd y staff yn cymryd yr atgyfeiriad, yn penderfynu p'un a yw'n bodloni'r trothwy ar gyfer gwasanaeth 3 haen, yn darparu helpu ar unwaith lle bo angen, ac os yw'n ofynnol, yn pasio ymlaen at fynediad ac asesu lle bydd yr uned yn ymgymryd â'r atgyfeiriad. I bob pwrpas, mae cyflwyno adran Ymateb Cyntaf yn brysbennu achosion cyn eu pasio ymlaen at Fynediad ac Asesu (Cross et al., 2010).

Mae'r unedau Mynediad ac Asesu yn cwblhau asesiad cychwynnol wedyn, ac os bydd angen asesiad craidd. Maent yn gweithio o fewn yr arweiniad a'r graddfeydd amser rheoleiddiol i ddatblygu a phennu trefniadau diogelu (Cross et al. 2010).

#### 4.1.2 Ymarfer systemig

Yn ychwanegol at y newidiadau strwythurol i'r ffordd y trefnir y gwasanaeth, mae Hackney yn hyrwyddo ac yn darparu hyfforddiant mewn defnyddio dull systemig a theori dysgu cymdeithasol gyda theuluoedd. Mae'r theorïau hyn hefyd yn

tanategu MST (fe'u harchwilir yn adran 5)<sup>5</sup>. Disgwylir i bob uned gwaith cymdeithasol ymgynghorol i ymgyfarwyddo ag ymarfer systemig, gydag ysgol o ymyriadau ymddygiadol a'u cymhwysu at waith gyda theuluoedd. Y bwriad yma yw cyflawni cydbwysedd rhwng lliniaru risgiau i'r plentyn a gwella ansawdd yr ymyrraeth gefnogol er mwyn:

- Galluogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn
- Darparu'r gallu i ddefnyddio dull myfyriol er mwyn helpu deall, asesu a chynllunio
- Cyflawni cydbwysedd rhwng nodi'r risgiau i'r plentyn a chryfderau'r teulu
- Defnyddio ymarfer systemig mewn gwaith uniongyrchol gyda theuluoedd
- Darparu ymyrraeth glinigol gynnar lle bo'n briodol.

Mae hyfforddiant a datblygiad sgiliau'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar y dulliau hyn yn hytrach na dyfarniadau ôl-gymhwysol mwy cyffredinol neu ddyfarniadau eraill (Cross et al., 2010). Mae dulliau systemig yn gweld teuluoedd fel systemau yn hytrach nag unigolion, gyda'r system deuluol yn rhyngweithio gyda systemau ehangach fel y teulu ehangach, y gymdogaeth neu systemau proffesiynol. Gwelir felly fod problemau yn y teulu yn deillio o anawsterau systemig a bod angen ymyriadau sy'n helpu'r system deuluol i newid neu sy'n newid ei rhyngweithio gyda systemau ehangach (Forrester et al., 2013b). Mae hanes hir i theori systemig o fewn gwaith cymdeithasol, ac mae rhywfaint o dystiolaeth ei fod yn ffordd effeithiol o helpu teuluoedd â phroblemau difrifol (Ibid).

#### 4.1.3 Nodweddion craidd

Yn eu gwerthusiad cymharol o Adfer Gwaith Cymdeithasol, nododd Forrester et al. (2013a) chwe nodwedd graidd y model unedau systemig a manteision y dull a welwyd neu a ragdybiwyd:

- **Gwaith ar y cyd:** Caiff achosion eu dyrannu i'r ymgynghorydd a'u cadw o fewn unedau. Mae hyn yn golygu bod teuluoedd a phlant yn derbyn mewnbwn gan weithwyr lluosog fel bo'n briodol. Roedd yn galluogi lefel fewnbwn fwy ar gyfer teuluoedd cymhleth neu yn ystod argyfwng. Mae'n symud gwaith cymdeithasol o fod yn weithgarwch preifat yn bennaf rhwng gweithiwr a rhieni neu blant, i fod yn weithgarwch ar y cyd.
- **Nifer ac ansawdd trafodaethau am achosion:** Mae gweithio ar y cyd yn golygu bod rhaid trafod achosion llawer mwy. Gan mai'r uned sy'n dal cyfrifoldeb am achosion, ceir ôl-drafodaethau anffurfiol ar ôl pob ymweliad bron, a cheir trafodaeth fanwl strwythuredig am bob plentyn a theulu yn

<sup>5</sup> Er bod dull systemig a theori dysgu cymdeithasol yn sail i Adfer Gwaith Cymdeithasol, nid yw MST fel model therapiwtig trwyddedig yn nodwedd o Adfer Gwaith Cymdeithasol.


rheolaidd. Gall hyn hefyd helpu i gyfrannu at gymorth emosiynol a chyfyngiant i weithwyr.

- **Dull systemig ar y cyd:** Mae ffyrdd systemig o feddwl yn llywio trafodaethau a phenderfyniadau ar gyfer plant a theuluoedd. Mae'r dulliau hyn yn addas iawn ar gyfer annog archwilio safbwyntiau ac esboniadau gwahanol, ac ar gyfer crynhoi adnoddau teulu. Mae'n helpu darparu iaith gyffredin ar gyfer meddwl yn greadigol ynglŷn ag achosion.
- **Rôl y Cydlynnydd Unedau:** Mae cydlynwyr unedau yn fwy na gweinyddwyr: maent yn cydlynu gwaith y tîm. Maent mwy fel "Cynorthwydd Personol" neu gynorthwydd personol ar gyfer yr uned na gweinyddwr confensiynol, am eu bod yn ymdrin ag ystod eang o dasgau. Dylai fod dealltwriaeth dda ganddynt o'r hyn sy'n mynd ymlaen ym mhob achos, ac maent yn delio â llawer o drefniadau ymarferol. Mae plant a theuluoedd sy'n gysylltiedig ag unedau yn adnabod cydlynwyr unedau yn dda yn aml. Maent yn delio ag achosion brys, yn rhoi cefnogaeth a chymorth i weithwyr a theuluoedd o faterion mân fel problemau gyda thrafnidiaeth, i aros yn hwy yn cefnogi gweithwyr mewn achosion brys. Mewn rhai ystyron, mae cydlynwyr unedau yn darparu'r "glud" sy'n cadw unedau ynghyd.
- **Rolau Eraill:** Roedd gan yr ymgynghorydd rôl allweddol i'w chwarae. Roeddent yn debyg i ddirprwy reolwyr tîm mewn modelau traddodiadol, ond roedd y ffaith eu bod yn gweithio gyda theuluoedd ac yn rheoli achosion yn golygu bod ganddynt fewnwelediad mwy uniongyrchol i mewn i deuluoedd.
- **Datblygu sgiliau:** Mae'r model yn pennu'r dulliau y mae eisiau i weithwyr eu defnyddiol sef dull systemig a dull dysgu cymdeithasol. Mae'n buddsoddi'n helaeth yn y dulliau hyn, gan ddisgwyl i weithwyr ymgymryd â chysiau a ddarperir yn allanol, yn hytrach na hyfforddiant gwaith cymdeithasol ôl-gymhwysol confensiynol.

Mae damcaniaeth newid ar gyfer y modd y mae'r nodweddion trefniadol, damcaniaethol ac ymarferol hyn mewn Adfer Gwaith Cymdeithasol yn gweithredu i sicrhau newid, ar lefel awdurdod lleol, uned/tîm, ymarfer a deilliannau yn cael ei dangos yn Ffigur 3.

*Ffigur 3 Crynodeb o'r model Adfer Gwaith Cymdeithasol*

Figur 1: Sut mae'r model unedau systemig yn gweithio



## 4.2 Cynulleidfa darged

Mae Adfer Gwaith Cymdeithasol wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio gan ymarferwyr amddiffyn plant pan fyddant yn gweithio gyda phlant a theuluoedd sy'n agored i niwed. Yn y dull unedau systemig, ceir ymgais i ganolbwyntio ar achosion mwy difrifol a gweithio'n fwy dwys gyda nhw (Forrester et al., 2013a).

## 4.3 Mewnbynnau

Ym mhob uned, mae'n ofynnol i staff sy'n cyflwyno'r model Adfer Gwaith Cymdeithasol i feddu ar y cymwysterau canlynol:

- Mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol ymgynghorol feddu ar gymhwyster gwaith cymdeithasol a gydnabyddir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (h.y. Lefel 7 neu uwch), fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor a bod â thystiolaeth o DPP a lefel wybodaeth arbenigol.
- Mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol feddu ar gymhwyster gweithiwr cymdeithasol a gydnabyddir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (h.y. Lefel 7 neu uwch).
- Mae'n rhaid i ymarferwyr plant feddu ar radd (h.y. Lefel 6 neu uwch).
- Clinigwyr
- Cydlynnydd unedau - sy'n darparu cymorth gweinyddol uwch, ychydig fel cynorthwydd personol i'r uned
- Mae'n rhaid i glinigwyr feddu ar gymhwyster lefel 7 neu 8.

Hefyd, wrth symud at y model unedau systemig yn Hackney, roedd yn rhaid i bob un o'r staff ail-ymgeisio am eu swyddi ac ni chafodd cyfran uchel ohonynt eu hail-gyflogi yn y model newydd. Recriwtiodd Hackney staff newydd, brwdfrydig ac (efallai) medrus iawn (Forrester et al., 2013a).

Yn ogystal â darparu cymhareb 1:2 goruchwylwyr i ymarferwyr yn effeithiol, mae'r model unedau systemig yn mynnu llai o feichiau achosion fesul gweithiwr, o rhwng 25%-50% yn llai nag mewn unedau traddodiadol (Ibid.). Mae hyn yn awgrymu bod angen lefel uchel o fuddsoddiad i gyflawni Adfer Gwaith Cymdeithasol.

#### 4.4 Deilliannau bwriadedig

Nod Adfer Gwaith Cymdeithasol yw lliniaru risg a gwella ansawdd gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd (Cross et al., 2010). Mae deilliannau bwriadedig Adfer Gwaith Cymdeithasol, fel y'u nodir gan Forrester et al. (2013a) yn cynnwys:

- Llai o ddigwyddiadau difrifol
- Achosion yn cael eu cau yn gyflymach
- Llai yn mynd i mewn i ofal
- Ymgysylltiad gwell gan deuluoedd
- Llai o ymddygiad ymosodol
- Cymeradwyaeth rhieni
- Mwy o gytundeb rhwng gweithwyr proffesiynol a theuluoedd

#### 4.5 Effeithiolrwydd a thystiolaeth

##### 4.5.1 Sail dystiolaeth gyffredinol

Tynnwyd sylw at Adfer Gwaith Cymdeithasol gan Munro fel enghraifft o arfer da yn ei Hadolygiad Amddiffyn Plant olaf (Yr Adran Addysg, 2011) ac, yn Cross et al. (2010) gwerthusiad o Adfer Gwaith Cymdeithasol, maent yn dod i'r casgliad bod modd nodi '*newidiadau cadarnhaol sylweddol*' o ganlyniad i Adfer Gwaith Cymdeithasol. Fodd bynnag, 'ffurfiannol' ar y gorau y gellir disgrifio'r sail dystiolaeth ar gyfer yr effeithiolrwydd. Dim ond dau werthusiad annibynnol o Adfer Gwaith Cymdeithasol sydd wedi'u nodi gan yr adolygiad hwn:

- **Reclaiming Social Work: London Borough of Hackney Children and Young People's Services** (gwerthusiad Cross, Hubbard a Munro, 2010). Roedd hwn yn defnyddio dull 'gwerthuso realistig' sy'n asesu cyd-destun, mecanweithiau a deilliannau. Roeddent yn defnyddio dyluniad ymchwil dulliau cymysg. Mae eu hasesiad o ddeilliannau yn seiliedig ar gyfweiliadau gydag un ar ddeg o deuluoedd yn ogystal â dadansoddiad o ddangosyddion perfformiad allweddol o Hackney cyn i Adfer Gwaith Cymdeithasol gael ei gyflwyno, ac ar



ôl hynny, a hefyd mewn cymhariaeth â dangosyddion perfformiad allweddol o 'gymydog ystadegol' a'r cyfartaledd cenedlaethol.

- **Reclaiming social work? An Evaluation of Systemic Units as an Approach to Delivering Children's Services** (Forrester et al., 2013). Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio dull 'sy'n canolbwyntio ar theori' sy'n ceisio darparu disgrifiad manwl o natur y gwasanaeth, y ffyrdd y mae elfennau gwahanol yn gysylltiedig a'r mathau o ddeilliannau sy'n cael eu cynhyrchu. Cynhaliodd werthusiadau cydamserol o ymarfer gwaith cymdeithasol mewn dau awdurdod lleol arall er mwyn cymharu gyda'r canfyddiadau o Hackney, er bod yr ALLau hyn yn eithaf gwahanol. Defnyddiodd dyluniad ymchwil dulliau cymysg hefyd. Dim ond data cyfyngedig a gasglwyd ar farnau rhieni neu blant, ac nid oedd yr un yn edrych yn uniongyrchol ar ddeilliannau.

Fel y mae awduron yr astudiaethau hyn eu hunain yn cydnabod, mae'r dyluniadau ymchwil a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiadau hyn yn golygu nad oes modd nodi effaith Adfer Gwaith Cymdeithasol ar ddeilliannau ar gyfer plant a theuluoedd yn hyderus. Fodd bynnag, mae'r adran hon yn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael ar effeithlonrwydd Adfer Gwaith Cymdeithasol ar sail tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud ag ymarfer a arsylwyd, a phrofiadau ymarferwyr a rhieni/plant da dangosyddion perfformiad allweddol.

#### 4.5.2 Ymarfer a arsylwyd

Mae tystiolaeth i gysylltu Adfer Gwaith Cymdeithasol â'r effeithiau cadarnhaol canlynol o ran ymarfer gwaith cymdeithasol:

- **Maint gwaith gyda phlant a theuluoedd** – Mae'r model yn gysylltiedig ag ymarferwyr yn treulio mwy o amser gyda phlant a theuluoedd nag mewn dulliau gwaith cymdeithasol traddodiadol. Er enghraifft, yn y tri awdurdod lleol a arsylwyd gan Forrester et al. (2013), roedd gweithwyr yn treulio dros ddwy awr y dydd gyda theuluoedd yn Hackney ar gyfartaledd, o gymharu ag 1.5-1.75 awr yn y ddau awdurdod lleol arall. Fodd bynnag, mae gan ymarferwyr Adfer Gwaith Cymdeithasol gryn dipyn yn llai o achosion fesul gweithiwr hefyd (rhwng 50% a 25% yn llai nag yn y ddau awdurdod lleol cymharu). O ganlyniad, roedd plant a theuluoedd yn gweld eu gweithiwr yn amlach hefyd. Canfu Cross et al. (2010) hefyd:

*'Mae unedau yn teimlo eu bod yn gallu treulio mwy o amser mewn gwaith uniongyrchol gyda'r teulu ac maent yn hyderus, os yw defnyddiwr gwasanaethau yn galw, eu bod yn debygol iawn o gyrraedd rhywun sy'n gwybod am eu hachos.'*

Awgrymont fod rhannu beichiau achosion rhwng aelodau uned fel hyn yn galluogi cynnal ymddiriedaeth gyda theuluoedd yn ystod adegau anodd a'i fod yn gwneud cysylltiadau rhwng gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol teuluoedd a phlant yn haws. Yn rhannol yn sgil y cynnydd mewn amser hwn a dreulir gyda theuluoedd, mae Cross et al. (2013) yn dadlau bod Adfer Gwaith Cymdeithasol wedi sicrhau newid diwylliant sefydliadol, a'r rhan bwysicaf o hynny fu ailsefydlu prif ffocws gwaith cymdeithasol ar y teulu.



- **Ansawdd gwaith gyda phlant a theuluoedd.** Yn benodol, nododd Forrester et al. (2013) y manteision canlynol yn yr ALI sy'n gweithredu'r model Adfer Gwaith Cymdeithasol:
  - Cysondeb perthnasoedd gyda rhieni, plant a phobl ifanc
  - Perthnasoedd cynhesach, llai gweinyddol neu wrthdrawiadol, yn enwedig gyda phlant mewn gofai neu blant ar ôl bod mewn gofai
  - Roedd perthnasoedd gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yn fwy cadarnhaol, ac anaml yn heriol neu'n ofidus
  - Mwy o gysondeb mewn ymarfer da ar draws ymarferwyr
- **Ansawdd gwneud penderfyniadau** – Canfu'r ddau werthusiad fod y model Adfer Gwaith Cymdeithasol yn hwyluso trafod sefydliadol lefel uchel, ymarfer myfyriol, anghytundeb creadigol, dealltwriaeth wahanol o'r materion mewn achos a dulliau neu ffyrdd newydd o weithio, a hwylusir yn rhannol gan weithwyr proffesiynol â setiau sgiliau gwahanol yn dod at ei gilydd. Mae hyn yn helpu sicrhau penderfyniadau gwybodus ac ystyriol iawn.

Gwelodd Forrester et al. (2013) fod proses benderfynu effeithiol yn cael ei hwyluso gan y defnydd cyson o ffordd "systemig" o weithio a oedd yn canolbwyntio ar gynhyrchu damcaniaethau ynglŷn â beth oedd yn mynd ymlaen mewn teuluoedd a beth ellid ei wneud yn ei gylch. Roedd y rhan fwyaf o drafodaethau a arsylwyd yn dechrau gyda "genogram" (math o siart achau) yr ymhelaethwyd arno yn ystod y drafodaeth. Roedd hyn yn sicrhau bod aelodau o'r teulu ehangach a rhwydweithiau eraill yn cael eu hystyried wrth asesu a gweithio gyda theuluoedd.

Canfu Cross et al. (2011) a Forrester et al. (2013) fod Adfer Gwaith Cymdeithasol yn cael ei werthfawrogi mwy gan weithwyr na'r dull mwy traddodiadol a'i rhagflaenodd. Yn benodol, roedd y Cydlynnydd Unedau yn cael ei werthfawrogi gan ei fod yn lleihau'r baich gweinyddu ar weithwyr proffesiynol sy'n ymarfer (Forrester et al, 2013).

#### 4.5.3 Profiad ymarferwyr

Mae tystiolaeth i awgrymu fod Adfer Gwaith Cymdeithasol yn gysylltiedig â'r buddion cadarnhaol canlynol o ran profiad ymarferwyr:

- Gwell perthnasoedd gyda rhieni
- Llai tebygol o gael eu trin yn ymosodol gan rieni
- Llai tebygol o gael eu bygwth yn gorfforol gan rieni
- Adroddodd gweithwyr am lefelau uwch o foddhad yn eu swydd
- Lefelau is o straen ymhlith ymarferwyr
- Cynnydd o ran rhwyddineb gweithio mewn partneriaeth a mynediad i wybodaeth

#### 4.5.4 Profiadau teuluoedd a phlant

Gwnaeth Forrester et al. (2013) arolwg o deuluoedd sy'n defnyddio ymarferwyr mewn uned Adfer Gwaith Cymdeithasol a theuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau gan dimau gwaith cymdeithasol traddodiadol. Roedd gwahaniaeth arwyddocaol a chadarnhaol yn ystadegol yn y graddau y gwnaeth rhieni raddio'r agweddau canlynol ar eu profiad:

- Mae ein gweithiwr yn deall fy nheulu a'n sefyllfa
- Mae ein gweithiwr yn siarad yn barchus â ni
- Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn broffesiynol
- Mae ein gweithiwr yn cyrraedd yn brydlon
- Mae ein gweithiwr a minnau yn cytuno ar y rhesymau dros gynnwys gwaith cymdeithasol
- Rwy'n gallu siarad gyda fy ngweithiwr cymdeithasol ynglŷn â'm problemau
- Byddwn yn argymhell gwasanaethau cymdeithasol i ffrind

Yn eu cyfweiliadau gyda theuluoedd, disgrifiodd ymatebwyr bod eu cyfathrebu gydag unedau gwaith cymdeithasol yn dda mewn 8 allan o 11 o achosion, a bod perthnasoedd yn dda mewn 8 allan o'r 10 o achosion (Cross et al, 2010).

#### 4.5.5 Dangosyddion perfformiad allweddol

Y prif ddata y mae Cross et al. (2010) yn ei gyflwyno fel tystiolaeth o ddeilliannau cadarnhaol yn deillio o Adfer Gwaith Cymdeithasol yw dangosyddion perfformiad allweddol cenedlaethol ar gyfer Hackney o gymharu â pherfformiad blaenorol, yn ogystal â chyfartaleddau cenedlaethol a 'chymydog ystadegol' ar gyfer Hackney. Fodd bynnag, mae Cross et al. eu hunain yn cydnabod mai fel mesurau allbwn y gellir ystyried y rhan fwyaf o'r dangosyddion hyn ar y gorau. Caiff y canlyniadau eu crynhoi yn Ffigur 4.

*Ffigur 4 Crynodeb o ddangosyddion perfformiad allweddol model Hackney Adfer Gwaith Cymdeithasol o gymharu â 'chymydogion ystadegol' a'r cyfartaledd cenedlaethol, 2008-09*

Dangosydd allweddol	Canlyniadau	Crynodeb o berfformiad Adfer Gwaith Cymdeithasol o gymharu â:	
		Cymydog ystadegol	Cyfartaledd cenedlaethol

Dangosydd allweddol	Canlyniadau	Crynodeb o berfformiad Adfer Gwaith Cymdeithasol o gymharu â:	
Iechyd emosiynol ac ymddygiadol plant sy'n derbyn gofal (SDQ survey)	Mae sgôr Hackney yn uwch na mesur y cymdogion ystadegol ac yn gyson â'r cyfartaledd cenedlaethol	✓ <sup>6</sup>	0 <sup>7</sup>
Canran yr asesiadau cychwynnol ar gyfer gofal cymdeithasol plant a gynhaliwyd o fewn 7 diwrnod gwaith i atgyfeiriad	Mae hyn wedi codi o 63% i 78% dros dair blynedd ac erbyn hyn mae ychydig yn uwch na'r cymdogion ystadegol a'r cyfartaledd cenedlaethol <sup>8</sup> .	✓	✓
Canran yr asesiadau craidd ar gyfer gofal cymdeithasol plant a gynhaliwyd o fewn 35 diwrnod gwaith i'w cychwyn	Ar 79.4%, mae Hackney yn agos iawn i fesur cymdogion ystadegol (80%) ac ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (78%).	0	0
Amseroldeb lleoliadau plant sy'n derbyn gofal ar gyfer mabwysiadu yn dilyn penderfyniad gan asiantaeth y dylid rhoi'r plentyn i'w fabwysiadu	Mae Hackney yn sgorio 45.5% o gymharu â 75.8% ar gyfer y cyfartaledd cenedlaethol a 78.8% ar gyfer cymdogion.	X <sup>9</sup>	X
Sefydlogrwydd lleoliadau plant sy'n derbyn gofal: nifer y	Yn Hackney cyfran y plant a oedd yn cael eu lleoli ac yn cael tri	✓	✓

<sup>6</sup> '✓' Defnyddiwyd y symbol hwn i ddynodi bod Hackney wedi sgorio gryn dipyn yn uwch na'r un o'r ddau gymharydd.

<sup>7</sup> '0' Defnyddiwyd y symbol hwn i ddynodi bod Hackney wedi sgorio tua'r un peth ag wyth cymharydd.

<sup>8</sup> Gall hyn adlewyrchu effaith newid strwythurol drwy gyflwyno tîm Ymateb Cyntaf wrth sgrinio achosion allan islaw trothwyau allweddol.

<sup>9</sup> 'X' Defnyddiwyd y symbol hwn i ddynodi bod Hackney wedi sgorio gryn dipyn yn is na'r un o'r ddau gymharydd.

Dangosydd allweddol	Canlyniadau	Crynodeb o berfformiad Adfer Gwaith Cymdeithasol o gymharu â:	
Ileoliad	neu fwy o leoliadau oedd 8.3% o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol 10.7% a mesurau cymdogion 12.2%.		
Sefydlogrwydd lleoliadau plant sy'n derbyn gofal: hyd y lleoliad	Caiff sefydlogrwydd ei fesur fel dim newid mewn lleoliadau mewn cyfnod dwy flynedd. Ar 72.2% mae Hackney uwchlaw cymdogion a'r cyfartaledd cenedlaethol, ar 67.9% a 67% yn y drefn honno.	✓	✓ <sup>10</sup>
Cynlluniau amddiffyn plant sy'n para dwy flynedd neu fwy	Mae 9.9% o gynlluniau amddiffyn plant yn para dwy flynedd neu fwy yn Hackney o gymharu â'r cymdogion ystadegol ar 8% a'r cyfartaledd cenedlaethol 6%.	✓	✓ <sup>11</sup>
Canran y plant sy'n dod yn destun cynllun amddiffyn plant am yr eildro neu am gyfnod dilynol	Mae mesurau Hackney yn isel ar hyn o bryd ar 8.4% o gymharu ag 11% a 13% ar gyfer cymdogion ystadegol a'r cyfartaledd cenedlaethol	✓	✓
Achosion plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu hadolygu o fewn graddfeydd amser gofynnol	Hackney 85%  Cymdogion Ystadegol – 95%	X	X

<sup>10</sup> Mae'r ddau yma yn cynrychioli mantais o 5% yn unig i Hackney o gymharu â chymdogion ystadegol neu'r cyfartaledd cenedlaethol.

<sup>11</sup> Budd bach

Dangosydd allweddol	Canlyniadau	Crynodeb o berfformiad Adfer Gwaith Cymdeithasol o gymharu â:	
	Lloegr – 91%  Ond mae Hackney wedi gwella o 48% yn 2005/6		
Canran yr achosion amddiffyn plant a gafodd eu hadolygu o fewn graddfeydd amser gofynnol	Ni chanfuwyd lawer o wahaniaethau yn genedlaethol ar gyfer y mesur hwn, gyda'r cyfartaledd cenedlaethol yn 99% a Hackney a'r cymdogion ystadegol yn cyflawni 100%.	0	0
Pobl sy'n gadael gofal mewn llety addas	Mae Hackney yn cymharu'n dda â'r cymdogion ystadegol a'r cyfartaledd cenedlaethol.	✓	✓
Pobl sy'n gadael gofal mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant	Nid yw Hackney yn dangos unrhyw wahaniaeth gwirioneddol o gymharu â chymdogion ystadegol a'r cyfartaledd cenedlaethol.  Hackney: 65%  Cymdogion Ystadegol: 66%  Lloegr: 63%	0	0

Heblaw hynny, yn Hackney, fe wnaeth nifer y plant sy'n derbyn gofal ostwng 30% yn ystod y cyfnod 2005/6 i 2008/9. Dyfynnir y newid hwn yn aml fel tystiolaeth o effeithlonrwydd y model Adfer Gwaith Cymdeithasol (e.e. Cross et al, 2010). Fodd bynnag, fel y noda Forrester et al. (2013), fe wnaeth y rhan fwyaf o'r

gostyngiad yn nifer y plant mewn gofal ddigwydd rhwng 2005 a 2007, ac felly roedd yn rhagflaenu'r model unedau systemig.

At hynny, ni wnaeth nifer y plant sy'n derbyn gofal yn Hackney ostwng yn aruthrol rhwng 2008/9 (tua 325 o blant yn ôl Cross et al) a 2010 (pan oedd 302 o blant yn derbyn gofal<sup>12</sup>).

#### 4.6 Cost a gwerth am arian

Yn absenoldeb data deilliannau cadarn, nid oes unrhyw ddadansoddiad cost a budd o Adfer Gwaith Cymdeithasol wedi'i gynnal. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg o'r buddion cost posibl a allai ddeillio o Adfer Gwaith Cymdeithasol. Yn benodol, mae cost gyffredinol gwaith cymdeithasol plant yn Hackney wedi gostwng 4.97% yn ystod Adfer Gwaith Cymdeithasol. Effeithir yn uniongyrchol ar y gostyngiad hwn gan y gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, mwy o sefydlogrwydd lleoliadau a llai o gostau gofal preswyl.

Mae gofal preswyl yn gostus ac mae data Ofsted 2010 ar gyfer Hackney yn dynodi bod llai nag 11% o blant a oedd yn derbyn gofal mewn lleoliadau preswyl, o gymharu ag 17% o blant mewn cymdogion ystadegol a'r cyfartaledd cenedlaethol 15%. Ar gyfer 2007/08, cyn cyflwyno'r model Adfer Gwaith Cymdeithasol, roedd y gwariant ar ofal preswyl yn £4.3 miliwn. Fe wnaeth y gostyngiad yn y gwariant ar ofal preswyl ddisgyn dros 14% i lai na £3.7 miliwn yn 2008/09 ac ar ôl hynny i £3.2 miliwn yn 2009/10 (gostyngiad pellach o 14%) (Cross et al., 2010). Hwyluswyd y lleihad mewn costau hefyd gan ostyngiad nodedig o 55% mewn diwrnodau staff yn cael eu colli drwy salwch (Cross et al, 2010). O ran costau, roedd hyn yn golygu gostyngiad yn y gwariant ar staff asiantaeth i gyflenwi yn ystod diwrnodau salwch staff o dros £6m i lai na £4m.

Yn ogystal, mae'r ffaith fod Cronfa Arloesi Gofal Cymdeithasol yr Adran Addysg wedi dyfarnu £4.2 miliwn i Morning Lane Associates i roi'r model Adfer Gwaith Cymdeithasol ar waith mewn pum awdurdod lleol yn dangos beth yw'r costau<sup>13</sup>.

#### 4.7 Gweithredu

##### 4.7.1 Newid systemau

Rhoddyd y model Adfer Gwaith Cymdeithasol ar waith yn Hackney yn y gred mai'r ffordd orau o sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau diogelu plant a theuluoedd drwy newid system gyfan, ac mae ymgynghorwyr Morning Lane yn parhau i hyrwyddo cyflwyno'r model fesul cam fel ffynhonnell newid system gyfan.

<sup>12</sup> <http://www.eastlondon.nhs.uk/About-Us/Our-Board/Trust-Performance/Hackney-Safeguarding-Inspection-Ofsted-Report-10-July-2012.pdf>

<sup>13</sup> <http://springconsortium.com/4-2m-to-reclaim-social-work-across-the-country/>

Defnyddiodd Hackney fframwaith McKinsey 7S i ysgogi newid a gwella gwasanaethau, ac mae'n cydnabod, er mwyn i newid systemau cyfan fod yn fwyaf llwyddiannus, fod angen i saith maes allweddol newid ar yr un pryd a chysoni â nod canolog y sefydliad:

- **Gwerthoedd a rennir:** Mae staff yn y sefydliad yn rhannu agwedd ac ymagwedd debyg at y gwaith a wneir gyda theuluoedd, gan gynnwys ymrwymiad sylfaenol i gadw plant yn ddiogel gyda'u teuluoedd lle bynnag y bo modd.
- **Strwythur:** Mae'r holl achosion yn cael eu cadw o fewn Unedau Gwaith Cymdeithasol amlddisgyblaethol, fel y trafodir uchod. Caiff yr holl achosion eu trafod mewn cyfarfodydd unedau wythnosol.
- **Systemau:** Mae systemau wedi'u hail-ddylunio i sicrhau eu bod yn gwella ymarfer proffesiynol e.e. lleihau gweithdrefnau lleol, systemau recordio sy'n canolbwyntio ar y teulu, adolygiad achosion ansoddol ac ati.
- **Arddull:** Anogir yr holl staff i weithio ar y cyd a gyda pharch, gan wahodd teuluoedd ac eraill i ymuno â'r broses o ddod o hyd i atebion. Mae'n amlwg mai buddiannau plant yw'r ysgogwr ar gyfer penderfyniadau.
- **Sgiliau:** Mae'r gwasanaeth yn rhagnodol ynglŷn â methodoleg (mabwysiadu ymarfer systemig a theori dysgu cymdeithasol) ac yn hyrwyddo dull systemig o ymarfer. Cyflwynwyd y model unedau systemig gan Hackney drwy ofyn i bob un o'r staff ail-ymgeisio am eu swyddi. Arweiniodd hyn at weithlu a newidiodd yn sylweddol, a gynhaliwyd trwy broses ddethol parhaus.
- **Strategaeth:** Mae ar y sefydliad angen gweithwyr proffesiynol sy'n meddu ar lefel sgiliau uchel, gweithwyr sydd â diddordeb ac yn gallu cynllunio a chyflwyno ymyriadau sy'n gweithio, yn ogystal â rheoli gwaith achos gwaith cymdeithasol yn briodol. Rheoli risg yw'r cyd-destun uchaf ar gyfer pob ymarferydd. Bydd gweithlu medrus a sefydlog, gyda'r gallu a chymhelliant i helpu teuluoedd, yn lleihau'r nifer o blant y mae angen iddynt ddod i mewn i ofal neu aros mewn gofal. Mae hyn yn lleihau costau comisiynu yn sylweddol, a gellir ail-fuddsoddi'r arian hwn wedyn mewn gwasanaethau ataliol neu ei ryddhau fel arbedion effeithlonrwydd o flwyddyn i flwyddyn. Cymerir camau cyflym i dynnu plant allan yn barhaol lle bo angen, gydag ymarferwyr yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod trefniadau parhaol gwahanol yn cael eu sicrhau.

Mae Forrester et al. (2013) yn amlygu hefyd, ar sail eu canfyddiadau, pwysigrwydd hanfodol arweinyddiaeth effeithiol ac ymrwymiad gan y sefydliad cyfan i wneud i unedau weithio. Maent yn awgrymu bod y model unedau systemig yn llawer mwy nag unedau systemig; a'i fod yn ymwneud yn fwy sylfaenol â diwygio system gyfan gyda'r nod o gyflawni gweledigaeth am waith cymdeithasol rhagorol. Dönt i'r casgliad:

*'Yn y pen draw, efallai, nid y model ei hun yw'r hyn sydd bwysicaf ynglŷn â'r model unedau systemig. Yn hytrach, yr hyn sy'n bwysig yw*



*y gall helpu ymagor ffordd wahanol o gyflwyno Gwasanaethau Plant. Wrth wneud hynny, gall ein galluogi ni i gwestiynu rhai o'r rhagdybiaethau sylfaenol sydd wedi tueddu treiddio i'r ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu trefnu a'u cynnal yn y DU ac mewn llawer o wledydd eraill, fel y duedd gyffredinol bron i ddyrannu teuluoedd i weithwyr unigol, a pha mor anaml y bydd Gwasanaethau Plant yn pennu ac yna'n cefnogi'r dulliau ymyrryd y credant y dylai gweithwyr fod yn eu defnyddio'.*

#### 4.7.2 Gwersi cyffredinol ar gyfer gwasanaethau plant

Mae gwersi/nodweddion cyffredinol yr oeddent i gyd yn bresennol ym model Adfer Hackney ond a allai fod yn bresennol mewn timau mwy confensiynol, fel yr amlygwyd gan Forrester et al. (2013) yn cynnwys:

- Cymorth sefydliadol ymarferol ehangach ar gyfer gwasanaethau plant: roedd darparu gofod digonol, systemau TG da a chymorth ymarferol arall ar gyfer ymarfer yn hanfodol.
- Cymorth gweinyddol cadarn: mae angen cymorth gweinyddol da ar weithwyr cymdeithasol, ac mae cymorth gweinyddol sy'n debycach i gynorthwydd personol na rhywun biwrocratig yn ffeilio ffurflenni o gymorth mawr wrth gyflawni'r rôl gwaith cymdeithasol.
- Timau bach: un o'r mewnwelediadau allweddol a oedd yn sail i'r model unedau systemig oedd bod timau bach yn gweithio'n well, a gwelsom hyn mewn timau confensiynol hefyd.
- Cymhareb uchel goruchwylwyr i staff: gyda chymhlethdod y teuluoedd y bydd gweithwyr yn delio â nhw, gall goruchwylwyr ond reoli nifer gyfyngedig o weithwyr cymdeithasol yn effeithiol. Roedd cymhareb ddigonol o oruchwylwyr i staff yn hanfodol i'r sefydliad weithio.
- Recriwtio staff o ansawdd uchel: mae'n sicr yn wir bod ansawdd staff sy'n cael eu recriwtio a'u cadw yn llywio gallu Gwasanaethau Plant i gyflwyno gwasanaethau'n effeithiol.
- Baich gwaith cyfyngedig: o ystyried cymhlethdod y gwaith, dim ond gyda nifer gymharol fach o deuluoedd y gall gweithwyr cymdeithasol weithio'n effeithiol. Mae dyrannu mwy nag y gallant ymdrin â nhw yn golygu bod gweithwyr a rheolwyr yn penderfynu'n ffurfiol neu'n anffurfiol i flaenoriaethu rhai a rhoi sylw cyfyngedig i rai eraill. Mae rheoli beichiau achosion – hyd yn oed os yw hynny'n golygu gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â gweithio gyda theuluoedd blaenoriaeth uchel yn unig – yn angenrheidiol er mwyn galluogi cyflwyno gwasanaethau effeithiol.

#### 4.7.3 Beirniadaethau o'r model Adfer Gwaith Cymdeithasol



Mae Ray Jones, Athro Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Kingston a chyn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, wedi rhannu'r pryderon canlynol ynglŷn â chyflwyno a gweithredu'r model Adfer Gwaith Cymdeithasol<sup>14</sup>:

- Mae'r gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol, fel deiliad achosion, yn dal cyfrifoldeb achosion uniongyrchol am nifer fawr o blant a theuluoedd a hefyd am reoli a goruchwyllo gweithwyr eraill yn ei uned. Mae hyn yn golygu y gall y gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol mewn rhai ardaloedd fod yn ddeiliad achosion enwebedig ar gyfer 60-80 o blant.
- Yn ail, nid yw'r unedau bach o bump i saith o weithwyr, gyda dim ond un neu ddau o bob math, yn gydnerth. Mae rhywun yn gadael neu'n absennol, ac nid yw'r uned yn gynaliadwy na'n hyfyw ar ei phen ei hun. Mae'n rhaid i waith gael ei rannu gydag unedau eraill neu bydd ôl-groniadau yn digwydd yn gyflym.
- Yn drydydd, mae hwn yn strwythur costus ar draws awdurdod mawr sydd â niferoedd cymharol uchel o weithwyr cymdeithasol ymgynghorol cyflog uwch i'w recriwtio. Hefyd, mae'r mater o nodi digon o weithwyr cymdeithasol ymgynghorol sy'n gallu ac yn barod i gymryd cyfrifoldeb am lawer o achosion, tra'n rheoli ac yn goruchwyllo gweithwyr eraill yn eu huned. Mae rhai wedi gweld bod hyn yn amhosibl ac yn anghynaliadwy.

---

<sup>14</sup> <http://www.communitycare.co.uk/2013/10/24/i-am-now-anxious-about-how-the-hackney-model-is-being-interpreted-and-rolled-out/>

## 5 Therapi Aml-systemig

### 5.1 Beth ydyw?

Mae Therapi Aml-systemig (MST) yn ymyrraeth ddwys gyda'r teulu a'r gymuned<sup>15</sup> ar gyfer plant a phobl ifanc 11-17 oed, lle mae pobl ifanc mewn perygl o leoliad allan o'r cartref naill ai mewn gofal neu yn y ddalfa oherwydd eu troseddu neu am fod ganddynt broblemau ymddygiad difrifol.

Mae timau Therapi Aml-systemig yn canolbwyntio ar fyd cyfan yr unigolyn ifanc, neu'r 'system'/'ecoleg' y maent ynddi - eu cartrefu a'u teuluoedd, ysgolion ac athrawon, cymdogaethau a ffrindiau. Bydd therapyddion ymweld â'r teulu yn eu cartref a'u cymuned ar adegau sy'n gyfleus iddynt, gan gredu bod hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn ymgysylltu'n llwyddiannus mewn Therapi Aml-systemig. Mae staff y model yn gweithio gyda theuluoedd am dri i bum mis, gan gynnwys bod ar alwad i deuluoedd 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos. Mae modd darparu gwasanaeth mor ddwys am fod therapyddion yn gweithio gyda nifer gyfyngedig o deuluoedd ar unrhyw un adeg.

Nod Therapi Aml-systemig yw torri'r cylch o ymddygiadau gwrthgymdeithasol trwy gadw pobl ifanc yn ddiogel gartref, yn yr ysgol, ac allan o unrhyw helynt. Mae'n gweithio i gynyddu sgiliau ac adnoddau'r rhieni a gofawyr i reoli ymddygiadau eu hunigolyn ifanc yn fwy effeithiol. Mae therapyddion yn derbyn lefel uchel o hyfforddiant a goruchwyliaeth, ac yn defnyddio dulliau fel therapi ymddygiadol, therapi gwybyddol ymddygiadol a therapi teulu strwythuredig i weithio gyda phobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae aelodau teulu yn cydweithredu gyda therapyddion Therapi Aml-systemig i gynllunio cynllun triniaeth dros dri i bum mis. Mae'r cynllun yn gwneud synnwyr i'r teulu ac yn adeiladu ar y cryfderau yn eu bywydau er mwyn cynnwys rhieni a phlant.

Mae Therapi Aml-systemig yn ymddangos ar fwyafrif helaeth y rhestrau perthnasol o ymarferion yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd, mae'n rhaglen modelau glasbrintiau<sup>16</sup>, ac mae'n cael ei chydnabod ai lledaenu'n eang (Littell, n.d). At ei gilydd, o ran effeithiolrwydd, mae sail dystiolaeth sefydledig i'r rhaglen. Fodd bynnag, mae'r sail dystiolaeth hon wedi'u beirniadu yn argyhoeddiadol.

#### 5.1.1 Sylfeini damcaniaethol

<sup>15</sup>Er y caiff Therapi Aml-systemig ei ddisgrifio mewn termau clinigol, iechyd meddwl yn gyffredinol (e.e. 'therapydd'), mae'n cael ei ddefnyddio mewn lleoliadau anghlinigol yn aml.


<sup>16</sup> Mae Blueprints for Healthy Youth Development yn darparu cofrestrfa o raglenni datblygu ieuencid cadarnhaol yn seiliedig ar dystiolaeth wedi'u cynllunio i hyrwyddo iechyd a lles plant a'r rhai yn eu harddegau. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: <http://www.blueprintsprograms.com/about.php>

Mae'r model yn tynnu'n bennaf ar theori ecolegol a theori systemau teulu. Mae'n rhagdybio bod problemau ymddygiadol yr unigolyn ifanc yn cael eu pennu gan nifer o ffactorau sy'n bodoli ar lefel yr unigolyn ifanc, ei deulu/theulu, cyfoedion, ysgol, cymdogaeth a'r gymuned. Mae Therapi Aml-systemig felly yn helpu aelodau teulu i nodi cryfderau ym mhob un o'r 'systemau' hyn ac i fynd i'r afael â risgiau ac anawsterau sy'n benodol i system.

Yn benodol, mae'r model Therapi Aml-systemig yn rhagdybio mai'r sawl sy'n rhoi gofal i'r plentyn yw'r prif gyfrwng newid. Am y rheswm hwn, mae'r therapydd Therapi Aml-systemig yn gweithio'n agos gyda rhieni/gofalwyr yr unigolion ifanc i roi strategaethau iddynt i wella eu perthynas gyda'u plentyn, cyfyngu ar gyswllt eu plentyn gyda chyfoedion gwyrddroadol, gwella perfformiad eu plentyn yn yr ysgol a lleihau gweithgareddau troseddol eu plentyn yn y gymdogaeth a'r gymuned (Yr Adran Addysg, n.d.).

Cyflwynir y theori newid sy'n sail i Therapi Aml-systemig, fel y'i crynhoir gan yr Adran Addysg, yn Ffigur 5.

*Ffigur 5 Crynodeb o'r theori newid sy'n sail i Therapi Aml-systemig*



### 5.1.2 Naw egwyddor graidd

Mae'r naw egwyddor graidd sy'n sail i Therapi Aml-systemig fel a ganlyn (YR Adran Addysg, n.d.):

- **Canfod y cydweddiad:** Gwneir asesiad i ddeall y "cydweddiad" rhwng problemau a nodwyd a sut maent yn datblygu ac yn gwneud synnwyr yng nghyd-destun cyfan amgylchedd yr unigolyn ifanc. Mae asesu "cydweddiad" llwyddiannau'r unigolyn ifanc yn helpu i arwain y broses driniaeth hefyd.
- **Canolbwyntio ar nodweddion cadarnhaol a chryfderau:** Mae therapyddion ac aelodau tîm Therapi Aml-systemig yn pwysleisio'r nodweddion cadarnhaol y maent yn eu canfod ac yn defnyddio cryfderau ym myd yr unigolyn ifanc fel ysgogwyr ar gyfer newid cadarnhaol. Mae nifer o fanteision i ganolbwyntio ar gryfderau'r teulu, fel adeiladu ar strategaethau y mae'r teulu eisoes yn gwybod sut i'w defnyddio, meithrin teimladau o obaith, nodi ffactorau amddiffynnol,

lleihau rhwystredigaeth trwy bwysleisio datrys problemau a gwella hyder rhieni neu ofalwyr.

- **Cynyddu cyfrifoldeb:** Mae ymyriadau wedi'u cynllunio i hyrwyddo ymddygiad cyfrifol a lleihau gweithredoedd anghyfrifol gan aelodau teulu.
- **Ffocws ar y presennol, yn canolbwyntio ar gamau gweithredu ac wedi'u diffinio'n bendant:** Mae ymyriadau yn delio â'r hyn sy'n digwydd nawr ym mywyd yr unigolyn ifanc. Mae therapyddion yn edrych am gamau gweithredu y gellir eu cymryd ar unwaith, gan dargedu problemau penodol ac wedi'u diffinio'n bendant. Mae ymyriadau o'r fath yn galluogi cyfranogwyr i olrhain cynnydd y driniaeth a darparu meini prawf clir er mwyn mesur llwyddiant. Disgwylir i aelodau teulu weithio tuag at nodau trwy ganolbwyntio ar atebion sy'n canolbwyntio ar y presennol, yn hytrach na chael mewnwelediad neu ganolbwyntio ar y gorffennol. Pan fydd y nodau wedi'u cyrraedd, gall y driniaeth ddod i ben.
- **Targedu dilyniannau:** Mae ymyriadau yn targedu dilyniannau ymddygiad o fewn a rhwng elfennau rhyngweithiol amrywiol bywyd yr unigolyn ifanc—teulu, athrawon, cartref, ysgol a chymuned—sy'n cynnal y problemau a nodwyd.
- **Yn briodol yn ddatblygiadol:** Caiff ymyriadau eu sefydlu i fod yn briodol i oedran yr unigolyn ifanc a chydweddu i'w anghenion datblygiadol. Mae pwyslais datblygiadol yn pwysleisio adeiladu gallu'r unigolyn ifanc i gyd-dynnu'n dda gyda chyfoedion a chaffael sgiliau academiaidd a galwedigaethol a fydd yn hyrwyddo trosglwyddo'n llwyddiannus i fywyd oedolyn.
- **Ymdrech barhaus:** Mae ymyriadau yn mynnu ymdrech ddyddiol neu wythnosol gan aelodau'r teulu fel bod yr unigolyn ifanc a'r teulu yn cael cyfleoedd mynych i ddangos eu hymrwymiad. Mae manteision ymdrechion dwys ac amlweddol i newid yn cynnwys datrys problemau'n gyflymach, nodi'n gynharach pa bryd fydd angen addasu ymyriadau'n fanwl, gwerthuso deilliannau'n barhaus, ymyriadau cywirol mwy mynych, mwy o gyfleoedd i aelodau'r teulu brofi llwyddiant a rhoi grym i'r teulu i gyd-drefnu eu newidiadau eu hunain.
- **Gwerthuso ac atebolrwydd:** Caiff effeithiolrwydd ymyriadau ei werthuso'n barhaus o sawl persbectif, gydag aelodau tîm Therapi Aml-systemig yn cael eu dwyn i gyfrif am oresgyn rhwystrau rhag deilliannau llwyddiannus. Nid yw Therapi Aml-systemig yn labelu teuluoedd fel rhai "gwrthwynebol, heb fod yn barod am newid neu'n ddi-gymhellant." Mae'r model hwn yn osgoi beio'r teulu ac yn gosod y cyfrifoldeb am ddeilliannau triniaeth cadarnhaol ar y tîm Therapi Aml-systemig.
- **Cyffredinol:** Mae ymyriadau wedi'u cynllunio i roi'r gallu i'r rhieni/gofalwyr i fynd i'r afael ag anghenion y teulu pan fydd yr ymyrraeth ar ben. Gwelir bod y rhieni/gofalwr yn allweddol i lwyddiant hirdymor. Aelodau'r teulu sy'n ysgogi'r broses newid mewn cydweithrediad â'r therapydd Therapi Aml-systemig.

### 5.1.3 Therapi Aml-systemig ar waith

Mae therapyddion Therapi Aml-systemig yn dechrau asesu anghenion y teulu yn ystod eu cyfarfod cyntaf gyda'r teulu. Bryd hynny, mae'r therapydd yn gofyn am farnau pob aelod o'r teulu ynglŷn â'u problemau sylfaenol, eu hachosion a'u nodau ar gyfer triniaeth. Yn ystod y broses hon, bydd y therapydd yn aml yn defnyddio genogram i gipio gwybodaeth bwysig am ansawdd y perthnasoedd rhwng aelodau'r teulu a'u cefnogwyr teulu allanol. Ar ôl y cyfarfod cyntaf hwn, bydd y therapydd yn ymgynghori ag ysgol yr unigolyn ifanc ac unigolion eraill o'r gymuned sy'n gysylltiedig ag achos yr unigolyn ifanc. Bydd y therapydd yn defnyddio'r wybodaeth hon wedyn, ynghyd â'i farn glinigol, i gynhyrchu damcaniaeth ynglŷn â'r prif broblemau y mae'r teulu yn eu hwynebu a'r strategaethau gorau ar gyfer trin y problemau hyn.

Mae'r therapydd yn rhannu ei ddamcaniaeth gyda'r goruchwyliwr Therapi Aml-systemig er mwyn penderfynu beth yw'r driniaeth orau sy'n 'cydweddu' i'r teulu. Mae'r therapydd Therapi Aml-systemig hefyd yn gweithio ar y cyd â'r teulu i benderfynu ar y cynllun triniaeth. Bydd y therapydd ac aelodau'r teulu yn adolygu'r cynllun hwn yn barhaus wedyn er mwyn pennu i ba raddau y mae'n bodloni anghenion y teulu. Caiff priodoldeb y cynllun ei adolygu hefyd yn ystod goruchwyliaeth barhaus y therapydd (Yr Adran Addysg, n.d.).

Mae ymgysylltiad rheini/gofalwyr yn ganolog i waith Therapi Aml-systemig gyda phob teulu. I'r rhaglen wneud cynnydd, mae'n rhaid i bob aelod o'r teulu weithio'n agos gyda'r therapydd i ddiffinio'r problemau, gosod nodau a chyflawni ymyriadau. Mae cyflwyno'r sesiynau yng nghartref y teulu yn cael gwared ar rwystrau cyffredin rhag cael mynediad i'r rhaglen, ac mae therapyddion yn ymgymryd â llwythi achosion isel fel bod yr amser ganddynt i fod ar gael i deuluoedd 24 awr y dydd. Caiff y therapydd ei addysgu hefyd i fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar gryfderau ac adnabod pwysigrwydd cyd-destun diwylliannol y teulu. Mae'n ofynnol iddo/iddi feddu ar y sgiliau sy'n eu galluogi i feithrin a chynnal ymgysylltiad rhieni. Mae teuluoedd yn cael cymorth hefyd gydag anghenion ymarferol a all fod yn rhwystr rhag ymyriadau; er enghraifft, un strategaeth gyffredin a ddefnyddir i gynnwys holl aelodau'r teulu a chreu cydberthynas therapiwtig gadarn yw i'r therapydd Therapi Aml-systemig ddod â bwyd i'r sesiynau.

#### 5.1.4 Addasiadau Therapi Aml-systemig

Mae Therapi Aml-systemig wedi'i addasu a'i deilwra ar gyfer cynulleidfaoedd targed amrywiol ac anghenion penodol. Mae addasiadau o'r fath yn cynnwys Therapi Aml-systemig i bobl ifanc rhwng 10 ac 17 oed sy'n cyflwyno'r anghenion neu'r materion canlynol:

- Cam-drin neu esgeulustod plant
- Ymddygiad rhywiol problemus
- Camddefnyddio sylweddau
- Ail-integreiddio yn dilyn gofal

### *Therapi Aml-systemig ar gyfer Cam-drin ac Esgeulustod Plant*

Mae Therapi Aml-systemig ar gyfer Cam-drin ac Esgeulustod Plant (MST-CAN) yn addasiad o Therapi Aml-systemig a ddatblygwyd i drin teuluoedd sydd wedi dod i sylw'r Gwasanaethau Plant yn sgil cam-drin corfforol a/neu esgeulustod ac sydd ag un neu fwy o blant 10 i 17 oed sy'n destun cynllun amddiffyn plant.

Mae Therapi Aml-systemig ar gyfer Cam-drin ac Esgeulustod Plant yn gweithio gyda theuluoedd i gadw plant yn y cartref gyda mwy o ddiogelwch. Y ffocws yw darparu triniaeth i'r teulu cyfan, gyda sylw arbennig yn cael ei roi i rieni oresgyn rhai o'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth rianta. Mae'n gyffredin iawn i rieni mewn rhaglenni Therapi Aml-systemig ar gyfer Cam-drin ac Esgeulustod Plant fod wedi cael profiad o ddigwyddiad trawmatig a darperir triniaeth i helpu goresgyn effaith trawma.

Mewn rhaglenni Therapi Aml-systemig ar gyfer Cam-drin ac Esgeulustod Plant, cynhwysir llawer iawn o gynllunio diogelwch yn ogystal â thriniaeth ar gyfer anawsterau rheoli dicter, cam-drin sylweddau ymhlith rhieni neu bobl ifanc, a datrys problemau teulu a phroblemau cyfathrebu.

Mae'r tîm yn darparu triniaeth yng nghartref y teulu ar amserau hyblyg, gyda gwasanaeth ar alw 24/7 i helpu'r teulu i reoli argyfyngyngau allan o oriau. Mae'r driniaeth yn ddwys ac yn para chwech i naw mis.

Ar hyn o bryd, ceir timau Therapi Aml-systemig ar gyfer Cam-drin ac Esgeulustod Plant yn Swydd Gaergrawnt, Greenwich a Leeds. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y rhaglen yma: [www.mstcan.com](http://www.mstcan.com)

### *Therapi Aml-systemig ar gyfer Ymddygiad Rhywiol Problemus*

Mae Therapi Aml-systemig ar gyfer pobl ifanc ag ymddygiad rhywiol problemus (MST-PSB) yn targedu pobl ifanc 10 i 18 oed sydd wedi cyflawni trosedd rhywiol neu ymosodiad rhywiol ar aelod o'r teulu ac sydd wedi dod i sylw gofal cymdeithasol plant. Mae Therapi Aml-systemig ar gyfer Ymddygiad Rhywiol Problemus wedi'i adeiladu ar sail Therapi Aml-systemig safonol, ac felly mae'n ceisio mynd i'r afael â'r llawer o ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad rhywiol problemus.

Dim ond gydag ychydig o deuluoedd ar y tro y bydd therapyddion Therapi Aml-systemig ar gyfer Ymddygiad Rhywiol Problemus yn gweithio, a byddant yn gweld yr unigolyn ifanc a'r teulu yn lleoliad eu cartref. Yn ystod y driniaeth, bydd therapyddion yn ceisio:

- Mynd i'r afael â'r teulu a'r unigolyn ifanc yn gwadu bod problem
- Canolbwyntio ar yr agweddau ar amgylchedd yr unigolyn ifanc sy'n cyfrannu at y dramgwyddaeth rhywiol
- Helpu'r rheini neu'r gofalmwyr i adeiladu rhwydweithiau cymorth



- Dangos i rieni/gofalwyr sut i ddarparu arweiniad a chymorth diamwys fel bod yr unigolyn ifanc yn gallu datblygu sgiliau cymdeithasol a fydd yn ei (g)alluogi i sefydlu perthnasoedd iach gyda ffrindiau

Ar hyn o bryd, mae tîm Therapi Aml-systemig ar gyfer Ymddygiad Rhywiol Problemus yn gweithio yng Nghanolfan Brandon yn Llundain, tîm yn cwmpasu Cynghorau Bwrdeistref Bedford, Canol Swydd Bedford, Swydd Gaergrawnt a Peterborough, a thîm yn Sheffield.

I gael rhagor o wybodaeth am Therapi Aml-systemig ar gyfer Ymddygiad Rhywiol Problemus, ewch i: [www.mstpsb.com](http://www.mstpsb.com)

### *Therapi Aml-systemig ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau*

Mae Therapi Aml-systemig ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau (MST-SA), a elwir hefyd yn MST-CM ar gyfer MST manylach gyda phrotocolau Rheoli Hapddigwyddiadau, yn trin pobl ifanc sy'n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Yn ogystal â Therapi Aml-systemig safonol, Therapi Aml-systemig ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yw'r unig addasiad arall y dangoswyd ei fod yn effeithiol gyda'r boblogaeth hon.

Er bod ei sylfeini mewn Therapi Aml-systemig lle bydd therapyddion yn gweithio gydag ychydig o deuluoedd yn unig ar y tro i roi arweiniad i rieni a'r rhai sy'n rhoi gofal, mae Therapi Aml-systemig ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yn rhoi ffocws manwl ar gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Ym mhob sesiwn, bydd y therapydd yn penderfynu p'un a yw'r unigolyn ifanc yn defnyddio cyffuriau ac yn yfed alcohol ar hyn o bryd. Os mai'r ateb yw 'ydy', ceisir canfod y rhesymau sylfaenol am y camddefnyddio sylweddau (pwysau cyfoedion a diflastod, er enghraifft), ac adeiledir ymyrraeth. Os mai'r ateb yw 'nac ydy', caiff y ffactorau a arweiniodd at yr unigolyn ifanc yn rhoi'r gorau iddi eu sicrhau er mwyn dylanwadu ar ymddygiad yn y dyfodol.

Gyda'r rhai sy'n rhoi gofal, mae timau Therapi Aml-systemig ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yn datblygu cynllun ysgrifenedig penodol ar gyfer yr unigolyn ifanc, a bydd y rhai sy'n rhoi gofal yn gorfodi'r cynllun. Bwriad y cynllun yw cadw'r unigolyn ifanc rhag cymryd cyffuriau ac yfed alcohol yn ormodol.

Mae'n rhaid i bob unigolyn ifanc gymryd hyfforddiant arbenigol mewn sgiliau gwrthod cyffuriau, sy'n cynnwys llawer o chwarae rôl fel bod yr unigolyn ifanc yn gallu gweld ffyrdd effeithiol o 'ddweud na yn syml'. Caiff yr unigolyn ifanc ei addysgu hefyd sut i ddod allan o sefyllfa lle mae cyffuriau neu alcohol yn cael eu cynnig.

Un rhan bwysig o'r rhaglen yw cynnal hap-broffion cyffuriau bob hyn gan ddibynnu ar y cyffur o ddewis. Er enghraifft, mae canabis yn aros yn y system, felly mae profion wythnosol yn ddigonol. Mae cocên ar y llaw arall yn gweithio'n gyflym, gan olygu bod rhaid cynnal profion dyddiol. Caiff y rhai sy'n rhoi gofal eu haddysgu sut i weld ac olrhain defnydd o gyffuriau ac alcohol. Caiff canlyniadau eu cysylltu â'r canlyniadau negyddol, ac mae gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol yn rhan annatod o Therapi Aml-systemig ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau. Mae'r cymhellion hyn (a'r canlyniadau) wedi'u pennu mewn contract ysgrifenedig.



Ar hyn o bryd, mae timau Therapi Aml-systemig ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yng Nghanolfan Brandon ac yn Swydd Gaergrawnt. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: [www.mstservices.com](http://www.mstservices.com)

### *Therapi Aml-systemig - Pontio Teuluol Integredig (MST-FIT)*

Mae'r model Therapi Aml-systemig ar gyfer Pontio Teuluol Integredig yn defnyddio egwyddorion Therapi Aml-systemig safonol gydag elfennau ychwanegol i fynd i'r afael â materion a chyd-destunau penodol pobl ifanc yn dychwelyd adref o ofal. Yn yr Unol Daleithiau lle cafodd ei ddatblygu, mae'n darparu gwasanaethau unigol a theuluol i droseddwr ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl ac sy'n camddefnyddio sylweddau yn ystod y cyfnod pontio o leoliadau preswyl yn ôl i'r gymuned. Mae nodau'r rhaglen Pontio Teuluol Integredig yn cynnwys cryfhau perthnasoedd teuluol, lleihau camddefnydd sylweddau yr unigolyn ifanc, gwella ei (h)iechyd meddwl, cynyddu ymddygiad rhag-gymdeithasol a lleihau'r risg o droseddu lle mae hyn yn rhan o'r broblem. Hefyd, cysylltu'r teulu gyda chymhorthion cymunedol priodol a chefnogi'r unigolyn ifanc i ailintegreiddio yn yr ysgol a meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda chyfoedion.

Mae fframwaith cyffredinol yr ymyriad yn deillio o Therapi Aml-systemig ac mae hwn yn cael ei gyfuno â Therapi Ymddygiad Dialectig<sup>17</sup> i dargedu anghenion iechyd meddwl unigol pobl ifanc a chefnogi'r rheiny sy'n gofalu amdanynt yn fwy effeithiol.

Mae'r model yn gweithio am 3 i 4 mis gyda phobl ifanc a'u gofawyr tra'u bod yn cael eu lleoli i ffwrdd o'r cartref, gan wella lefel sgiliau'r gofawyr preswyl neu'r gofawyr maeth presennol felly, a hefyd gyda theulu'r unigolyn ifanc er mwyn nodi'r materion a all greu anawsterau er mwyn cynllunio dychwelyd yn llwyddiannus i'r cartref. Pan fydd yr unigolyn ifanc wedi dychwelyd adref, bydd gwaith yn parhau gyda'r teulu am bedwar mis arall a gydag asiantaethau allweddol eraill, fel gofal cymdeithasol ac ysgolion, a hefyd i gefnogi aelodau'r teulu i ddatblygu cymhorthion yn y gymuned a lleihau eu dibyniaeth tymor hwy ar wasanaethau statudol.

## 5.2 Cynulleidfa darged

Cynulleidfa darged Therapi Aml-systemig, gan y caiff ei ymarfer yn gyffredinol yn hytrach nag yn unrhyw un o'i fformatau addasedig, yw teuluoedd ag unigolyn ifanc rhwng 12 ac 17 oed sydd mewn perygl o fynd i mewn i ofal oherwydd ymddygiad gwrth-gymdeithasol difrifol a/neu droseddu ieuencid. (Yr Adran Addysg, n.d.). Ni fyddai pobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i mewn i ofal ond nad ydynt yn dangos ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn addas ar gyfer Therapi Aml-systemig safonol (Fox ac Ashmore, 2014). Mae'n rhaglen dargedig sy'n briodol i bobl ifanc â lefel angen gymedrol, gymhleth neu uchel.

<sup>17</sup> Mae therapi ymddygiad dialectig yn fath o therapi siarad sy'n seiliedig ar therapi gwybyddol ymddygiadol, ond sydd wedi'i addasu i fodloni anghenion penodol bobl sy'n dioddef emosiynau yn ddwfn iawn. Caiff ei ddefnyddio'n bennaf i drin pobl ag anhwylder ffiniol personoliaeth.

Disgrifir cynulleidfaoedd targed yr addasiadau o Therapi Aml-systemig yn adran 5.1.4.

### 5.3 Mewnbynnau

#### *Cymwysterau a hyfforddiant darparwyr*

Argymhellir bod therapyddion Therapi Aml-systemig yn meddu ar gymhwyster Lefel 7/8 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau, gyda chymhwyster Lefel 6 y Fframwaith fan lleiaf. Gall therapyddion ddod o amrywiaeth o gefndiroedd proffesiynol fel gwaith cymdeithasol, gwaith prawf, seicoleg glinigol a therapi teuluol systemig. Yn ddelfrydol, dylent fod â phrofiad blaenorol o weithio gyda theuluoedd heriol a dylent hefyd fod yn barod i weithio oriau hyblyg iawn er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael mynediad i therapydd unrhyw bryd.

Yn nodweddiadol, mae'n rhaid i bob tîm Therapi Aml-systemig gynnwys dau i bedwar therapydd a goruchwyliwr. Yn y DU, maint y tîm lleiaf yw tri er mwyn sicrhau gwasanaeth 24/7 i deuluoedd a galluogi'r ymarferydd i gael gwyliau blynyddol.

#### *Paramedrau a argymhellir*

Mae therapyddion yn gweld teuluoedd am gyfartaledd o dri i bum mis ac yn gyffredin byddant yn gweld teuluoedd rhyw deirgwaith yr wythnos, ond bydd hyn yn amrywio yn ôl lefel yr angen.

Maent ar gael 24/7 i'r teulu ac yn ymgymryd â llwyth achosion o bedwar i bum teulu. Ar gyfartaledd, mae therapyddion Therapi Aml-systemig yn darparu 60 awr o gyswilt wyneb yn wyneb i bob teulu (Yr Adran Addysg, n.d.).

#### *Lleoliadau cyflwyno*

Caiff Therapi Aml-systemig ei gyflwyno gan un ymarferydd i deuluoedd yn eu cartref. Gall y therapydd gyfarfod â'r unigolyn ifanc neu'r rhiant ar eu pennau'u hunain, gyda'r teulu cyfan neu gyda phobl berthnasol eraill yn y teulu estynedig, gan gynnwys cyfoedion ac athrawon – gan ddibynnu ar y cynllun triniaeth ac anghenion y teulu. Cyflwynir sesiynau i deuluoedd ar amserau sy'n gyfleus iddynt fel eu bod, law yn llaw â sesiynau yng nghartref y teulu neu'r gymuned, yn gallu ymgysylltu'n haws gyda Therapi Aml-systemig.

### 5.4 Deilliannau bwriadedig

Yn gyffredinol, nod therapyddion Therapi Aml-systemig yw:

- grymuso rhieni gyda'r offer a'r adnoddau i reoli ymddygiadau'r unigolyn ifanc
- cynyddu ymgysylltiad yr unigolyn ifanc ag addysg a hyfforddiant, a'i lwyddiant ynddynt

- hyrwyddo gweithgareddau cadarnhaol ar gyfer rhieni a'r unigolyn ifanc
- lleihau troseddu a/neu ymddygiad gwrth-gymdeithasol yr unigolyn ifanc
- gwella perthnasoedd teuluol
- mynd i'r afael â phroblemau sylfaenol yn yr unigolyn ifanc neu'r rhiant, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau
- creu rhwydwaith cymorth o deulu estynedig, cymdogion a ffrindiau i helpu'r rhieni a gofalwyr gynnal y newidiadau

O ran deilliannau yn fwy penodol, yn y tymor byr, bwriad Therapi Aml-systemig yw arwain at y deilliannau canlynol:

- Bydd sgiliau rhianta gwell gan y rhai sy'n rhoi gofal
- Bydd perthnasoedd teuluol yn gwella
- Bydd y teulu wedi gwella ei rwydwaith o gymhorthion gefnogwyr anffurfiol
- Bydd yr unigolyn ifanc yn gwneud yn well yn yr ysgol neu weithgareddau galwedigaethol
- Bydd yr unigolyn ifanc yn ymwneud mwy â chyfoedion rhag-gymdeithasol
- Bydd yr unigolyn ifanc yn ymwneud llai â chyfoedion gwyrddroadol
- Bydd ymddygiad yr unigolyn ifanc yn gwella.

Yn y tymor hwy, bwriad Therapi Aml-systemig yw arwain at y deilliannau canlynol ar gyfer yr unigolyn ifanc:

- Gallu aros gartref
- Aros yn yr ysgol neu mewn gwaith
- Peidio â bod yn rhan o unrhyw arestiadau (pellach).

## 5.5 Effeithiolrwydd a thystiolaeth

At ei gilydd, mae anghytundeb yn y llenyddiaeth academiaidd ynglŷn ag effeithiolrwydd hysbys Therapi Aml-systemig. Mae llawer o ffynonellau dibynadwy, fel yr Adran Addysg (DfE), y CEBC<sup>18</sup> a'r EIF<sup>19</sup>, yn honni fod gan Therapi Aml-systemig dystiolaeth gadarn o wella deilliannau plant a rhieni yn y

<sup>18</sup> Mae'r CEBC wedi dyfarnu graddfa 1, sef y raddfa uchaf am 'dystiolaeth wyddonol' i Therapi Aml-systemig

<sup>19</sup> Mae'r EIF wedi dyfarnu'r raddfa tystiolaeth uchaf '4' i Therapi Aml-systemig h.y. sefydledig

tymor byr a'r tymor hir. Er enghraifft, mae dros 20 o Hap-dreialon wedi'u Rheoli o ymyriadau Therapi Aml-systemig wedi'u cynnal yn yr UDA, Seland Newydd, y DU a Norwy, ac mae dros 86 o adolygiadau o ymchwil ar effeithiau Therapi Aml-systemig wedi'u cyhoeddi ers 1996 (Littell, n.d.). Daw'r rhan fwyaf o'r adolygiadau hyn i'r casgliad fod Therapi Aml-systemig yn 'gweithio' (h.y. mae'n fwy effeithiol na dewisiadau eraill) ac mae datblygwyr Therapi Aml-systemig yn honni ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol cyson ar draws poblogaethau, problemau a lleoliadau (Ibid.).

Fodd bynnag, mae un o'r ymchwilwyr a gwerthuswyr mwyaf cyson o Therapi Aml-systemig, sef Littell, sy'n arbenigwr mewn adolygiadau systematig a meta-ddadansoddi, ac sydd wedi cynnal adolygiadau niferus o'r dystiolaeth ar gyfer Therapi Aml-systemig ar ran Cochrane Collaboration (e.e. Littell, 2005) wedi dod i'r casgliadau canlynol ynglŷn â Therapi Aml-systemig:

- Mae'n cael effeithiau anghyson ar draws astudiaethau
- Nid yw'n cael effeithiau sylweddol yn yr astudiaethau mwyaf trwyadl
- Ychydig o effeithiau mae'n eu cael mewn astudiaethau gwannach, ond nid yw'r un ohonynt yn arwyddocaol ar gyfartaledd
- Nid yw'n gyson well na gwaeth na gwasanaethau eraill

### 5.5.1 Deilliannau

Yn ôl yr EIF mae tystiolaeth sefydledig ar gyfer effeithiolrwydd Therapi Aml-systemig o ran arwain at y deilliannau canlynol:

- Llai o droseddu ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol (adroddiad rhieni ac unigolion ifanc)
- Gostyngiad mewn troseddau anhreisgar (adroddiad heddlu)
- Llai o weithgarwch troseddol (adroddiad rhieni)
- Llai o leoliadau allan o'r cartref (adroddiad rhieni)
- Llai o symptomau allanoli a mewnnoli (hunan-adroddiad y glasoed)
- Gweithredu gwell mewn teuluoedd (adroddiad rhieni)
- Lles meddwl gwell (hunan-adroddiad y glasoed)
- Gostyngiadau mewn ffeloniaethau (cyfraddau aildroseddu)
- Gostyngiadau mewn camymddygiadau (cyfraddau aildroseddu)
- Gostyngiadau mewn achosion cyfreithiol sifil teuluol (cofnodion llys).

Mae'r CEBC hefyd yn cyflwyno tystiolaeth gadarn i awgrymu y gall Therapi Aml-systemig arwain at:

- Llai o garcharu
- Llai o arestiadau am droseddau treisgar
- Gwell perthnasoedd â chyfoedion
- Llai o ddefnydd o gyffuriau
- Llai o ddiwrnodau mewn lleoliadau allan o'r cartref
- Ymddygiad gwell
- Llai o ymddygiadau rhywiol problemus

### 5.5.2 Cyfyngiadau Therapi Aml-systemig

Wrth asesu priodoldeb Therapi Aml-systemig fel ymyrraeth gyda phobl ifanc sydd ar ymylon gofal, mae Fox ac Ashmore (2014) wedi amlygu'r cyfyngiadau posibl canlynol a/neu rwystrau sy'n gysylltiedig â Therapi Aml-systemig:

- Nid yw Therapi Aml-systemig yn targedu'r holl bobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i mewn i ofal; dim ond y rheiny sy'n dangos ymddygiad gwrth-gymdeithasol neu dramgwyddus
- Mae angen i safleoedd Therapi Aml-systemig gael eu trwyddedu ac mae angen hyfforddi timau yn y model
- Mae ymyrraeth wedi'i chyfyngu i dri i bum mis hyd yn oes os nad yw deilliannau teulu wedi'u bodloni
- Mae angen i achos gau os yw unigolyn ifanc wedi mynd i mewn i ofal am dros bedair wythnos
- Capasiti blynyddol isel sydd gan bob tîm oherwydd llwythi achosion isel

## 5.6 Cost a gwerth am arian

Mae tystiolaeth i awgrymu bod Therapi Aml-systemig yn cynnig gwerth da am arian. Er enghraifft, mae Ffigur 6 yn crynhoi costau a buddion Therapi Aml-systemig, fel y'u cyflwynir gan Investing in Children<sup>20</sup>. Mae hwn yn dangos, ar sail y cyfrifiad hwn, am bob £1 sy'n cael ei gwario ar Therapi Aml-systemig, gall darparwyr ddisgwyl ennill £2.04 ar gyfartaledd mewn buddion yn gyffredinol yn

<sup>20</sup> <http://investinginchildren.eu/interventions/multisystemic-therapy-mst-juvenile-offenders>

yستod oes y cyfranogwr, gan gynnwys y rheiny i'r trethdalwr, cyfranogwr ac eraill (fel dioddefwyr posibl).

*Ffigur 6 Crynodeb o'r gwerth am arian a gynigir gan Therapi Aml-systemig*

Dimensiwn o gost a budd	Swm
Cost	£9,732
Buddion i drethdalwyr	£4,396
Buddion i gyfranogwyr	£1,963
Buddion i eraill	£13,534
Cyfanswm buddion	£19,893
Buddion llai costau	£10,161
Cymhareb buddion-costau	2.04

## 5.7 Gweithredu

Mae cryn wybodaeth ar gael ynglŷn â'r modd y dylai Therapi Aml-systemig gael ei roi ar waith er mwyn sicrhau ymlyniad rhaglenni, a datblygwyr a chynigwyr Therapi Aml-systemig sy'n trefnu bod llawer ohoni ar gael (<http://mstuk.org/>) yn hytrach na thrwy ganfyddiadau gwerthusiadau gweithredu annibynnol. Un o brif ddibenion cyngor a chymorth gweithredu gan ddatblygwyr Therapi Aml-systemig yw helpu sicrhau ymlyniad rhaglenni. Mae diffyg tystiolaeth ynglŷn â pha agweddau ar y model yw'r rhai mwyaf effeithiol neu'r rhai lleiaf effeithiol, a'r modd y gellir ei roi ar waith orau, yn rhannol am fod y rhan fwyaf o astudiaethau o Therapi Aml-systemig yn canolbwyntio ar werthuso effeithiolrwydd.

### 5.7.1 Achredu

Er mwyn sicrhau ymlyniad rhaglenni, mae'n rhaid i ddarparwyr Therapi Aml-systemig fod wedi'u trwyddedu a'u hachredu fel safleoedd Therapi Aml-systemig. Mae achrediad yn dynodi cytundeb i weithredu'r model Therapi Aml-systemig gydag ymlyniad llawn er mwyn cyflawni deilliannau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd. Cyflawnir hyn drwy gydymffurfio â'r holl bolisiau a gweithdrefnau yn y Llawlyfrau Therapi Aml-systemig mewn cysylltiad â hyfforddi staff mewn rhaglenni Therapi Aml-systemig trwyddedig. Mae hefyd yn dynodi cytundeb i sicrhau bod pob un o'i gyflogeion sy'n gysylltiedig â'r System Therapi Aml-systemig yn gymwys ac wedi'u hyfforddi'n llawn yn y defnydd o'r System Therapi Aml-systemig.

### 5.7.2 Cymorth gweithredu

Mae cymorth a hyfforddiant parhaus mewn perthynas â'r rhaglen ar gael gan sefydliadau Partner Rhwydwaith Therapi Aml-systemig. Mae pob un o

sefydliadau'r Partner Rhwydwaith yn gweithredu o dan gytundeb trwyddedu gyda Gwasanaethau Therapi Aml-systemig, ac mae'n gwbl gymwys i weithredu pob un o wasanaethau cymorth a hyfforddiant y rhaglenni.

Mae'r broses datblygu rhaglenni Therapi Aml-systemig yn dechrau gyda chymuned yn mynegi diddordeb yn y lle cyntaf, ac mae'n parhau gydol y diwrnod pan fydd rhaglen Therapi Aml-systemig newydd yn trin unigolyn ifanc a theulu yn gyntaf. Yn nodweddiadol, bydd y broses yn datblygu mewn nifer o gamau dros gyfnod o flwyddyn, a mwy weithiau. Mae'r camau hyn yn cynnwys:

- Casglu gwybodaeth gychwynnol
- Asesiad anghenion Therapi Aml-systemig:
  - nodi'r angen cymunedol am Therapi Aml-systemig
  - datblygu cynllun ariannol ac asesu digonolrwydd cyllid i gynnal y rhaglen adech ei chychwyn a phan fydd yn llawn weithredol
  - meithrin ymrwymiad asiantaethau perthnasol (h.y. sefydliad darparwr gwasanaeth a'r asiantaethau sy'n darparu atgyfeiriad a chyllid) i weithredu Therapi Aml-systemig gydag ymlyniad, gan ddefnyddio'r protocolau sicrhau ansawdd a gwella sy'n gysylltiedig â'r model
  - meithrin ymrwymiad gan randdeiliaid cymunedol allweddol
- Sesiynau materion hanfodol Therapi Aml-systemig
- Cyfarfod adolygu parodrwydd safle
- Recriwtio staff a hyfforddiant pum niwrnod Ymgynghoryddo â Therapi Aml-systemig
- Cymorth parhaus i weithredu'r rhaglen: hyfforddiant atgyfnerthu chwarterol ar y safle
- Goruchwyliaeth ar y safle yn wythnosol
- Ymgynghori'n wythnosol ag Arbenigwr Therapi Aml-systemig (trwy alwad gynadledda)
- Defnydd safonedig o fesurau ymlyniad
- Adolygiadau ddwywaith y flwyddyn o Weithrediad y Rhaglen.

Yn ogystal, mae Therapi Aml-systemig yn darparu nifer o feganweithiau i gefnogi'r broses weithredu:

- **Adolygiad o Weithrediad y Rhaglen.** Diben yr adolygiad chwe-misol hwn yw galluogi'r asiantaeth sy'n lletya, rhanddeiliaid allweddol (ffynonellau atgyfeirio a chyllido) ac ymgynghorydd y Rhwydwaith Therapi Aml-systemig i archwilio gyda'i gilydd: a) y graddau y mae nodau'r rhaglen o ran y boblogaeth darged,



y broses atgyfeirio, ymlyniad gweithredu Therapi Aml-systemig, a deilliannau pobl ifanc yn cael eu bodloni b) rhwystrau rhag bodloni disgwyliadau mewn parth penodol (e.e. niferoedd annigonol o atgyfeiriadau, ymlyniad therapyddion is na'r disgwyl) c) strategaethau ymyrryd penodol i oresgyn y rhwystrau hynny cyn bod yr adolygiad chwe-misol nesaf yn cael ei gynnal. Mae'r parthau a asesir yn yr adolygiad hwn wedi'u seilio ar y rhestr wirio a ddefnyddir i arwain datblygu'r ddogfen Goals and Guidelines ar gyfer y rhaglen Therapi Aml-systemig.

- **Datrys problemau rhwystrau sefydliadol a rhanddeiliaid rhag gweithredu yn barhaus.** Pan na fydd triniaeth yn datblygu o ganlyniad i faterion yn ymwneud â'r asiantaeth sy'n lletya neu'r system gwasanaethau, mae ymgynghorwyr Therapi Aml-systemig yn gweithio gyda'r therapyddion, goruchwyliwr ar y safle a phersonél asiantaeth sy'n lletya i fynd i'r afael â'r materion.
- **Cymorth i gyfarwyddwyr y rhaglen.** Mewn sefydliadau sy'n gweithredu nifer o dimau Therapi Aml-systemig, argymhellir bod swydd cyfarwyddwr rhaglen yn cael ei sefydlu i: a) hwyluso cysondeb gweithredu gan dimau ar draws y sefydliad b) cyd-hyrwyddo dros dimau Therapi Aml-systemig yn y sefydliad a gyda rhanddeiliaid allanol c) cadw golwg ar gynaliadwyedd y rhaglen o ystyried yr hapddigwyddiadau ariannol a gwleidyddol sy'n newid yn barhaus ac yn effeithio ar wasanaethau ar gyfer pobl ifanc yn y rhaglen. Mae Gwasanaethau Therapi Aml-systemig yn darparu deunyddiau deall a hyfforddiant ar gyfer cyfarwyddwr y rhaglen, ac yn cynnal galwad gynadledda rhwydweithio cyfoedion gwirfoddol bob mis lle gall cyfarwyddwyr o sefydliadau gwahanol ddysgu oddi wrth ei gilydd ynglŷn â chyfluoedd a heriau y maent yn eu hwynebu.
- **Llawlyfr Sefydliadol.** Mae llawlyfr sefydliadol Therapi Aml-systemig yn adnodd i weinyddwyr sefydliadau sy'n sefydlu rhaglenni Therapi Aml-systemig.

### 5.7.3 Hyfforddiant Ymarferwyr

Yn ôl Pecyn Cymorth Comisiynu'r Adran Addysg, mae'n rhaid i bawb sy'n gysylltiedig â chyflwyno Therapi Aml-systemig fynychu hyfforddiant deall pum niwrnod cychwynnol y rhaglen. Yn ystod yr hyfforddiant hwn, bydd y tîm Therapi Aml-systemig yn ymgwyfarwyddo â'r canlynol:

- Sail ddamcaniaethol y model Therapi Aml-systemig
- Y risgiau sy'n gysylltiedig â'r problemau ymddygiad difrifol yr eir i'r afael â nhw gan Therapi Aml-systemig
- Y strategaethau asesu cymorth ac ymyrryd cyffredin ar gyfer teulu, cyfoedion, ysgol, unigolyn a'r rhai cymdeithasol a ddefnyddir mewn Therapi Aml-systemig
- Dulliau ar gyfer cysyniadu achosion ac ymyriadau yn nhermau egwyddorion Therapi Aml-systemig

- Sut i ddefnyddio Proses Asesu ac Ymyrryd Therapi Aml-systemig ar gyfer cynllunio a gweithredu ymyriadau teulu
- Strategaethau ar gyfer meithrin perthnasoedd cadarn, cydweithredol gydag asiantaethau rhanddeiliaid yn y gymuned
- Rôl y therapyddion Therapi Aml-systemig mewn gwella ansawdd yn barhaus.

Mae'r hyfforddiant hefyd yn darparu llawer o gyfleoedd i therapyddion i ymarfer strategaethau asesu ac ymyriadau Therapi Aml-systemig trwy chwarae rôl ac ymarferiadau eraill. Mae therapyddion hefyd yn cael llawlyfr manwl sy'n ymdrin â'r holl wybodaeth a ddarperir yn yr hyfforddiant pum niwrnod.

Bydd yr hyfforddiant yn parhau pan fyddant yn dechrau gweithio gyda theuluoedd. Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriadau ffôn wythnosol gyda'r ymgynghorydd Therapi Aml-systemig, a sesiynau hyfforddiant atgyfnerthu diwrnod a hanner yn chwarterol.

#### 5.7.4 Gofynion goruchwyllo

Mae timau Therapi Aml-systemig yn cyfarfod bob wythnos gyda goruchwylwr y Therapi ar y safle, sy'n dilyn protocol penodedig ar gyfer adolygu a mynd i'r afael â'r materion ym mhob achos gyda'r tîm. Prif nod yr oruchwyliaeth yw helpu therapyddion i ddysgu a defnyddio'r sgiliau clinigol sydd eu hangen i roi'r Therapi ar waith yn effeithiol gyda phob unigolyn ifanc a theulu sy'n cael eu gwasanaethu.

Disgwylir i oruchwylwyr safle fynychu dau ddiwrnod ychwanegol o hyfforddiant Therapi Aml-systemig a gweithdai i Oruchwylwyr Cyngori fel bo'r gofyn. Yn ogystal â'r oruchwyliaeth grŵp ar y safle, bydd y tîm cyfan, yn ei dro, yn trafod eu hachosion gydag ymgynghorydd arbenigol Therapi Aml-systemig unwaith yr wythnos dros y ffôn er mwyn cael adborth a chyfarwyddyd ychwanegol yn ôl yr angen. Prif ddiben y sesiynau goruchwyllo ac ymgynghori hyn yw rhoi'r cymorth sydd ei angen ar y therapydd i hwyluso cyflawni nodau triniaeth targedig a gwella ymlyniad therapyddion i brotocolau triniaeth Therapi Aml-systemig.

#### 5.7.5 Ymlyniad i'r rhaglen a sicrhau ansawdd

Cynhelir ymlyniad i'r rhaglen drwy system sicrhau ansawdd a gwella ansawdd Therapi Aml-systemig, sy'n cefnogi gweithredu ar amryw lefelau ymarfer, gan gynnwys y therapydd, goruchwylwr clinigol, ymgynghorydd arbenigol, rheolwyr y rhaglen a'r asiantaeth sy'n lletya. Dyma yw elfennau craidd system Sicrhau Ansawdd/Gwella Ansawdd Therapi Aml-systemig:

- Llawlyfrau ar gyfer therapyddion, goruchwylwyr, ymgynghorwyr a sefydliadau
- Hyfforddiant a hyfforddiant atgyfnerthu chwarterol i therapyddion a goruchwylwyr

- Ymgynghori wythnosol (dros y ffôn) gyda'r hyfforddwr/Arbenigwr Therapi Aml-systemig a neilltuwyd i'r tîm/ rhaglen
- Goruchwyliaeth glinigol ar y safle ar gyfer therapyddion
- Ymgynghori arbenigol ar gyfer therapyddion a goruchwylwyr
- Datblygiad a chymorth rhaglenni ar gyfer y sefydliad sy'n gweithredu'r rhaglen Therapi Aml-systemig
- Mesurau cydymffurfio â gweithredu wedi'u dilysu ar gyfer therapyddion, goruchwylwyr ac ymgynghorwyr
- System olrhain gweithredu ac adborth ar y we yn cael ei darparu drwy'r Sefydliad Therapi Aml-systemig
- Adolygiadau ddwywaith y flwyddyn o Weithrediad y Rhaglen er mwyn asesu ymlyniad a chyfeiriad y rhaglen ar draws nifer o brosesau clinigol, gweithredol, sefydliadol ac ar lefel systemau.

Nid yw'r rhain yn elfennau annibynnol ond yn hytrach fe'u hintegreiddir i'r ddolen adborth. Yn system sy'n gyson ag athroniaeth Gwella Ansawdd yn Barhaus, mae'n cynnwys yr holl unigolion sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Therapi Aml-systemig er mwyn gwella'n barhaus 'y prosesau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth da sy'n bodloni neu'n rhagori ar ddisgwyliadau'r teulu'. Mae'r ddolen adborth yn integreiddio data ac adborth meintiol ynglŷn â gweithredu Therapi Aml-systemig ar lefel y teulu, therapydd, goruchwylwr, ymgynghorydd arbenigol, a'r sefydliad sy'n gweithredu'r rhaglen Therapi Aml-systemig. Nod y system Sicrhau Ansawdd/Gwella Ansawdd yw cynyddu'r tebygolrwydd y bydd problemau gydag ymlyniad i weithredu a deilliannau pobl ifanc yn cael eu canfod ac yr eir i'r afael â nhw ar bob lefel o'r cyd-destun clinigol yn barhaus (Yr Adran Addysg, n.d.).

## 6 Cyfweld cymelliannol

### 6.1 Beth ydyw?

Mae Cyfweld Cymelliannol yn fath o siarad ar y cyd er mwyn cryfhau cymhelliant ac ymrwymiad unigolyn ei hun i newid. Mae'n ddull cwnsela sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer mynd i'r afael â phroblem gyffredin deuliaeth teimlad ynglŷn â newid trwy dalu sylw penodol i iaith newid. Mae'r model wedi'i gynllunio i gryfhau cymhelliant unigolyn a'i symudiad tuag at nod penodol drwy fynnu ac archwilio rhesymau'r unigolyn ei hun dros newid, a hynny mewn awyrgylch o dderbyn a thosturi. Fe'i datblygwyd gyntaf gan William Miller a Stephen Rollnick yn y 1980au a'r 1990au i ddelio â materion camddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, mae'n cael ei ddefnyddio erbyn hyn i ysgogo newid mewn perthynas ag ystod ehangach o faterion ffordd o fyw ac iechyd, gan gynnwys ymarfer rhianta (Lundahl et al., 2010).

Nodau cyffredinol Cyfweld Cymelliannol yw:

- Gwella cymhelliant mewnol i newid.
- Atgyfnerthu'r cymhelliant hwn.
- Datblygu cynllun i gyflawni newid.

Mae'r model Cyfweld Cymelliannol wedi'i ddefnyddio fel ychwanegiad at ymyriadau eraill, fel rhagarweiniad i driniaeth arall lle mai'r rhagdybiaeth yw y bydd Cyfweld Cymelliannol yn gweithio fel rôl baratoadol, ac fel ymyriad ar ei ben ei hun. Canfuwyd ei fod yn arbennig o effeithiol mewn gwaith cyn-triniaeth i gynnwys a chymell cleientiaid ar gyfer dulliau trin eraill (CEBC). At ei gilydd, o ran effeithiolrwydd, mae sail dystiolaeth sefydledig i'r model Cyfweld Cymelliannol.

#### 6.1.1 Egwyddorion craidd

Mae Miller a Rollnick (1991) yn amlinellu pedair egwyddor graidd y model Cyfweld Cymelliannol y dylai'r rhai sy'n cyfweld geisio cadw atynt, sef:

- Mynegi empathi trwy wrando myfyriol. Mae hyn yn cyflawni sawl nod fel cynyddu cydberthynas, helpu cleientiaid i deimlo bod rhywun yn eu deall, lleihau'r tebygolrwydd y bydd gwrthwynebiad i newid, a galluogi cleientiaid i archwilio'u meddyliau mewnol a'u cymelliannau.
- Datblygu gwahaniaeth rhwng nodau neu werthoedd cleientiaid a'u hymddygiad presennol. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu bod cleientiaid yn dadlau, iddyn nhw'u hunain, y rhesymau pam ddylent newid trwy weld bwlch rhwng eu gwerthoedd a'u hymddygiadau problemus presennol.
- Addasu i wrthwynebiad cleientiaid yn hytrach na'i wrthwynebu'n uniongyrchol h.y. 'mynd gyda'r gwrthwynebiad'. Mae hyn yn golygu parchu amharodrydd cleientiaid i wneud newidiadau, ei weld fel rhywbeth arferol yn hytrach na

phatholegol, a pheidio â'i hyrwyddo gyda thechnegau cwnsela amddiffynol neu ymosodol.

- Cefnogi hunan-ffeithiolrwydd ac optimistiaeth. Mae hyn yn golygu bod hyder cleientiaid yn eu gallu i newid yn cael ei gydnabod fel elfen hanfodol i ymdrechion newid llwyddiannus.

Mae Miller et al. (1992) hefyd yn nodi'r nodweddion hyn o'r model Cyfweld Cymelliannol sydd â chysylltiad agos rhyngddynt i ddisgrifio 'ysbryd' yr ymyrraeth a'r berthynas ddymunol rhwng y cleient a'r therapydd:

- Mae'r cymhelliant i newid yn cael ei fynnu gan y cleient, ac nid ei orfodi gan rymoedd allanol
- Tasg y cleient, nid y cwnselydd, yw cyfleu a datrys ei ddeuoliaeth/deuoliaeth teimlad
- Nid yw perswadio uniongyrchol yn ddull effeithiol ar gyfer datrys deuoliaeth teimlad
- Mae'r arddull cwnsela yn dawel yn gyffredinol ac yn mynnu gwybodaeth gan y cleient
- Mae'r cwnselydd yn gyfarwyddol, yn yr ystyr ei fod yn helpu'r cleient i archwilio a datrys deuoliaeth teimlad
- Nid yw parodrwydd i newid yn nodwedd o'r cleient, ond yn hytrach yn ganlyniad cyfnewidiol rhyngweithio rhyngbersonol
- Mae'r berthynas therapiwtig yn debyg i bartneriaeth neu gwmnïaeth

Mae cyfweld cymelliannol yn adeiladu ar ddamcaniaethau optimistaidd a dyneiddiol Carl Rogers ynglŷn â galluedd pobl ar gyfer ymarfer dewis yn rhydd a newid trwy broses o hunansylweddoli. Mae'r berthynas therapiwtig ar gyfer cyfwelwyr Rogers a chyfwelwyr cymelliannol yn bartneriaeth ddemocrataidd (Rockville, 1999).

### 6.1.2 Elfennau hanfodol

Dyma yw elfennau hanfodol Cyfweld Cymelliannol (CEBC):


- Pwyslais dau ddimensiwn hanfodol yn gysylltiedig â deuoliaeth teimlad unigolyn i newid:
  - pwysigrwydd y newid.
  - yr hyder y gellir cyflawni newid.
- Cynnwys cwestiynau penagored gan annog y cleient i siarad am amgylchiadau yn ymwneud a'i (h)atgyfeiriad ar gyfer gwerthusiad, yn hytrach na'r gwerthusiad camddefnyddio sylweddau safonol sy'n cynnwys cynnal nifer

o gyfweiliadau strwythuredig sy'n gofyn cwestiynau caeedig. Mae enghreifftiau o'r mathau o gwestiynau penagored y gellid eu defnyddio fel a ganlyn:

- Beth sy'n eich poeni ynglŷn â'ch defnydd o sylweddau?
  - Sut mae eich defnydd o sylweddau wedi creu problemau i chi yn y gorffennol?
  - Pa fathau o bethau fyddai angen iddynt ddigwydd i wneud i chi ystyried newid eich defnydd o sylweddau?
  - Beth fyddai'r pethau a fyddai'n eich atal rhag newid eich defnydd o sylweddau?
  - Beth yw eich pryderon ynglŷn â chael triniaeth camddefnyddio sylweddau ar hyn o bryd?
- Defnyddio datganiadau gwranddo myfyriol sy'n canolbwyntio ar iaith y cleient mewn perthynas â newid. Y nod yw ysgogi eu rhesymau, eu hanghenion, eu hawydd a'u galluoedd eu hunain gan gleientiaid i newid.

Gellir gweld disgrifiad o 'sut mae therapi cymelliannol yn gweithio', fel mae wedi'i grynhoi gan Treasure (2004), yn Ffigur 7.

*Ffigur 7 'Sut mae therapi cymelliannol yn gweithio', fel mae wedi'i grynhoi gan Treasure (2004)*



### 6.1.3 Strategaethau a thechnegau

Mae'r strategaethau a'r technegau canlynol yn cael eu defnyddio fel rhan o'r model Cyfweld Cymelliannol, yn ôl Sobell a Sobell, 2008:

- Gofyn caniatâd
- Ennyn/ysgogi siarad am newid
- Archwilio pwysigrwydd a hyder – cwestiynau graddio
- Cwestiynau penagored

- Gwranddo myfyriol
- Normaleiddio
- Cydbwysu penderfyniadau
- Dull Columbo – amlygu gwahaniaethau
- Datganiadau sy'n cefnogi hunan-effeithiolrwydd
- Asesu parodrwydd i newid
- Ategiadau
- Cyngor ac adborth
- Crynodebau
- Paradocs therapiwtig

## 6.2 Cynulleidfa darged

Caiff y model cyfweld cymelliannol ei ddefnyddio gydag oedolion a'r glasoed/pobl ifanc. Mae'r dull yn mynnu rhywfaint o ymresymu haniaethol gan y cleient a ddylai fod yn bresennol ar ôl 12 oed, ac felly efallai na fydd mor fuddiol ar gyfer plant cyn oedran yr ardegau (Lundahl et al., 2010).

Mae wedi'i ddefnyddio'n fwyaf cyffredin fel ffynhonnell newid ar gyfer ymddygiadau'n gysylltiedig ag iechyd, fel camddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod Cyfweld Cymelliannol yn gallu helpu ar draws llawer o feysydd problem yn fras, yn amrywio o ymddygiadau caethiwus i ymddygiadau sy'n hybu iechyd (Lundahl et al., 2010). Canfu Lundahl et al. (2010) hefyd fod Cyfweld Cymelliannol yn effeithiol ar gyfer unigolion â lefelau uchel o ofid yn ogystal ag unigolion â lefelau cymharol isel o ofid.

## 6.3 Mewnbynnau

### 6.3.1 Cymwysterau darparwyr

Nid yw'r adolygiad hwn wedi datgelu unrhyw dystiolaeth bod rhaid i ddarparwyr feddu ar lefel gymwysterau sylfaenol i gyflwyno'r model Cyfweld Cymelliannol. Dywed y CEBC nad yw'n ymddangos bod effeithlonrwydd yn gysylltiedig â lefel gradd ymarferydd, syniad y mae Lundahl et al. (2010) yn ei gadarnhau 'yn betrus'.

Yn ôl William Miller, yr hyn sydd bwysicaf yw helpu gallu gweithiwr proffesiynol i empatheddio gyda chleientiaid ac nid eu cefndir hyfforddi (e.e., nyrzio, gwaith cymdeithasol, seicoleg) (Lundahl et al, 2010). Mae astudiaeth gan Moyers et al. (2005) yn dangos bod cysylltiad cadarnhaol rhwng sgiliau rhyngbersonol



therapyddion, fel y'u mesurwyd gan y Cod Sgiliau Cyfweld Cymelliannol, â chynnwys cleientiaid.

### 6.3.2 Paramedrau Argymelledig

Canfu Lundahl et al. (2010) fod cysylltiad rhwng mwy o amser triniaeth a gwell deilliannau ar gyfer Cyfweld Cymelliannol. Maent yn awgrymu na all wneud dim drwg i ddarparu mwy o Gyfweld Cymelliannol, a'i bod yn afresymol rhagdybio y bydd ymyriad Cyfweld Cymelliannol byr iawn yn arwain at newid parhaol.

Dywed y CEBC fod 1-3 o sesiynau unigol yn cael eu cyflwyno fel arfer, ond bod rhywfaint o dystiolaeth fod 2-3 sesiwn yn fwy effeithiol na sesiwn unigol. Mae pob sesiwn yn tueddu para am 30-50 munud.

Fodd bynnag, mae llawer o ymarferwr Cyfweld Cymelliannol yn adrodd yn anecdotaidd fod Cyfweld Cymelliannol yn cael ei integreiddio gyda llawer o'u triniaeth, fel nad oes modd ei wahanu oddi wrth ymyriadau eraill, sydd wedyn yn gwneud y cwestiwn yn ymwneud â 'dogn' yn llai perthnasol (Lundahl et al., 2010). Mae integreiddio o'r fath â dulliau trin ehangach, fodd bynnag, yn amlwg yn codi cwestiynau ynglŷn â'r graddau y gellir cynnal ymlyniad y rhaglen.

### 6.3.3 Lleoliadau cyflwyno

Yn nodweddiadol, mae'r rhaglen hon yn cael ei chynnal mewn:

- Asiantaeth Gymunedol
- Ysbyty
- Clinig Cleifion Allanol
- Cyfleuster Gofal Preswyl

## 6.4 Deilliannau bwriadedig

Nodau cyffredinol Cyfweld Cymelliannol yw (CEBC):

- Gwella cymhelliant mewnol i newid.
- Atgyfnerthu'r cymhelliant hwn.
- Datblygu cynllun i gyflawni newid.

Felly, mae'r model Cyfweld Cymelliannol wedi'i briodoli i'r syniad y bydd cymhelliant i newid yn arwain at newid ymddygiad. Bydd y math penodol o newid a geisir yn benodol i'r cleient unigol.

## 6.5 Effeithiolrwydd a thystiolaeth

### 6.5.1 Sail dystiolaeth gyffredinol

Mae Cyfweld Cymelliannol wedi'i werthuso nifer o weithiau ac mae tystiolaeth sefydledig ar gyfer effeithiolrwydd yr ymyrraeth o ran effeithio'n gadarnhaol ar newid ymddygiad iach (CEBC; Lundahl et al., 2010). Er enghraifft, cynhaliwyd o leiaf bedwar meta-ddadansoddiad o effeithiau Cyfweld Cymelliannol, ac roedd yr un mwyaf diweddar o'r rhain (Lundahl et al, 2010) yn cynnwys 119 o astudiaethau yn eu meta-ddadansoddiad, gan ddangos ehangder yr ymchwil sydd wedi'i wneud ar effaith y model hwn.

O ran effeithiolrwydd, daw Lundahl et al. i'r casgliad:

*Mae Cyfweld Cymelliannol yn cael effeithiau cadarnhaol bach ond arwyddocaol ar draws ystod eang o feysydd problemau, er ei fod yn fwy grymus mewn rhai sefyllfaoedd o gymharu ag eraill, ac nid yw'n gweithio ym mhob achos.*

Canfuont, ar draws meysydd problem ymddygiad iach, fod y model Cyfweld Cymelliannol naill ai'n aneffeithiol neu'n llai effeithiol o gymharu ag ymyriadau neu grwpiau eraill ryw chwarter o'r amser. I'r gwrthwyneb, gwelodd 75% llawn o gyfranogwyr ryw faint o welliant, gyda 50% yn cael effaith fach ond ystyrion, a 25% yn cael lefel gymedrol i gadarn. Canfuont hefyd fod y buddion hyn yn cael eu cynnal am hyd at flwyddyn ar ôl triniaeth.

### 6.5.2 Deilliannau

Mae tystiolaeth 'sefydledig' neu 'gychwynnol' ynglŷn ag effeithlonrwydd Cyfweld Cymelliannol o ran sicrhau'r deilliannau canlynol (CEBC):

- Llai o yfed alcohol ymhlith oedolion ifanc
- Llai o alcohol yn cael ei yfed (myfyrwyr coleg)
- Llai o ganlyniadau negyddol o yfed (myfyrwyr coleg)
- Ymgysylltu â gwasanaethau a thriniaeth (er nad yw'n cael ei gynnal ymhellach na'r ymyrraeth)
- Llai o ddefnydd o alcohol, tybaco a mariwana ar draws ystodau oedran (Lundahl et al., 2010)
- Llai o gamblo (Ibid)
- Lles gwell, llai o straen ac iselder (Ibid)
- Mwy o ymgysylltiad mewn triniaeth (Ibid)
- Cynyddu cymhelliant i newid (Ibid)

Mae Lundahl et al. (2010) yn awgrymu, wrth i Gyfweld Cymelliannol geisio cymell cleientiaid i wneud rhyw fath o newid yn eu bywydau a thargedu ymgysylltiad cleientiaid yn uniongyrchol yn y broses newid, y gallai wella lles cleientiaid yn anuniongyrchol.

Mae rhywfaint o dystiolaeth yn dod i'r amlwg, a hefyd damcaniaeth ddatblygol ynglŷn â defnydd ac effeithiolrwydd ymyrraeth Cyfweld Cymelliannol o ran gwella rhianta, ac fel dull mewn gwaith cymdeithasol gyda phlant a theuluoedd. Er enghraifft, nododd Lundahl et al. (2010) bod dystiolaeth gadarn i awgrymu y gall Cyfweld Cymelliannol helpu cynyddu cyfranogiad mewn hyfforddiant rheoli i rieni ag y gall helpu cymell rhieni i atal pydredd dannedd yn eu plant. Hefyd, mae Hapdreial wedi'i Reoli o'r ymyrraeth Cyfweld Cymelliannol yn cael ei gynnal yn y DU ar hyn o bryd mewn gwaith amddiffyn plant, ac mae'n archwilio p'un a yw hyfforddiant a goruchwyliaeth mewn Cyfweld Cymelliannol yn helpu gweithwyr cymdeithasol i ymgysylltu rhieni, a ph'un a yw hyn yn gysylltiedig â deilliannau gwell ar gyfer plant (Forrester, ar ddod). Fodd bynnag, mae llawer o'r 'dystiolaeth' sy'n ymwneud â Chyfweld Cymelliannol a gwaith cymdeithasol gyda phlant a theuluoedd yn parhau'n ddamcaniaethol i raddau helaeth ac nid yw'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddeilliannau ar gyfer plant.

### 6.5.3 Cyfweld Cymelliannol a gwaith cymdeithasol gyda phlant a theuluoedd

Yn ôl adolygiad o strategaethau i ddatblygu gallu rhieni i newid pan fydd plant ar ymylon gofal (Yr Adran Addysg, 2014), mae nifer o awduron yn dadlau y gall cyfweld cymelliannol leihau gwrthdaro diangen a helpu rhieni i symud ymlaen o sefyllfa lle maent yn gwadu bod problem yn bodoli ac yn amharod i newid neu ymgysylltu â gwasanaethau (gweler Bowen a Gilchrist, 2004; Forrester et al., 2012; Zalmanowitz et al., 2013). Fel y dywed Morrison (2010): *'nid yw newid yn dechrau pan fydd rhieni yn mynd i mewn i'r cyfnod gweithredu; mae'n dechrau pan fyddwn yn galluogi rhiant pryderus, ofnus, neu ddig i gymryd y camau cyntaf ar hyd y llwybr [ystyried yr angen am newid]'* (tud.321).

Gall unigolion sy'n ymateb i'r dull Cyfweld Cymelliannol fod ag anawsterau mwy arwahanol a llai sefydledig na'r problemau aml-haen sy'n gallu llethu rhieni y mae eu plant ar ymylon gofal. Mae Di Clemente a chydweithwyr (2008) yn dadlau nad yw cyfweld cymelliannol mor effeithiol efallai mewn cyd-destun lles plant oherwydd: *'nid yw ymyriadau cymelliannol byr cyn triniaeth bob amser wedi gwella ymgysylltiad â thriniaeth a deilliannau mewn poblogaethau unigolion sydd yn cam-drin cyffuriau sy'n dlawd, yn lleiafrif ac yn llai addysgedig ac â phroblemau lluosog'* (tud.27). Serch hynny, mae nodweddion tebyg wedi'u nodi rhwng gwerthoedd Cyfweld Cymelliannol a gwaith cymdeithasol gyda phlant a theuluoedd (Forrester et al., 2008). Mae Forrester a chydweithwyr (2012) yn dadlau y gall Cyfweld Cymelliannol gael ei ddefnyddio mewn achosion lles plant i gynyddu ymgysylltiad rheini a mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n sail i wrthwynebiad rhieni i ymwneud â gweithwyr cymdeithasol plant a theuluoedd. Mae'r awduron yn trafod pum prif achos i wrthwynebiad rhieni: ffactorau cymdeithasol; ffactorau unigol neu deuluol; cywilydd; deuliaeth teimlad; a diffyg hyder. Maent yn cynnig Cyfweld Cymelliannol fel sgil ddefnyddiol ar gyfer lleihau cyfranogiad gweithwyr cymdeithasol at wrthwynebiad yn ogystal ag achosion eraill, ac yn awgrymu y gall Cyfweld Cymelliannol fod yn arbennig o effeithiol o ran sicrhau:

- ffocws ar gynnwys y rhiant
- ffocws ar ysgogi ‘siarad am newid’ i ddatrys deuliaeth teimlad ynglŷn â newid ymddygiad

Fodd bynnag, maent hefyd yn nodi addasiadau i nodau strategol Cyfweld Cymelliannol os yw'r ymyrraeth i'w defnyddio mewn gwaith amddiffyn plant, a'r pwysicaf ohonynt yw cynnal ffocws ar les a diogelwch y plentyn.

## 6.6 Cost a gwerth am arian

Mae Sefydliad Talaith Washington ar gyfer Polisi Cyhoeddus yn cyflwyno dadansoddiad o gost a budd Cyfweld Cymelliannol ar gyfer cam-drin alcohol a Chyfweld Cymelliannol ar gyfer ysmegu. Dangosir eu dadansoddiad yn Ffigur 8 ac yn Ffigur 9. Mae'r rhain yn dangos bod y ddwy ymyrraeth Cyfweld Cymelliannol ar gyfer cam-drin alcohol ac ar gyfer ysmegu yn cynnig cymarebau cost a budd rhagorol. Er enghraifft, am bob £1 sy'n cael ei gwario ar Gyfweld Cymelliannol ar gyfer cam-drin alcohol neu Gyfweld Cymelliannol ar gyfer ysmegu, mae £43.59 neu £37.69 yn deillio fel buddion, yn y drefn honno.

*Ffigur 8 Dadansoddiad o gost a budd Cyfweld Cymelliannol ar gyfer cam-drin alcohol*

Dimensiwn o gost a budd	Swm
Cost	£139
Buddion i drethdalwyr	£1,302
Buddion i gyfranogwyr ac eraill	£4,896
Cyfanswm buddion	£6,199
Buddion llai costau	£6,060
Cymhareb buddion-costau	£43.59

*Ffigur 9 Dadansoddiad o gost a budd Cyfweld Cymelliannol ar gyfer ysmegu*

Dimensiwn o gost a budd	Swm
Cost	£139
Buddion i drethdalwyr	£200
Buddion i gyfranogwyr ac eraill	£5,176
Cyfanswm buddion	£5,376
Buddion llai costau	£5,240
Cymhareb buddion-costau	£37.69

Canfu Lundahl et al. (2010) hefyd, o'u cymharu â thriniaethau gweithredol eraill fel therapi 12-cam a therapi gwybyddol ymddygiadol, fod ymyriadau Cyfweld Cymelliannol yn cymryd dros 100 yn llai o funudau o driniaeth ar gyfartaledd, ond eto roeddent yn cynhyrchu'r un effeithiau. Mae'r ffaith nad yw'r model Cyfweld Cymelliannol i weld yn mynnu therapyddion â chymwysterau uchel hefyd yn helpu i esbonio pam y gall y model hwn gynnig gwerth am arian.

## 6.7 Gweithredu

Mae'r Rhwydwaith Hyfforddwyr Cyfweld Cymelliannol (MINT) yn cynnig ystod eang o adnoddau y gellir eu defnyddio i hyfforddi ymarferwyr yn y model Cyfweld Cymelliannol, gan gynnwys llawlyfr ar gyfer rhoi'r rhaglen ar waith. Gellir gweld y rhain ar wefan MINT (<http://motivationalinterviewing.org>).

### 6.7.1 Mecanweithiau newid

Mae'r mecanweithiau newid Cyfweld Cymelliannol hyn mewn sesiynau wedi'u nodi fel rhan sy'n gysylltiedig â deilliannau cadarnhaol:

- Siarad am newid/bwriad i newid gan y cleient
- Profiad y cleient o wahaniaeth
- Therapyddion yn defnyddio ymarferiad cydbwysu penderfyniadau

Canfuwyd fod therapyddion yn dangos ymddygiad, technegau neu agweddau a oedd yn anghyson â'r model Cyfweld Cymelliannol yn gysylltiedig â deilliannau gwaeth (Apodaca, T. R. a Longabaugh, R., 2009).

Mae Miller hefyd yn amlygu'r canlynol fel mecanweithiau newid allweddol:

- Arddull rhyngweithio therapydd yn 'canolbwyntio ar y claf' yn hytrach na'n wrthdrawiadol
- Disgwyliad therapydd o newid

### 6.7.2 Hyfforddiant

Fe wnaeth Miller et al (2004) gymharu lefelau medrusrwydd ymarferwyr Cyfweld Cymelliannol a oedd wedi'u hyfforddi, yn erbyn y rheiny a oedd wedi'u haddysgu eu hunain. Canfuont fod y rheiny a oedd wedi cael hyfforddiant yn dangos lefelau medrusrwydd uwch na'r rheiny a oedd wedi'u haddysgu eu hunain. Roedd anogaeth a/neu adborth yn gwella lefelau medrusrwydd ymhellach.

Mae cyrsiau hyfforddi mewn cyfweld cymelliannol wedi bod yn rhai cymharol fyr gan mwyaf (2–3 diwrnod). Aeth Miller a chydweithwyr ati i werthuso effeithiolrwydd gweithdy hyfforddi 2–3 diwrnod mewn cyfweld cymelliannol ar gyfer cwrselwyr drwy astudio samplau o ymarfer cyn y cwrs ac ar ôl y cwrs

(Miller a Mount, 2001). Canfuont newidiadau arwyddocaol yn ystadegol yn ymddygiad y cwmselwyr, yn gyson ag egwyddorion cyfweld cymelliannol, ond nid oedd y newidiadau hyn yn ddigon mawr i wneud gwahaniaeth i gleifion. Felly, mae angen ymarfer, goruchwyliaeth a monitro parhaus yn ychwanegol at hyfforddiant 3-diwrnod er mwyn cyrraedd a chynnal safonau.

### 6.7.3 Ymlyniad i'r model

Mae ystod o offer wedi'u datblygu gan MINT i helpu darparwyr sicrhau a monitro ymlyniad â'r model Cyfweld Cymelliannol. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys:

- Uniondeb Triniaeth Cyfweld Cymelliannol (MITI)
- Y Cod Sgiliau Cyfweld Cymelliannol (MISC)
- Cod Uniondeb Triniaeth Cyfweld Cymelliannol

Gellir gweld y rhain ar wefan MINT (<http://motivationalinterviewing.org>).

Fodd bynnag, yn eu meta-ddadansoddiad o'r model Cyfweld Cymelliannol, canfu Hettema et al. (2005) fod ymyriadau a geir mewn llawlyfrau (h.y. lle'r oedd therapyddion yn dilyn ac yn ymgynghori'n rheolaidd â llawlyfr yn llawer mwy na hyfforddiant sylfaenol) yn esgor ar effeithiau gwannach. Cadarnhawyd y canfyddiad hwn hefyd gan Lundahl et al. (2010) a ganfu hefyd nad oedd ymlyniad at y model Cyfweld Cymelliannol yn cymedroli deilliannau yn sylweddol.

Mae Lundahl et al. (2010) yn awgrymu, am fod Cyfweld Cymelliannol trwy ddiffiniad yn ymdrechu tuag at ddull dyneiddiol, yn canolbwyntio ar y cleient, y gall llawlyfr amharu ar ganolbwyntio go iawn ar y cleient drwy achosi i ymarferwyr ganolbwyntio'n ormodol ar y llawlyfr.

### 6.7.4 Fformat neu rôl Cyfweld Cymelliannol

Canfu Lundahl et al. (2010) hefyd, yn gyffredinol, fod rôl Cyfweld Cymelliannol fel ychwanegiad, er enghraifft at ymyriadau eraill neu fel rhagarweiniad i driniaeth arall, yn newid deilliannau'n sylweddol. Maent yn awgrymu bod y canfyddiad hwn yn gyson â'i athroniaeth sylfaenol. Nod Cyfweld Cymelliannol yw gwella'r gydberthynas weithio gyda chleient, rheoli gwrthwynebiad, mynegi empathi, a meithrin cymhelliant i newid tra'n mynd i'r afael â deuoliaeth teimlad ynglŷn â newid. Mae'r nodau targedig hyn i weld yn dderbyniol yn fras i'r rhan fwyaf o ymdrechion i newid, ac mae'n debygol eu bod yn ddefnyddiol yn ystod unrhyw gam mewn proses ymyrryd. Felly, ymddengys mai un o gryfderau'r model Cyfweld Cymelliannol yw ei gludadwyedd ar draws llawer o fformatau neu rolau trin gwahanol.

### 6.7.5 Y modd cyflwyno

Canfu Lundahl et al. (2010) hefyd nad oedd y modd cyflwyno (p'un a yw Cyfweld Cymelliannol yn cael ei gyflwyno mewn grwpiau neu'n unigol) yn cymedroli deilliannau'n sylweddol. Fodd bynnag, fe wnaethant nodi tystiolaeth gadarn an-ystadegol i awgrymu y gallai cyflwyno Cyfweld Cymelliannol drwy fformat

grŵp yn unig wanhau effeithiau o gymharu â chyflwyno'r model yn unigol. Nid ydynt felly yn annog cyflwyno Cyfweld Cymelliannol drwy fformat grŵp yn unig.

#### 6.7.6 Newid diwylliant

Mae'r Case Western Reserve University Centre for Evidence-Based Practices Motivational Interviewing (<http://www.centerforebp.case.edu/practices/mi>) yn awgrymu y gellid defnyddio model Cyfweld Cymelliannol fel ffynhonnell newid diwylliant sefydliadol er mwyn sicrhau:

- Mwy o ddeilliannau cadarnhaol o driniaeth
- Ansawdd bywyd gwell i ddefnyddwyr
- Cynnydd o ran ymgysylltu a chadw defnyddwyr
- Cynnydd o ran recriwtio, boddhad, a chadw staff
- Llai o staff yn diffygio yn sgil gorweithio ac yn gadael
- Llai o wrthdrawiadau gyda defnyddwyr
- Llai o ddefnyddwyr yn peidio â mynychu ac yn ymadael

Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod defnydd o'r model Cyfweld Cymelliannol i sicrhau trawsnewidiad sefydliadol a newid diwylliant wedi'i ymarfer na'i asesu yn eang.



## 7 P Driphlyg

### 7.1 Beth ydyw?

System cymorth rhianta a chefnogi teuluoedd ar aml lefel yw P Driphlyg, ac mae wedi'i chynllunio i atal – yn ogystal â 'thrin' – problemau ymddygiadol ac emosiynol ymhlith plant a phobl ifanc yn eu harddegau. Ei nod yw atal problemau yn y teulu, ysgol a'r gymuned cyn iddynt godi, a chreu amgylcheddau teulu sy'n annog plant i wireddu'u potensial. Mae P Driphlyg yn defnyddio theori dysgu cymdeithasol yn bennaf, yn ogystal ag ymchwil i ffactorau risg sy'n gysylltiedig â datblygiad problemau cymdeithasol ac ymddygiadol mewn plant. Mae'n ceisio rhoi i rieni y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i fod yn hunangynhaliol a gallu rheoli materion teuluol heb gymorth parhaus. Mae'n cynnig ymyrraeth dwyster amrywiol ar sawl lefel, ac mae wedi'i addasu ar gyfer cynulleidfaoedd targed a materion amrywiol.

Fel rhaglen atal, mae System P Driphlyg yn helpu rhieni i ddysgu strategaethau sy'n hyrwyddo cymhwysedd cymdeithasol a hunanreoleiddio mewn plant. Daw rhieni yn fwy galluogi i ymdopi â straen magu plant bob dydd, a daw plant yn fwy galluog i ymateb yn gadarnhaol i'w heriau datblygiadol unigol. Fel ymyrraeth gynnar, gall System P Driphlyg gynorthwyo teuluoedd sydd â mwy o ofid drwy weithio gyda rhieni plant sydd â phroblemau ymddygiad cymedrol i ddifrifol. Trwy gydol y rhaglen, caiff rhieni eu hannog i ddatblygu cynllun rhianta sy'n gwneud defnydd o amrywiaeth o strategaethau ac offer System P Driphlyg. Mae ymarferwyr System P Driphlyg felly wedi'u hyfforddi i weithio gyda chryfderau rhieni ac i ddarparu amgylchedd cefnogol, anfeiriadol, lle gall rhiant wella ei sgiliau rhianta yn barhaus.

Cynlluniwyd y Rhaglen Rhianta Cadarnhaol P Driphlyg [The Triple P Positive Parenting Program] ym Mhrifysgol Queensland, Awstralia, gan Mathew R Sanders fel ymyriad teuluol ymddygiadol gyda'r nod o ysgogi newidiadau mewn ymddygiad problemus plant drwy addasu amgylcheddau teulu sy'n cynnal ac yn atgyfnerthu ymddygiad problemus y plentyn (Sanders 1999).

At ei gilydd, o ran effeithiolrwydd, mae sail dystiolaeth sefydledig i P Driphlyg, er bod hyn yn amrywio yn ôl lefel y P Driphlyg dan sylw, ac mae wedi'i drafod yn feiriadol yn argyhoeddiadol gan awduron annibynnol.

#### 7.1.1 Egwyddorion craidd

Mae P Driphlyg wedi'i seilio ar bum egwyddor graidd rhianta cadarnhaol:

- Sicrhau amgylchedd diogelu, ymgysylltiol
- Hyrwyddo amgylchedd dysgu cadarnhaol
- Defnyddio disgyblaeth bendant
- Cynnal disgwyliadau rhesymol

- Gofalu amdanoch chi'ch hun fel rhiant

Mae'r pwyslais ar rieni yn dysgu sut i gymhwyso'r sgiliau hyn at faterion ymddygiadol, emosiynol a datblygiadol gwahanol mewn plant, yn amrywio o heriau cyffredin magu plant (e.e. mynd i'r toiled, ymddygiad amser bwyd, mynd i'r gwely, ymddygiad yn gyhoeddus) i heriau mwy dwys (e.e. ymddygiad ymosodol gan blant, ofnau a phryder, anawsterau ADHD (Prinz et al., 2009)).

### 7.1.2 Strategaethau allweddol

Mae'r pum egwyddor rhianta cadarnhaol yn trosi yn 35 o strategaethau penodol a sgiliau rhianta sy'n clystyru yn nifer o brif categorïau:

- Gwella'r berthynas rhwng y rhiant-plentyn
- Annog ymddygiad dymunol
- Addysgu sgiliau ac ymddygiadau newydd
- Rheoli camymddygiadau
- Atal problemau mewn sefyllfaoedd risg uchel
- Sgiliau hunanreoleiddio
- Sgiliau rheoli hwyliau ac ymdopi rhieni
- Sgiliau cymorth a chyfathrebu partneriaid

Mae P Driphlyg yn darparu dewisiadau wedi'u teilwra'n ddatblygiadol sy'n hwyluso pennu nodau a hunanreoleiddio ymhlith rhieni. Mae rhieni yn dysgu sut i gymhwyso'r technegau a'r strategaethau hynny sy'n berthnasol i'w plentyn, nodau'r rhiant, a sefyllfa'r teulu.

### 7.1.3 Lefelau P Driphlyg

Mae P Driphlyg yn cynnwys system o ymyriadau aml-lefel, fel a ganlyn:

- Mae Lefel 1 yn ymgyrch cyfryngau cynhwysfawr a strategaeth ddsbarthu ar gyfer cyflwyno gwybodaeth gadarnhaol am rianta i bob teulu mewn cymuned benodol.
- Caiff ymyriadau Lefel 2 eu cyflwyno i rieni drwy seminarau dwyster isel neu gyfarfodydd un sesiwn. Mae Lefel 1 yn defnyddio *papur Cynghorion Rhieni*, llyfrynau, posteri, colofnau papur newydd, radio/teledu/negeseuon testun, a rhieni, ymarferwyr a gwefannau asiantaeth. Mae Lefel 2 yn defnyddio taflenni cynghorion rhieni, cyflwyniadau grwpiau ymarferwyr, a DVD i rieni ei wyllo.
- Mae ymyriadau Lefel 3 yn fyr o ran hyd (1-4 sesiwn) ac yn canolbwyntio ar nodi a datrys problemau ymddygiad a wynebir yn gyffredin mewn plentyndod.

Gellir cynnig ymyriadau Lefel 3 mewn amrywiaeth o leoliadau lle bydd rhieni yn ymweld yn naturiol. O ran adnoddau, mae Lefel 3 yn defnyddio taflenni cynghorion rhieni, llyfrynnau trafod rhieni, a DVD i rieni ei wylion, a siart troi i ymarferwyr.


- Cyflwynir ymyriadau Lefel 4 mewn 8-10 sesiwn ac maent yn cynnig set fwy cynhwysfawr o strategaethau i rieni ar gyfer gwella gweithrediad y teulu a pherthnasoedd rhieni-plentyn mewn unrhyw sefyllfa. Mae'r ymyriadau yn cael digon o effaith i fynd i'r afael â phroblemau ymddygiad cymedrol i ddifrifol ymysg plant. Gelwir y lefel hon yn gyffredin yn P Driphlyg Safonol. O ran adnoddau, mae Lefel 4 yn defnyddio gweithlyfrau rhieni, casgliadau DVD rhieni, cyflwyniadau gan ymarferwyr, gweithlyfr hunangyfeiriedig, a chymhwysiad ar-lein.
- Mae ymyriadau Lefel 5 yn cynnig cymorth pellach i rieni gyda ffactorau risg penodol (e.e., teuluoedd â risg uchel o gam-drin plant, teuluoedd sy'n mynd drwy ysgariad neu wahanu, neu deuluoedd gyda phlant sydd dros bwysau neu'n ordew) neu i rieni ag anghenion parhaus yn dilyn ymyriad Lefel 4. Gelwir hyn yn gyffredin yn P Driphlyg Uwch. O ran adnoddau, mae Lefel 5 yn defnyddio gweithlyfrau rhieni, casgliadau DVD rhieni, a chyflwyniadau ymarferwyr.

Gwneir yr asesiadau canlynol i fesur pa lefel P Driphlyg y gall teulu fod yn addas ar ei chyfer:

- Mae ymarferwyr yn asesu'r lefel risg y mae'r teulu'n ei hwynebu drwy ymweliad derbyn, holiaduron, monitro, ac arsylwi ar ryngweithio rhwng rhiant-plentyn.
- Mae ymarferwyr yn teilwra'r lefel dwyster ar sail lefel y risg ac anhawster y mae'r teulu'n ei wynebu (h.y. po fwyaf yw'r risg, y mwyaf yw'r dwyster).
- Mae ymarferwyr yn gweinyddu asesiadau ar ôl cwblhau lefel ymyrraeth er mwyn pennu a oes angen lefelau ymyrraeth pellach ar deulu.

Gellir cynnig P Driphlyg hefyd ar fformatau grŵp, unigolyn neu fformat hunangyfeiriedig. Mae Ffigur 10 yn crynhoi lefelau amrywiol P Driphlyg a'r fformatau y gellid ei gynnig ynddynt o ran 'ehangder cyrhaeddiad' a 'dwyster darpariaeth'.


*Ffigur 10 Crynodeb gweledol o System P Driphlyg*



7.1.4 Theori newid

Yn ôl Pecyn Cymorth Comisiynu'r Adran Addysg, mae P Driphlyg Safonol (h.y. Lefel 4) yn gweithio o'r rhagdybiaeth fod rhai arferion rhianta yn anfwriadol yn atgyfnerthu problemau ymddygiadol ac emosiynol plant. Nod P Driphlyg Safonol yw newid arferion rhianta aneffeithiol drwy nodi camau gweithredu penodol a allai annog ymddygiadau negyddol plentyn a'u disodli â strategaethau sy'n hyrwyddo ymddygiad da a rhyngweithio teuluol cadarnhaol. Pan fydd rhieni yn meistrolï'r strategaethau hyn, dylai ymddygiad eu plant wella gartref ac yn yr ysgol. Dylai'r sgiliau hyn gefnogi datblygiad plant wrth iddynt fynd yn hŷn.

Ffigur 11 Theori newid sy'n sail i P Driphlyg Safonol



7.1.5 Addasiadau P Driphlyg Arbenigol

Cyflwynir P Driphlyg i rieni plant hyd at 12 oed, gyda P Driphlyg i'r Rhai yn eu Hardegau ar gyfer rhieni pobl ifanc 12 i 16 oed. Hefyd, ceir rhaglenni arbenigol P Driphlyg ar gyfer grwpiau penodol a mathau penodol o angen, sy'n cynnwys:

- **P Driphlyg Cam wrth Gam [Stepping Stones Triple P]** – i rieni plant cyn oedran glasged sydd ag anabledd. Dangoswyd bod Cam wrth Gam yn gweithio gyda phlant ag anableddau deallusol a chorfforol y mae eu

hymddygiad yn aflonyddgar. Gellir ei gyflwyno mewn unrhyw un o bedair ffordd – Seminarau Dethol, Gofal Sylfaenol, P Driphlyg Grŵp a P Driphlyg Safonol.

- **Trawsnewidiadau Teuluol [Family Transitions]** – Sesiynau unigol neu grŵp i rieni y mae eu gwahaniad neu ysgariad yn cymhlethu eu rhianta. Mae'n defnyddio'r DVD *Family Transitions* a'r gweithlyfr i rieni.
- **P Driphlyg Ffordd o Fyw [Lifestyle Triple P]** – Rhaglen grŵp deg sesiwn gyda phedair galwad ffôn cymorth i rieni plant sydd dros bwysau rhwng 5 a 10 oed. Mae'n defnyddio egwyddorion rhianta cadarnhaol a'r DVD *Every Parent's Survival Guide* i helpu rhieni hybu bwyta'n iachach fel teulu ac annog gweithgarwch corfforol. Mae gweithlyfr grŵp, llyfryn ryseitiai a llyfryn gemau gweithgareddau yn cael eu darparu i rieni.
- **P Driphlyg Brodorol [Indigenous Triple P]** - Mae P Driphlyg Brodorol yn galluogi darparwyr sydd wedi'u hachredu mewn rhaglenni P Driphlyg Gofal Sylfaenol, Grŵp a/neu Safonol i deilwra'u dull o gyflwyno'r rhaglenni i fod yn addas ar gyfer teuluoedd Brodorol. Cafodd deunyddiau a chynnwys ar gyfer P Driphlyg Brodorol eu creu mewn ymgynghoriad â henaduriaid o gymunedau Brodorol anghysbell a threfol yn Awstralia. Mae wedi'i ddefnyddio gyda theuluoedd Awstralaidd Brodorol a theuluoedd Canadaidd cynfrodorol.

## 7.2 Cynulleidfa darged

Yn fras, mae P Driphlyg ar gyfer rhieni plant 0-16 oed sydd â phryderon ysgafn i ddifrifol ynglŷn ag ymddygiad eu plentyn. Fodd bynnag, fel y dengys yn adran 7.1, mae'r gynulleidfa darged yn dibynnu ar Lefel y Rhaglen dan sylw, gyda lefelan angen mwy difrifol yn cael eu gwasanaethu gan lefelau uwch. Gall fod angen targedu grwpiau penodol gydag anghenion cymhleth neu benodol hefyd gydag addasiadau arbenigol o'r model P Driphlyg.

## 7.3 Mewnbynnau

### 7.3.1 Cymwysterau darparwyr

Mae'r datblygwyr yn argymhell bod ymarferwyr yn meddu ar Lefel 6 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau a chefnidir a phrofiad proffesiynol priodol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am seicopatholeg datblygiad plant a'r glasoed, a rhywfaint o brofiad o weithio gyda theuluoedd. Fel lleiafswm, dylai ymarferwyr feddu ar Lefel 4/5 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (Yr Adran Addysg, Pecyn Cymorth Comisiynu).

### 7.3.2 Paramedrau argymelledig

Gellir cyflwyno P Driphlyg Safonol i deuluoedd yn unigol neu i grwpiau o rieni. Mae'r fersiwn unigol yn cynnwys 10 sesiwn wythnosol, yn para dwy awr yr un yn nodweddiadol. Mae'r cwrs grŵp yn cael ei gyflwyno i wyth i 10 o rieni dros gyfnod o saith wythnos. Mae pedair sesiwn yn cynnwys y grŵp cyfan o rieni, ac mae tair sesiwn yn cael eu cynnal gyda rhieni'n unigol dros y ffôn. Mae un ymarferydd yn

cyflwyno'r fersiynau unigol a grŵp o'r rhaglen (Yr Adran Addysg, Pecyn Cymorth Comisiynu).

### 7.3.3 Gallu darparwyr

Lle mae P Driphlyg yn cael ei fabwysiadu mewn sefydliadau fel rhan o fusnes craidd, disgwylir y gallai pob ymarferydd gynnal (ar gyfartaledd) 250 o ymgynghoriadau bob blwyddyn, yn gyfwerth â 25 o rieni neu ofalwyr y flwyddyn (o ystyried bod 10 sesiwn fesul cyflwyniad P Driphlyg Safonol i bob teulu).

## 7.4 Deilliannau bwriadedig

Yn y tymor byr, disgwylir y bydd rhieni (Yr Adran Addysg, Pecyn Cymorth Comisiynu):

- Yn dioddef llai o straen fel rhieni
- Yn llai tebygol o ddefnyddio disgyblaeth lem
- Yn fwy effeithiol yn rhwystro ymddygiad plant digroeso
- Yn teimlo'n fwy cymwys fel rhieni
- Yn gallu cyfathrebu'n well â'i gilydd ynglŷn â materion rhianta.

Yn y tymor hir, disgwylir y bydd plant yn gallu:

- Cyd-dynnu'n well â'u ffrindiau a'u teulu
- Cyfleu eu teimladau a'u meddyliau yn effeithiol
- Rheoli eu dicter a'u hwyl yn effeithiol
- Gweithredu'n annibynnol
- Datrys problemau ar eu pennau'u hunain.

Disgwylir hefyd y bydd rhieni:

- Yn rhianta yn fwy effeithiol
- Yn teimlo'n fwy cymwys a hyderus fel rhieni
- Yn dioddef llai o straen rhianta

## 7.5 Effeithiolrwydd a thystiolaeth

### 7.5.1 Sail dystiolaeth gyffredinol

Mae darparwyr P Driphlyg yn honni bod y rhaglen hon yn ‘*un o’r rhaglenni rhianta mwyaf effeithiol sy’n seiliedig ar dystiolaeth yn y byd*’ (<http://triplep.net>). Fodd bynnag, tystiolaeth amrywiol sydd ar gyfer effeithiolrwydd P Driphlyg ar draws lefelau gwahanol cyflwyno’r rhaglen ac addasiadau o’r rhaglen, fel y crynhoir yn Ffigur 12. Mae’r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar P Driphlyg Safonol (Lefel 4) – ar gyfer rhieni plant 0-12 oed y mae angen cymorth dwys arnynt – sef y fersiwn o P Driphlyg sy’n cael eu gweithredu a’u gwerthuso amlaf.

*Ffigur 12 Crynodeb o’r sail dystiolaeth ar gyfer lefelau a fersiynau amrywiol o P Driphlyg*

Math o P Driphlyg	Graddfa dystiolaeth
System P Driphlyg <sup>21</sup> (0-16)	Cychwynnol (yn ôl y CEBC)
P Driphlyg (Grŵp) Safonol (Lefel 4) <sup>22</sup> (0-12)	Sefydledig (EIF)
P Driphlyg Cam wrth Gam <sup>23</sup> (0-12)	Sefydledig (EIF)
P Driphlyg Ffordd o Fyw (Lefel 5 – Grŵp) <sup>24</sup> (5-10)	Cychwynnol (EIF)
P Driphlyg Llwybrau (Lefel 5) <sup>25</sup> (0-16)	Cychwynnol
P Driphlyg Gofal Sylfaenol a Grwpiau Trafod (Lefel 3) <sup>26</sup> (0-12)	Cychwynnol
P Driphlyg Safonol Arddedgau a Grwpiau Arddedgau (Lefel 4) <sup>27</sup> (12-16)	Tystiolaeth ffurfiannol

Mae’n bwysig nodi bod dau feta-ddadansoddiad annibynnol o P Driphlyg wedi bwrw amheuaeth ynghylch cadernid y sail dystiolaeth, ac effeithiolrwydd y

<sup>21</sup> Gellir cael rhagor o wybodaeth am wybodaeth am adolygiad CEBC o System P Driphlyg a’i sail dystiolaeth yma: <http://www.cebc4cw.org/program/triple-p-positive-parenting-program-system/detailed>

<sup>22</sup> Gellir cael rhagor o wybodaeth am y fersiwn hon o P Driphlyg a’i sail dystiolaeth yma: <http://guidebook.eif.org.uk/programmes-library/standard-teen-and-group-teen-triple-p-level-4>

<sup>23</sup> Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr addasiad arbenigol hwn o P Driphlyg a’i sail dystiolaeth yma: <http://guidebook.eif.org.uk/programmes-library/stepping-stones-triple-p>

<sup>24</sup> Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr addasiad arbenigol hwn o P Driphlyg a’i sail dystiolaeth yma: <http://guidebook.eif.org.uk/programmes-library/lifestyle-triple-p-level-5-group>

<sup>25</sup> Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr addasiad arbenigol hwn o P Driphlyg a’i sail dystiolaeth yma: <http://guidebook.eif.org.uk/programmes-library/pathways-triple-p-level-5>

<sup>26</sup> Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr addasiad arbenigol hwn o P Driphlyg a’i sail dystiolaeth yma: <http://guidebook.eif.org.uk/programmes-library/primary-care-and-discussion-groups-triple-p-level-3>

<sup>27</sup> Gellir cael rhagor o wybodaeth am y fersiwn hon o P Driphlyg yma: <http://guidebook.eif.org.uk/programmes-library/standard-teen-and-group-teen-triple-p-level-4>



rhaglen felly. Yn benodol, canfu Wilson et al. (2012), o'r 33 o astudiaethau cymwys<sup>28</sup> o P Driphlyg a nodwyd ganddynt, personél yn gysylltiedig â P Driphlyg oedd awduron 32 ohonynt. Nid oedd unrhyw dreialon wedi'u cofrestru a dim ond dau bapur oedd yn cynnwys datganiadau gwrthdaro buddiannau. Ar y sail hon, daw Wilson et al. (2012) i'r casgliad nad oes *'unrhyw dystiolaeth argyhoeddiadol fod ymyriadau P Driphlyg yn gweithio ar draws y boblogaeth gyfan neu fod unrhyw fuddion yn rhai tymor hir'*.

Yn ychwanegol at hyn, canfu Coyne a Kwakkenbos (2013) fod y rhan fwyaf o dreialon o ymyriadau P Driphlyg yn seiliedig ar feintiau sampl o lai na 35 o gyfranogwyr yn y grwpiau rheoli neu ymyrryd, a'u bod felly'n arbennig o agored i risgiau rhagfarn a cham-drafod gan ymchwilwyr. Dylid ymdrin yn ofalus felly â'r deilliannau 'â thystiolaeth' a nodir isod.

### 7.5.2 Deilliannau

Mae tystiolaeth i awgrymu y gall y rhaglen P Driphlyg Safonol (h.y. Lefel 4) arwain at y deilliannau canlynol (Nowak a Heinrichs, 2008; Sanders et al., 2000; Bodenmann et al., 2008):

- Gwell ymddygiad gan blant
- Arferion rianta gwell
- Gwell lles rhieni a llai o straen i rieni
- Llai o wrthdaro ymysg cyplau ynghylch rianta

Yn eu meta-ddadansoddiad, daw Nowak a Heinrichs (2008) i'r casgliad bod effeithiau P Driphlyg o ran sicrhau sgiliau rianta gwell, ymddygiad problemus gwell ymhlith plant a gwell lles rhieni yn yr ystod bach i gymedrol. Maent yn dadlau bod yr effeithiau cadarnhaol hyn i'w cael ar draws pob lleoliad, yr holl lefelau problemau cychwynnol a bob gwlad.

### 7.5.3 Ffactorau cymedrol

Yn eu meta-ddadansoddiad o astudiaethau o P Driphlyg, mae Nowak a Heinrichs (2008) hefyd yn nodi nifer o 'ffactorau cymedrol' sy'n gallu effeithio ar effeithiolrwydd P Driphlyg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adroddodd tadau am welliannau cyson is ar draws astudiaethau o gymharu â mamau ar rianta, lles rhieni a phroblemau plant.
- Mae tystiolaeth o fwy o effeithiau ymyrraeth ar yr holl fesurau ar gyfer plant iau. Mae Ffigur 12 yn dangos hefyd fod sail dystiolaeth gadarnach ar gyfer effeithiolrwydd P Driphlyg o ran sicrhau deilliannau cadarnhaol i blant nag ar

<sup>28</sup> Roedd erthyglau cyhoeddedig lle defnyddiwyd unrhyw lefel o P Driphlyg (neu ymyrraeth teulu ymddygiadol rhagflaenol gan yr un grŵp o awduron), lle defnyddiwyd unrhyw gyflwr cymharu (heb fod yn P Driphlyg), a lle adroddwyd am ddeiliant meintiol yn seiliedig ar blant, yn gymwys i'w cynnwys yn yr adolygiad systematig.

gyfer y rhai yn eu harddegau, gan mai dim ond sail dystiolaeth ffurfiannol sydd i P Driphlyg Safonol yr Ardegau, lle mai gan addasiadau amrywiol o P Driphlyg ar gyfer rhieni plant hyd at 12 oed sail dystiolaeth gychwynnol neu sefydledig (yn ôl yr EIF a CEBC). Mae Pecyn Cymorth Comisiynu yr Adran Addysg wedi gwerthuso sail dystiolaeth P Driphlyg mewn modd tebyg; mae'n awgrymu mai sail dystiolaeth 'ragarweinïol' sydd i P Driphlyg yr Ardegau a bod sail dystiolaeth 'gadarn' i P Driphlyg Safonol.

- Mae tuedd am effeithiau cadarnhau o ran gwella ymddygiad plant ymhlith plant y dosbarthwyd eu 'statws plentyn' fel un uwch yn glinigol cyn ymyrraeth.
- Canfu Nowak a Henrichs (2008) fod teuluoedd sy'n cyfranogi mewn sesiynau grŵp yn wynebu newidiadau cadarnhaol llai amlwg na rhieni sy'n derbyn fformatau unigol. Roedd P Driphlyg Hunangyfeiriedig yn tueddu arwain at feintiau effaith tymor byr llai o gymharu â'r holl fformatau cyflwyno eraill.

## 7.6 Cost a gwerth am arian

Yn ôl datblygwyr P Driphlyg, mae'n ddull cost-efeithiol am ei fod yn defnyddio'r egwyddor digonolrwydd lleiaf lle bydd dwyster ymyrraeth yn cael ei deilwra i fodloni anghenion teulu unigol.

Mae Sefydliad Talaith Washington ar gyfer Polisi Cyhoeddus wedi cynnal dadansoddiad cost a budd o P Driphlyg Safonol, a gyflwynir yn Ffigur 13, a P Driphlyg Safonol (Grŵp), a gyflwynir yn Ffigur 14. Mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu bod P Driphlyg Safonol yn gost effeithiol pan gaiff ei gyflwyno yn unigol. Yn y cyd-destun hwn, am bob £1 sy'n cael ei gwario, gall darparwyr ddisgwyl elwa o ryw £1.98 mewn buddion. Fodd bynnag, pan gaiff ei gyflwyno mewn grwpiau, mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu nad yw P Driphlyg Safonol yn gost-efeithiol; am bob £1 sy'n cael ei gwario, gall comisiynwyr ond ddisgwyl elwa o ryw £0.91.

*Ffigur 13 Dadansoddiad cost a budd o P Driphlyg Safonol*

Dimensiwn o gost a budd	Swm
Cost	£1,243
Buddion i drethdalwyr	£810
Buddion i gyfranogwyr	£488
Buddion i eraill	£1,157
Cyfanswm buddion	£2,455
Buddion llai costau	£1,212
Cymhareb buddion-costau	£1.98

Ffigur 14 Dadansoddiad cost a budd o P Driphlyg Safonol (Grŵp)

Dimensiwn o gost a budd	Swm
Cost	£1,129
Buddion i drethdalwyr	£759
Buddion i gyfranogwyr	£261
Buddion i eraill	£11
Cyfanswm buddion	£1,031
Buddion llai costau	£-98
Cymhareb buddion-costau	£0.91

## 7.7 Gweithredu

Fel cwmni cofrestredig, mae P Driphlyg yn darparu ystod eang o adnoddau a phecynnau hyfforddi safonedig i gefnogi sefydliadau ac unigolion i roi P Driphlyg ar waith. Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr adnoddau hyn yn y *Triple P Course Summaries*.<sup>29</sup>

### 7.7.1 Hyfforddiant

Ar gyfer P Driphlyg Safonol, dylai ymarferwyr fynychu tridiau o hyfforddiant cyn eu bod yn cyflwyno'r rhaglen. Mae'r hyfforddiant yn cwmpasu'r deilliannau dysgu canlynol:

- Canfod problemau ymddygiad plant yn gynnar a'u rheoli'n effeithiol
- Ffactorau risg ac amddiffynnol sy'n gweithredu o fewn teuluoedd
- Egwyddorion craidd rhianta cadarnhaol a newid ymddygiad
- Asesiad uwch o weithrediad y plentyn a'r teulu
- Cymhwyso strategaethau rhianta allweddol at ystod eang o ymddygiadau targed
- Strategaethau ar gyfer hyrwyddo cyffredinol a chynnal newid ymddygiad
- Nodi dangosyddion sy'n awgrymu bod angen mwy o ymyrraeth

<sup>29</sup> [http://www.triplep.net/files/3814/0591/5850/2014\\_Triple\\_P\\_Course\\_Summaries\\_US.pdf](http://www.triplep.net/files/3814/0591/5850/2014_Triple_P_Course_Summaries_US.pdf)

- Gweithdrefnau atgyfeirio priodol

Mae cwrs hyfforddi deuddydd ar gael hefyd i ymarferwyr sydd â phrofiad blaenorol mewn un u'r modelau grŵp P Driphlyg eraill.

### 7.7.2 Achrediad

Pan fydd yr ymarferwyr wedi cyflwyno'r rhaglen am ddau i dri mis, byddant yn dychwelyd i weithdy achredu hanner diwrnod. Bryd hynny, mae'n rhaid iddynt ddangos set o gymwyseddau craidd a llwyddo mewn arholiad amlddewis. Mae grwpiau cymorth cymheiriaid a gweithdai cyn-achredu yn rhoi cyfleoedd i ymarferwyr ymarfer sgiliau newydd cyn y gweithdy achredu terfynol. Mae'r gweithdai achredu yn gynwysedig yn y Cwrs Hyfforddi P Driphlyg Safonol.

### 7.7.3 Goruchwyliaeth

Mae datblygwyr y rhaglen yn argymhell bod ymarferwyr yn cyfranogi mewn goruchwyliaeth cymheiriaid bob pythefnos. Dylai'r oruchwyliaeth hon gael ei harwain gan oruchwylwr sy'n meddu ar gymhwyster Lefel 7/8 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau o leiaf ynghyd â phrofiad blaenorol o gyflwyno'r rhaglen P Driphlyg. Nod yr oruchwyliaeth yw hyrwyddo ymarfer myfyriol ac addasu cynnwys y rhaglen yn ôl anghenion rhieni unigol mewn ffordd sy'n ffyddlon i'r model gwreiddiol (Yr Adran Addysg, Pecyn Cymorth Comisiynu).

### 7.7.4 Ymlyniad i'r rhaglen

Cynhelir ymlyniad i'r rhaglen drwy'r prosesau canlynol:

- Rhestr gwirio ymlyniad sy'n cael eu cwblhau gan yr ymarferydd ar ddiwedd pob sesiwn. Gellir defnyddio'r rhain fel offer hunanasesu neu mewn gweithdrefnau sicrhau ansawdd mwy ffurfiol.
- Adnoddau hyfforddi manwl iawn sy'n darparu cyfarwyddiadau cam wrth gam ar sut i gynnal pob sesiwn.
- Goruchwyliaeth barhaus yn fewnol a chan gymheiriaid. Mae elfen hanfodol ar safleoedd sy'n gweithredu'r rhaglen yn cynnwys mabwysiadu fframwaith hunanreoleiddio a defnyddio'r model Cefnogi a Goruchwyllo gyda Chymorth Cymheiriaid (PASS) o sicrhau ansawdd. Yn ystod sesiynau PASS, disgwylir i ymarferwyr gyflwyno achosion, cael adborth gan ymarferwyr cymwys eraill, a pharhau i ategu eu sgiliau gydag addysg barhaus. Mae llawlyfr a rhestr wirio PASS ar gael i ymarferwyr hyfforddedig drwy'r Rhwydwaith Darparwyr P Driphlyg.
- Achredu ymarferwyr. Mae'r broses achredu yn cynnwys dau gam: cael sgôr llwyddo ar arholiad ysgrifenedig a dangos cymhwysedd mewn sgiliau ymgynghori rhieni fel y'i sgoriwyd gan hyfforddwr P Driphlyg achrededig drwy arsylwi uniongyrchol neu gyflwyniad DVD.

### 7.7.5 Hwyluswyr a rhwystrau i weithredu

Cynhaliwyd sawl gwerthusiad o weithrediad a phroses P Driphlyg. Mae'r ffactorau canlynol yn hwyluso neu'n rhwystro gweithredu a defnydd cynaiedig o'r rhaglen (Shapiro et al., 2011):

- Hunanhyder darparwyr ar ôl hyfforddiant
- Cydweddiad y rhaglen gyda dyletswyddau parhaus
- Argaeledd cymorth ôl-hyfforddiant
- Budd canfyddedig ymyrraeth ar gyfer plant a theuluoedd
- Cymorth yn y gweithle a chymorth sefydliadol

Mae'r awduron yn awgrymu bod y canfyddiadau hyn yn amlygu pwysigrwydd ystyried amgylchedd gweithio ôl-hyfforddiant ehangach darparwyr gwasanaethau fel penderfnydd defnydd dilynol o'r rhaglen.

## 8 Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi cyflwyno adolygiadau 'at wraidd y mater' ar chwech o fodelau a fframweithiau ar gyfer ymyriadau gyda phlant a theuluoedd:

- Arwyddion Diogelwch – fframwaith amddiffyn plant system gyfan
- Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion – ymyriad therapiwtig
- Adfer Gwaith Cymdeithasol – fframwaith amddiffyn plant system gyfan
- Therapi Aml-systemig – ymyrraeth ar gyfer pobl ifanc sydd ar ymylon gofal sy'n dangos ymddygiad gwrth-gymdeithasol
- Cyfweld Cymelliannol – ymyriad cwnsela
- P Driphlyg – ymyriad rhianta

Mae'r chwech o fodelau neu fframweithiau hyn, felly, yn cynrychioli ystod eithaf eang o ddulliau ymyrryd gyda phlant a theuluoedd, o ymyriadau penodol yn rhwym i amser gyda grwpiau penodol, i ddulliau ehangach system gyfan mewn gwaith cymdeithasol ac amddiffyn plant.

### 8.1.1 Effeithiolrwydd hysbys y modelau

Mae Ffigur 15 yn rhoi crynodeb o'r sail dystiolaeth ar gyfer pob un o'r rhaglenni gan ddefnyddio categorïau'r Sefydliad Ymyrraeth Gynnar, sef 'sefydledig' (graddfa uchaf), 'cychwynnol' (un Hap-dreial wedi'i Reoli [RCT]/Astudiaethau dylunio lled-arbrofol [QED] ar waith) a 'ffurfiannol (tystiolaeth o effaith ond dim RCT/QED). Mae hyn yn awgrymu bod dystiolaeth gadarn o effaith ar gyfer Therapi aml-systemig, cyfweld cymelliannol a P Driphlyg (er bod rhywfaint o amheuaeth ynghylch y sail dystiolaeth hon ar gyfer P Driphlyg a System Aml-systemig). Mae sail dystiolaeth gychwynnol i Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion, tra bod sail dystiolaeth 'ffurfiannol' ar gyfer Adfer Gwaith Cymdeithasol ac Arwyddion Diogelwch.

Fel y mae'r adolygiadau o Arwyddion Diogelwch, Adfer Gwaith Cymdeithasol, Therapi Aml-systemig, a P Driphlyg wedi dangos, er y cyfeirir yn aml at y modelau a'r fframweithiau tra hysbys hyn ar gyfer ymyriadau gyda phlant a theuluoedd fel dulliau yn seiliedig ar dystiolaeth, mae ymholi'n ddyfnach i'w seiliau dystiolaeth yn datgelu argraff lai cadarn o'u heffeithiolrwydd hysbys.

*Ffigur 15 Crynodeb o'r sail dystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd modelau a adolygwyd yn yr adroddiad hwn*

Model	Sail dystiolaeth
Arwyddion Diogelwch	Ffurfiannol
Therapi Byr yn Canolbwyntio ar	Cychwynnol

Model	Sail dystiolaeth
Atebion	
Adfer Gwaith Cymdeithasol	Ffurfiannol
Therapi Aml-systemig	Sefydledig (er bod amheuaeth)
Cyfweld Cymelliannol	Sefydledig
P Driphlyg	Sefydledig (er yn amrywiol a bod amheuaeth)

### 8.1.2 Elfennau cyffredin

Fel y mae'r adolygiadau hyn wedi dangos, mae rhai egwyddorion, elfennau, dulliau neu dechnegau sydd i weld yn nodweddion cyffredin ar draws pob un neu rai o'r fframweithiau a adolygwyd yn yr adroddiad hwn. Er enghraifft:

- **Perthynas adeiladol rhwng ymarferydd a chleient:** Mae pob un o'r modelau (ac eithrio P Driphlyg) yn ceisio meithrin perthynas gydweithredol gyda chleientiaid ar sail partneriaeth ac agwedd nad yw'n nawddoglyd.
- **Ffocws ar gryfderau:** Mae pob un o'r modelau (ac eithrio Cyfweld Cymelliannol) yn canolbwyntio ar gryfderau'r teulu a'r plentyn wrth asesu a chynllunio, ond i raddau amrywiol hefyd, mae'n ceisio cydbwysu hyn â nodi risgiau a pheryglon. Un rhesymwaith cyffredin ar gyfer canolbwyntio ar gryfderau ar draws y modelau yw bod hyn hefyd yn ffynhonnell cydberthynas a meithrin perthnasoedd gyda theuluoedd.
- **Pennu nodau a nodi atebion:** Mae Arwyddion Diogelwch, Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion, Adfer Gwaith Cymdeithasol, Therapi Aml-systemig a P Driphlyg bob un ohonynt yn rhannu, fel nodwedd allweddol, pwysigrwydd nodi a phennu nodau gyda theuluoedd neu gleientiaid fel rhan o gynllun ar gyfer newid a datblygu, ac y gellir mynd yn ôl ato er mwyn monitro cynnydd.
- **Defnyddio iaith sy'n hawdd i gleientiaid ei deall:** Mae rhoi pob datganiad mewn iaith syml yn hytrach nag iaith wedi'i phroffesiynoli ac sy'n hawdd ei deall gan gleientiaid yn nodwedd o Arwyddion Diogelwch a Chyfweld Cymelliannol.
- **Nodi rhwydweithiau diogelwch ehangach:** Mae Arwyddion Diogelwch, Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion a Therapi Aml-systemig i gyd yn rhannu elfen ymarfer gyffredin, sef nodi rhwydweithiau diogelwch ehangach, fel ffrindiau, teuluoedd, athrawon, cymdogion ac ati sydd yn chwarae rhan neu a allai chwarae rhan yn gwella deilliannau ar gyfer plant a theuluoedd.
- **Ymarfer a theori systemig:** Mae Adfer Gwaith Cymdeithasol, Therapi Aml-systemig a P Driphlyg i gyd, i raddau amrywiol, yn seiliedig ar ymarfer systemig a theori dysgu cymdeithasol sy'n rhoi unrhyw faterion neu



anawsterau a wynebir gan blant a theuluoedd mewn cyd-destun cymdeithasol a pherthynol.

- **Beichiau achosion llai:** Mae Adfer Gwaith Cymdeithasol a Therapi Aml-systemig ill dau yn sicrhau bod beichiau achosion llai gan ymarferwyr fel eu bod yn gallu gweithio'n fwy trylwyr a hyblyg gyda theuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw.
- **Hyfforddiant ôl-gymhwysol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus:** Mae Arwyddion Diogelwch, P Driphlyg a Therapi Aml-systemig i gyd yn pennu y dylid rhoi'r cyfle i ymarferwyr gael hyfforddiant parhaus yn y model. Mae hyn yn helpu sicrhau datblygiad proffesiynol yn ogystal â sicrhau parhau'n ffyddlon i ddull y model.
- **Goruchwyliaeth o ansawdd uchel a rheolaidd:** Mae pob un o'r modelau yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer goruchwyliaeth reolaidd o ansawdd uchel gan ymarferwyr sy'n fwy medrus neu brofiadol yn y model. Mae model uned Adfer Gwaith Cymdeithasol yn ymgorffori hyn fel nodwedd annatod o'r dull gan fod ymarferwyr plant yn gweithio ochr yn ochr ac ar y cyd â gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol a chlinigwr ar bob achos.

At hynny, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn amlygu dwy nodwedd allweddol o'r berthynas rhwng modelau a fframweithiau ar gyfer ymyriadau gyda phlant a theuluoedd a newid system gyfan:

- Yn gyntaf, gellir defnyddio ymyriadau penodol a'u hegwyddorion fel ffynhonnell newid system gyfan a thrawsfurfiad diwylliannol lle mae dull ar y cyd o weithio gyda theuluoedd a phlant yn cael ei ymgorffori ar draws sefydliad.
- Ac yn ail, fod modelau a fframweithiau, neu eu hegwyddorion o leiaf, yn debygol o fod yn fwyaf effeithiol pan gânt eu defnyddio a'u cymhwyso yn y modd hwn, h.y. ar draws y sefydliad cyfan ac fel ffynhonnell newid diwylliant sefydliadol.

## 9 Atodiad un: Llyfryddiaeth

Cyfeiriadau cyffredinol
CEBC, System Glirio ar Sail Tystiolaeth California ar gyfer Lles Plant [The Californian Evidence-Based Clearinghouse for Child Welfare]. Ar gael yn: <a href="http://www.cebc4cw.org/">http://www.cebc4cw.org/</a>
Yr Adran Addysg (2011) Adolygiad Munro o amddiffyn plant – adroddiad terfynol – system yn canolbwyntio ar y plentyn.  <a href="https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/175391/Munro-Review.pdf">https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/175391/Munro-Review.pdf</a>
EIF, Arweinlyfr y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar (system glirio): <a href="http://guidebook.eif.org.uk/programmes-library">http://guidebook.eif.org.uk/programmes-library</a>

Arwyddion Diogelwch
Barlow et al., 2012 Systematic Review of Models of Analysing Significant Harm. Yr Adran Addysg. Ar gael yn: <a href="https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/183949/DFE-RR199.pdf">https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/183949/DFE-RR199.pdf</a>
Bunn, A., (2013). Signs of Safety in England: An NSPCC commissioned report on the Signs of Safety model in child protection. Ar gael yn: <a href="http://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/signs-safety-england.pdf">http://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/signs-safety-england.pdf</a>
Yr Adran Amddiffyn Plant (2012). Adroddiad canlyniadau arolwg Arwyddion Diogelwch, DCP, Perth Gorllewin Awstralia. Ar gael yn: <a href="https://www.dcp.wa.gov.au/Resources/Documents/Policies%20and%20Framework/SignsOfSafetyFramework2011.pdf">https://www.dcp.wa.gov.au/Resources/Documents/Policies%20and%20Framework/SignsOfSafetyFramework2011.pdf</a>
Idzelis Rothee, M., Nelson-Dusek, S., a Skrypek, M. (2013) Innovations in Child Protection Services in Minnesota: Research chronicle of Carver and Olmsted Counties. Casey Family Programmes.
Keddell, E. (2011). 'Reasoning processes in child protection decision making: negotiating moral minefields and risky relationships', <i>British Journal of Social Work</i> . Ar gael yn: <a href="http://bjsw.oxfordjournals.org/content/early/2011/03/09/bjsw.bcr012">bjsw.oxfordjournals.org/content/early/2011/03/09/bjsw.bcr012</a>
Munro, Turnell, a Murphy (2014) Transforming Children's Services with Signs of Safety Practice at the Centre. Innovations Programme Proposal. Ar gael yn: <a href="http://suffolkscb.org.uk/assets/files/Signs-of-Safety/Innovations-programme/TransformingChildrensServicesWithSignsOfSafetyPracticeAtTheCentre.pdf">http://suffolkscb.org.uk/assets/files/Signs-of-Safety/Innovations-programme/TransformingChildrensServicesWithSignsOfSafetyPracticeAtTheCentre.pdf</a>
Skrypek, M., Otteson, C. & Owen, G. (2010). <i>Signs of Safety in Minnesota:</i>

Arwyddion Diogelwch
<i>Early indicators of successful implementation in child protection agencies.</i> St. Paul, MN: Wilder Research. Ar gael yn: <a href="http://www.wilder.org">www.wilder.org</a>
Sundman, P. (2002). <i>How to get an evaluation process going in social work.</i> Cyflwynwyd yn y Bedwaredd Gynhadledd Ryngwladol, Gwerthuso ar gyfer Ymarfer, Tampere, Y Ffindir.
Turnell, A. (2012). <i>The Signs of Safety A Comprehensive Briefing Paper,</i> Resolutions Consultancy, Perth. Ar gael yn: <a href="http://www.signsofsafety.net">www.signsofsafety.net</a>
Turnell, A. (2005). Solution-focused brief therapy; thinking and practicing beyond the therapy room. Yn F. Thomas a T. Nelson (Gol.). <i>Solution-focused brief therapy: A handbook,</i> Harworth Press, Binghamton.
Turnell, A. (2004). Relationship-grounded, safety-organised child protection practice: Dreamtime or real-time option for child welfare? <i>Protecting Children,</i> 19(2): 14–25.
Turnell, A. & Edwards, S. (1999). <i>Signs of Safety: A solution and safety oriented approach to child protection casework.</i> Efrog Newydd: WW Norton.
Turnell, A & Edwards, S. (1997). Aspiring to partnership: the signs of safety approach to child protection. <i>Child Abuse Review,</i> 6: 179-190.
Turnell, A. & Murphy, T. (2010) The Signs of Safety Child Protection Approach and Framework: Comprehensive Briefing Paper
Wheeler, J. a Hogg, V. (2011) 'Signs of Safety and the Child Protection Movement' yn C. Franklin, T. Trepper, Gingerich, W. a E. McCoolum (gol.) <i>Solution-focused brief therapy: a handbook of evidence based practice,</i> Efrog Newydd: Gwasg Rhydychen.

Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion
Bond et al. (2013) 'Practitioner Review: The effectiveness of solution focused brief therapy with children and families: a systematic and critical evaluation of the literature from 1990-2010' <i>Journal of Child Psychology and Psychiatry.</i> Ar gael yn: <a href="http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/23452301">http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/23452301</a>
Corcoran, J. (2006). A Comparison Group Study of Solution-Focused Therapy versus "Treatment-as-Usual " for Behavior Problems in Children. <i>Journal of Social Service Research,</i> 33(1), 69-81.
Corcoran, J. & Pillai, V. (2007). A Review of the Research on Solution Focused Therapy, <i>British Journal of Social Work,</i> 39(2), 234-242.
Gingerich, W.J. & Eisengart, S. (2000). Solution Focused Brief Therapy: A review of the outcome research, <i>Family Process,</i> 39, 477-498.
Gingerich, W. a Peterson, L. (2013) Effectiveness of a Solution-Focused Brief

### Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion

Therapy: A Systematic Qualitative Review of Controlled Outcome Studies, Research on Social Work Practice. Ar gael yn:

<http://rsw.sagepub.com/content/early/2013/01/22/1049731512470859>

Kim, J. S. (2008). Examining the Effectiveness of Solution Focused Brief Therapy: a meta-analysis, *Research on Social Work Practice*, 18(2), 107-116.

MacDonald (2014) Solution-Focused Brief Therapy evaluation list – 17/11/2014. Ar gael yn: <http://www.solutionsdoc.co.uk/sft.html>

McKeel, A. (1996) 'A selected review of research of solution-focused therapy'. Ar gael yn: <http://www.solutionsdoc.co.uk/mckeel.htm>

Seagram, B.C. (1997). *The efficacy of solution-focused therapy with young offenders*. Traethawd estynedig doethuriaeth heb ei gyhoeddi, Prifysgol York, Efrog Newydd, Ontario, Canada.

Skidmore, J. E. (1993). A follow-up of therapists trained in the use of the solution-focused brief therapy model. Traethawd hir doethuriaeth, Prifysgol De Dakota.

Stalker, C.A., Levene, J. & Coady, N.F. (1999). Solution focused brief therapy – one model fits all? *Families in Society: Journal of Contemporary Human Services* 80(5), 468-483.

Wake, M., Baur, L. A., Gerner, B., Gibbons, K., Gold, L., Gunn, J., et al. (2009). Outcomes and costs of primary care surveillance and intervention for overweight or obese children: the LEAP 2 randomised controlled trial. *BMJ*, 339, 1-8.

Woods, K. a Green, L. (2011) *Systematic review of Solution Focused Brief Therapy (SFBT) with children and families*. DFE-RR179. <https://www.education.gov.uk/publications/RSG/AllRsgPublications/Page11/DFE-RR179>

Zimmerman, T.S., Jacobsen, R.B., Macintyre, M. & Watson, C. (1996). Solution focused parenting groups: An empirical study, *Journal of systemic therapies*, 15, 12-25.

### Model Hackney Adfer Gwaith Cymdeithasol

Cambridgeshire (2012) Social work: working for families, Gwasanaethau Plant Swydd Gaergrawnt. Ar gael yn: [http://www.cambslscb.org.uk/files/training\\_pg/Guide\\_to\\_the\\_Social\\_Work\\_Units.pdf](http://www.cambslscb.org.uk/files/training_pg/Guide_to_the_Social_Work_Units.pdf)

Cross, S., Hubbard, A. a Munro, E, (2010) Reclaiming Social Work Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Bwrdeistref Hackney yn Llundain: Gwerthusiad annibynnol. Ar gael yn:

### Model Hackney Adfer Gwaith Cymdeithasol

<http://www.safeguardingchildren.co.uk/files/sgc/Eileen%20Munro%20Review%20of%20the%20Hackney%20Model.pdf>

Durr, S. (2011) The way we do things here, Gwasanaethau Plant Hackney. Ar gael yn: <http://www.hackney.gov.uk/Assets/Documents/the-way-we-do-things-here.pdf>.

Forrester, D., Westlake, D., McCann, M., Thurnham, A., Shefer, G., Glynn, G. a Killian, M. (2013a) Reclaiming Social Work? An Evaluation of Systemic Units as an Approach to Delivering Children's Services: Adroddiad Terfynol astudiaeth ymarfer gymharol a'r ffactorau sy'n ei lywio mewn tri awdurdod lleol. Canolfan Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol Tilda Goldberg a Phrifysgol Swydd Bedford

Forrester, D., Westlake, D., McCann, M., Thurnham, A., Shefer, G., Glynn, G. a Killian, M. (2013b) Reclaiming Social Work? An Evaluation of Systemic Units as an Approach to Delivering Children's Services: Adroddiad cryno o astudiaeth ymarfer gymharol a'r ffactorau sy'n ei lywio mewn tri awdurdod lleol. Canolfan Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol Tilda Goldberg a Phrifysgol Swydd Bedford

Goodman, S. a Trowler, I. (2011) Social Work Reclaimed: Innovative Frameworks for Child and Family Social Work, Llundain Jessica Kingsley.

Ynys Wyth (2011) Adroddiad yr Aelod Cabinet, Hydref 2011, <http://www.iwight.com/council/committees/mod-council/23-2-11/Cabinet%20Reports/07%20-%20Cllr%20Cousins.pdf>

Gofal Cymdeithasol Plant Bwrdeistref Hackney yn Llundain (2008) Reclaim Social Work. Ar gael yn: <http://www.childcentredpractice.co.uk/Websites/ccp1/files/Content/1375757/reclaiming%20social%20work.pdf>

### Therapi Aml-systemig

Yr Adran Addysg, (dim dyddiad) Multisystemic Therapy. Ar gael o Becyn Offer Comisiynu yr Adran Addysg ar gyfer rhaglenni rhianta:

<http://www.education.gov.uk/commissioning-toolkit/Content/PDF/Multisystemic%20Therapy.pdf>

Fox ac Ashmore (2014) 'Multisystemic Therapy as an Intervention for Young People on the Edge of Care', British Journal of Social Work Advance Access. Ar gael yn at: <http://mstuk.org/sites/default/files/mst/resource-files/Multisystemic%20Therapy%20as%20an%20Intervention%20for%20Young%20People%20on%20the%20Edge%20of%20Care.pdf>

Littell, J. (dim dyddiad) Systematic review of Multisystemic Therapy: Diweddariad. Cyflwyniad heb ei gyhoeddi. Ar gael yn:

[http://www.campbellcollaboration.org/artman2/uploads/1/Littell\\_MST\\_update.pdf](http://www.campbellcollaboration.org/artman2/uploads/1/Littell_MST_update.pdf)

### Therapi Aml-systemig

Littell, J Margo Campbell, Stacy Green, Barbara Toews (2005) Multisystemic Therapy for social, emotional, and behavioral problems in youth aged 10-17  
Julia H Littell\*, Margo Campbell, Stacy Green, Barbara Toews

<http://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1002/14651858.CD004797.pub4/full>

Washington State Institute for Public Policy, Return on Investment: Evidence-Based Options to Improve Statewide Outcomes – Ebrill 2012 Diweddariad.

<http://www.wsipp.wa.gov/ReportFile/1102>

### Cyfweld Cymelliannol

Apodaca, T. R. a Longabaugh, R., (2009) 'Mechanisms of change in motivational interviewing: a review and preliminary evaluation of the evidence', *Addiction*, 104:5. Ar gael yn:

<http://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/j.1360-0443.2009.02527.x/abstract?deniedAccessCustomisedMessage=&userIsAuthenticated=false>

Bowen, E. a Gilchrist, E. (2004) 'Do court- and self-referred domestic violence offenders share the same characteristics? A preliminary comparison of motivation to change, locus of control and anger.' *Legal and Criminological Psychology* 9, 2, 279-294.

Yr Adran Addysg (2014) Assessing Parental Capacity to Change when Children are on the Edge of Care: an overview of current research evidence – Adroddiad ymchwil. Ar gael yn:

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/330332/RR369\\_Assessing\\_parental\\_capacity\\_to\\_change\\_Final.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/330332/RR369_Assessing_parental_capacity_to_change_Final.pdf)

DiClemente, C.C., Nidecker, M. a Bellack, A.S. (2008) 'Motivation and the stages of change among individuals with severe mental illness and substance abuse disorders.' *Journal of Substance Abuse Treatment*, 34: 1.

Forrester, D. (ar ddod) 'Engaging parents and protecting children? A randomized controlled trial of motivational interviewing in child protection work.' Rhagor o wybodaeth ar gael yn:

<http://www.beds.ac.uk/goldbergcentre/staff?a=17176>

Forrester, D., Kershaw, S., Moss, H. a Hughes, L. (2008) 'Communication skills in child protection: how do social workers talk to parents?' *Child & Family Social Work* 13, 1, 41–51.

Forrester, D., Westlake, D. a Glynn, G. (2012) 'Parental resistance and social worker skills: towards a theory of motivational social work.' *Child & Family Social Work* 17, 2, 118-129.

Lundahl et al., (2010) 'A Meta-Analysis of Motivational Interviewing: Twenty-Five



### Cyfweld Cymelliannol

Years of Empirical Studies', Ymchwil ar Ymarfer Gwaith Cymdeithasol. Ar gael yn: <http://rsw.sagepub.com/content/20/2/137.full.pdf+html>

Miller, W. a Mount, A. (2001) 'A Small Study of Training in Motivational Interviewing: Does one workshop change clinician and client behaviour?' in *Behavioural and Cognitive Psychotherapy* 29:04, pp. 457-471. Ar gael yn: <http://journals.cambridge.org/action/displayAbstract?fromPage=online&aid=88052&fileId=S1352465801004064>

Miller, W.R., a Rollnick, S. (1991) *Motivational Interviewing: Preparing People To Change Addictive Behavior*. Efrog Newydd: Gwasg Guilford, 1991

Miller, W. R., Yahne, C. E., Moyers, T. B., Martinez, J. a Pirritano, M. (2004) A Randomized Trial of Methods to Help Clinicians Learn Motivational Interviewing, *Journal of Consulting and Clinical Psychology* 72, 1050–1062

Miller, W.R., Zweben, A., DiClemente, C.C., Rychtarik, R.G. (1992) *Motivational Enhancement Therapy Manual*. Washington, DC: National Institute on Alcohol Abuse and Alcoholism

Morrison, T. (2010) 'Assessing parental motivation for change.' Yn J. Horwath (ed) *The Child's World: The Comprehensive Guide to Assessing Children in Need*. Llundain: Cyhoeddwr Jessica Kingsley.

Moyers TB, Martin T, Manuel JK, Hendrickson SML, Miller WR. (2005) Assessing competence in the use of motivational interviewing. *Journal of Substance Abuse Treatment*. 28:19–26.

Rockville (MD) (1999) 'Enhancing Motivation for Change in Substance Abuse Treatment' in *Treatment Improvement Protocol (TIP) Series, Rhif 35*. Ar gael yn: <http://www.ncbi.nlm.nih.gov/books/NBK64964/>

Sobell a Sobell (2008) *Motivational Interviewing Strategies and Techniques: Rationales and Examples*. Ar gael yn: [http://www.nova.edu/qsc/forms/mi\\_rationale\\_techniques.pdf](http://www.nova.edu/qsc/forms/mi_rationale_techniques.pdf)

Treasure, J. (2004) *Motivational Interviewing*. Ar gael yn: <http://apt.rcpsych.org/content/10/5/331>

Zalmanowitz, S.J., Babins-Wagner, R., Rodgers, S., Corbett, B.A. a Leschied, A. (2013) 'The association of readiness to change and motivational interviewing with treatment outcomes in males involved in domestic violence group therapy.' *Journal of Interpersonal Violence* 28, 5, 956-974.

### P Driphlyg

Bodenmann, G., Cina, A., Ledermann, T. & Sanders, M., R. (2008). 'The efficacy of the Triple P-Positive Parenting Program in improving parenting and child behaviour: A comparison with two other treatment conditions'. *Behavior*



P Driphlyg
<i>Research and Therapy</i> , 46(4), 411-427.
Coyne, J., a Kwakkenbos, L. (2013) 'Triple P-Positive Parenting programs: the folly of basing social policy on underpowered flawed studies' in <i>BMC Medicine</i> 2013, 11:11. Ar gael yn: <a href="http://www.biomedcentral.com/1741-7015/11/11">http://www.biomedcentral.com/1741-7015/11/11</a>
Yr Adran Addysg, Standard Triple P, Parenting Programme Commissioning Toolkit. Ar gael yn: <a href="http://www.education.gov.uk/commissioning-toolkit/Content/PDF/Standard%20Triple%20P.pdf">http://www.education.gov.uk/commissioning-toolkit/Content/PDF/Standard%20Triple%20P.pdf</a>
Nowak, C. & Heinrichs, N. (2008). A comprehensive meta-analysis of Triple P - Positive Parenting Program using hierarchical linear modelling: Effectiveness and moderating variables. <i>Clinical Child and Family Psychology Review</i> , 11, 114-144.
Prinz, R. J., Sanders, M. R., Shapiro, C. J., Whitaker, D. J., & Lutzker, J. R. (2009). Population-based prevention of child maltreatment: The U.S. Triple P System population trial. <i>Prevention Science</i> , 10, 1-12.
Sanders, M. R. (1999). Triple P—Positive Parenting Program: Towards an empirically validated multilevel parenting and family support strategy for the prevention of behavior and emotional problems in children. <i>Clinical Child and Family Psychology Review</i> , 2, 71–90.
Sanders, M. R., Ralph, A., Sofronoff, K., Gardiner, P., Thompson, R., Dwyer, S., & Bidwell, K. (2008). Every family: A population approach to reducing behavioral and emotional problems in children making the transition to school. <i>Journal of Primary Prevention</i> , 29, 197-222.
Shapiro, C. J., Prinz, R. J., & Sanders, M. R. (2012). Facilitators and barriers to implementation of an evidence-based parenting intervention to prevent child maltreatment the Triple P-Positive Parenting Program. <i>Child Maltreatment</i> , 17(1), 86-95. Ar gael yn: <a href="http://cmx.sagepub.com/content/early/2011/11/12/1077559511424774">http://cmx.sagepub.com/content/early/2011/11/12/1077559511424774</a>
Wilson et al. (2012) How evidence-based is an 'evidence-based parenting program'? A PRISMA systematic review and meta-analysis of Triple P BMC Medicine 2012, 10:130. Ar gael yn: <a href="http://www.biomedcentral.com/1741-7015/10/130">http://www.biomedcentral.com/1741-7015/10/130</a>

## 10 Atodiad dau: Protocol Asesu Arwyddion Diogelwch

Pan fyddwn ni'n meddwl am y sefyllfa sy'n wynebu'r teulu hwn		
Beth ydyn ni'n Poeni yn ei Gylch?	Beth sy'n Gweithio'n Dda?	Beth sydd Angen iddo Ddigwydd?
<p>Ar raddfa o 0 i 10 lle mae 10 yn golygu bod pawb yn gwybod bod y plant yn ddigon diogel i'r awdurdodau amddiffyn plant cau'r achos, ac mae sero yn golygu bod pethau mor wael i'r plant fel na allant fyw adre, ble ydyn ni'n graddio'r sefyllfa hon? O farnau gwahanol, rhowch rifau pobl wahanol ar y continwmm.</p> <p>0 &lt;-----&gt; 10</p>		

## 11 Atodiad tri: Sail dystiolaeth ar gyfer Arwyddion Diogelwch

*Ffigur 16 Crynodeb o'r sail dystiolaeth ar gyfer Arwyddion Diogelwch, fel y'i crynhowyd gan Bunn 2013*

Awdur/ Cyfeiriad	Dull/nod	Sampl	Deilliant	Nodyn methodolegol
Turnell ac Edwards  1999	Holiaduron - cyn a 6 mis ar ôl hyfforddiant mewn Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion (SFBT) ac Arwyddion Diogelwch. Graddfa 10 pwynt yn mesur hunanwerthusiadau ymarferwyr o arbenigedd a medrusrwydd.	15 o ymarferwyr, Perth, Awstralia.	Ar gyfartaledd, graddio ymarferwyr o'u harfer a'u rôl eu hunain wedi cynyddu un pwynt llawn.	Sampl fach. Dibynnu ar raddio ymarferwyr eu hunain. Sail bosibl fel dadansoddiad o ddull gan y cychwynwyr.
Sundman  2002	Graddfa hunan-raddio yn mesur awyrgylch yn y gweithle, brwdfrydedd gweithwyr ynglŷn â'u gwaith, canolbwyntio ar eu hachosion, gallu i ymdopi â llwyth gwaith ac ymdeimlad o gydsefyll. Pob eitem yn cael eu graddio bob 2 wythnos dros 1 flwyddyn.  Hefyd, astudiaethau achos a chyfweliadau lled-strwythuredig gyda gweithwyr a gofalwyr.	Ymarferwyr, Y Ffindir	Ni chanfuwyd ei fod yn gwneud gwahaniaeth i fywydau proffesiynol gweithwyr. Priodolwyd ymdopi â gwaith i newidiadau mewn bywydau personol.  Ond, adroddodd gweithwyr fod Arwyddion Diogelwch wedi cael effaith ar ymarfer a gwneud iddynt gael mwy o amser i fyfrio gyda mwy o brosesau personol. Gwaith gyda theuluoedd yn gliriach ac yn canolbwyntio mwy ar nodau, ac yn haws siarad am berygl i blant yn fwy agored gyda gofalwyr. Mewn cyfweliadau, dywedodd gweithwyr a gofalwyr bod perthnasoedd gweithio yn fwy agored. Anodd gwneud cytundebau pan fo nodau'n gwrthdaro, ac yn anodd eu defnyddio gyda gofalwyr ansefydlog yn feddyliol neu pan fo'n	Dibynnu ar hunanadroddiadau a chyfweliadau. Roedd y rheolwr a ysgogodd y peilot yn rhan o'r ymchwil/dadansoddi, felly rhagfarn bosibl ac effaith ar adroddiadau gweithwyr.

			angenrheidiol symud y plentyn ar unwaith.	
Westbrook 2006	Bu goruchwylwyr yn cyfweld â rhieni a oedd yn destun dau o asesiadau amddiffyn plant ar wahân yn edrych ar y berthynas rhwng y cleient a'r gweithiwr a'r gwahaniaeth canfyddedig rhwng y ddau asesiad. Roedd yr asesiad cyntaf yn fodel traddodiadol ac Arwyddion Diogelwch (6 mis yn ddiweddarach) oedd yr ail.	Sir Carver, Minnesota,  9 o rieni.	Adroddodd 7/9 o rieni bod gwahaniaethau rhwng asesiadau. Gydag Arwyddion Diogelwch adroddwyd am welliant yn y berthynas weithio, roedd gweithwyr yn cael eu gweld fel pobl fwy gofalgar, yn cymryd eu hamser, yn esbonio mwy, heb fod yn beirniadu, bod yn fwy dymunol, bod yn gynhesach, yn gwrando mwy, yn fwy amyneddgar, yn cynnig mwy o opsiynau a bod yn llai mewnwthiol.	Goruchwylwyr yn cyfweld, felly rhagfarn bosibl a diddordeb personol. Dibynnu ar allu i gofio asesiad cynharach (6 mis yn flaenorol) a chymharu â'r un diweddar.
<b>Awdur/ Cyfeiriad</b>	<b>Dull/nod</b>	<b>Sampl</b>	<b>Deilliant</b>	<b>Nodyn methodolegol</b>
Appleton a Weld (2005)  Hall (2004) a Latham (2004)	Edrychwyd ar ymarfer yn seiliedig ar gryfderau (SBP) yn Seland Newydd, a sut oedd yn gymwys i Wasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd (CYF). Yn Tauranga, rhoddwyd hyfforddiant mewn SBP, Arwyddion Diogelwch a fframweithiau eraill yn seiliedig ar gryfderau i bum tîm o weithwyr cymdeithasol a goruchwylwyr. Dau werthusiad ansoddol annibynnol - cyfweliadau lled-strwythuredig gyda gweithwyr, mynediad i nodiadau achosion, cyfweliadau gydag asiantaethau partner yn gofyn am farnau ymarferwyr.	Rhan o fenter genedlaethol yn Seland Newydd, roedd Tauranga yn safle prawf.	SBP wedi cael derbyniad da gan staff, roedd yn helpu recriwtio a chadw staff, fe wnaeth morâl staff wella, roedd staff yn cefnogi'r dull, helpodd staff i drefnu a strwythuro ymarfer gyda ffocws ar ddiogelwch a lles plant/teuluoedd. Canfuwyd bod cwestiynau graddio wedi helpu canfod diogelwch/risg a mesur newid. Fe wnaeth gynorthwyo cynnwys teuluoedd wrth gynhyrchu deilliannau, cynnydd cyson mewn cytundebau teulu/whanau lle'r oedd pryder ynghylch perygl/niwed i blentyn, cynnydd yn y defnydd o gytundebau gwirfoddol yn hytrach na gorchmynion gwarchodaeth, mwy o deuluoedd yn rhoi eu plant	Roedd yn cynnwys dau werthusiad annibynnol, ond ni ysgrifennwyd amdanynt mewn cyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid. Yn seiliedig ar gyfweliadau a barnau gweithwyr. Ddim yn glir beth gellid ei briodoli i ddull yn seiliedig ar gryfderau neu Arwyddion Diogelwch yn benodol.

			mewn gofal o'u gwirfodd lle bo angen, a gweithio ar gynlluniau uno.	
Turnell et al (2007)	1 astudiaeth achos o fam a gysylltodd â'r gwasanaethau cymdeithasol pan oedd yn feichiog (credai efallai na fyddai'n gallu cadw'r babi gan fod y saith plentyn blaenorol wedi'u mabwysiadu). Defnyddiwyd theori â sail iddi i archwilio proses benderfynu'r gweithiwr, sut oedd yn trefnu syniadau a sut oedd yn gweithio gyda rhieni i archwilio profiad o asesu. Cynhaliwyd cyfweiliad pan oedd y plentyn yn 2 flwydd oed.	Gateshead, DU, 1 astudiaeth achos	Plentyn wedi aros yng ngofal rhieni. Adroddodd y rhieni am deimlad eu bod wedi'u 'deall' a bod parch iddynt, teimla'r gweithiwr ei fod yn gallu cynnal 'dull bwriadus', gan gynnwys ffocws ar ddiogelwch y plentyn wedi'i gydbwysu â chydabod cryfderau, gonestrwydd ynghylch cadw neu golli'r plentyn, gallu cynnal perthynas weithio dda. "Cyfweiliad gyda'r rheolwr wedi amlygu bod y gweithiwr wedi darllen deunyddiau dogfennol yn drwyadl i gyfod ffactorau risg a diogelwch; ei defnydd o ymgynghori tîm gan ddefnyddio Arwyddion Diogelwch fel fframwaith ar y cyd" a chymorth rheolaethol yn annog ymarfer.	Cynhaliwyd astudiaeth gan gychwynnwr y dull, felly rhagfarn bosibl.
Keddell 2011	Cyfweiliadau ansoddol o ymweliadau â saith o swyddfeydd, ymgynghoriadau achos arsylwi a chyfarfodydd tîm. Roedd achosion yn cynnwys dychwelyd plant i'w rhieni ar ôl cyfnod mewn gofal maeth ac archwilio pa ffactorau wnaeth gwahaniaeth.	22 cyfweiliad gyda gweithwyr cymdeithasol, 15 cyfweiliad arall â rhanddeiliaid (o'r 10 achos, yn cynnwys 5 o rieni maeth, 7 o rieni a 3 unigolyn ifanc). Seland Newydd.	Ar ôl dadansoddiad thematig o lwyddiant yn dychwelyd plant nodwyd nifer o themâu fel rhai a oedd yn helpu cyflawni'r nod i uno: <b>diffyg euogrwydd yn achosi'r problemau gwreiddiol</b> (h.y. ddim yn beio'r rhiant ond yn deall pam y digwyddodd); <b>gwrthod adweithedd 'risg' tra'n monitro diogelwch</b> (cyflawni cynlluniau diogelwch yn gyson, atal adwaith difeddwl i risg gan weithiwr), <b>gweithiwr yn credu mewn rhianta 'digon da'</b> (bod yn realistig ac yn cyd-drafod meini prawf ar gyfer dychwelyd), <b>credu mewn</b>	Dewiswyd achosion gan y gweithwyr, felly gall fod rhagfarn. Niferoedd bach.

			<b>newid</b> (mewn rhieni a sylwi pan fydd pethau'n newid/yn mynd yn dda). Ffactorau wedi'u nodi gan rieni fel rhai a oedd yn ailadeiladu eu hyder rhianta yn cynnwys cyrsiau rhianta, argaeledd cymorth gwaith cymdeithasol, ac agwedd o gefnogi a chydabod y newidiadau a wnaed yn lle beirniadaeth.	
Holmgard Sorensen (2009)	Cyfweliadau gydag 171 o weithwyr ar ôl rhaglen hyfforddi 3 blynedd a gweithredu.	2005-2008 yn Nenmarc (Copenhagen). 171 o weithwyr.	Adroddodd 87% o weithwyr fod eu hyfforddiant wedi newid gwaith gyda theuluoedd â phlant dan risg. Adroddodd 75% o weithwyr fod y dull wedi darparu offeryn a sgiliau mwy defnyddiol na'r hyn a oedd ar gael yn flaenorol, adroddodd 72% am fwy o ffocws ar adnoddau teulu, adroddodd 55% am gynnwys strategaethau ac atebion teuluoedd mwy a theimlai 49% eu bod yn rhoi mwy o gyfrifoldeb i deuluoedd. Teimlai 96% fod y model yn rhoi cyfarfodydd mwy cadarnhaol gyda chydweithwyr a theuluoedd, roedd 79% yn ei ddefnyddio'n rheolaidd mewn cyfarfodydd. Adroddodd 88% fod hyfforddiant yn rhoi mwy o ymdeimlad o broffesiynoliaeth ac roedd ansawdd gwaith yn cynyddu cyfathrebu adeiladol gyda theuluoedd, gan leihau eu harwahanrwydd a chynyddu ymgysylltiad.	Cafodd ei werthuso'n annibynnol. Cyfwelwyd â gweithwyr nid teuluoedd.
Alcock 2009	Olrheiniwyd gwaith tri thîm gwaith cymdeithasol yn y DU a oedd wedi'u hyfforddi mewn Arwyddion Diogelwch fel peilot.	DU, ddim yn gwybod faint o gyfweliadau.	Nid oedd plant a phobl ifanc yn deall Arwyddion Diogelwch gystal ag oedolion – gallai fod yn	Roedd grŵp rheoli. Gadawyd i'r grŵp astudio ddewis pa deuluoedd i'w henwi

	<p>Y nod oedd cynnal prawf effaith ar dri maen prawf llwyddo: mae plant yn ddiogel/mae diogelwch wedi'i wella, mae perthnasoedd yn barchus ac mae dealltwriaeth ar y cyd o bryderon. Defnyddiwyd cwestiynau graddio a chyfweliadau i asesu barnau plant, pobl ifanc a gweithwyr cymdeithasol ac aelodau gwasanaethau eraill. Cymharwyd y tri thîm hyfforddedig â grŵp rheoli.</p>		<p>ddefnyddiol cael templed gwahanol. Roedd Arwyddion Diogelwch yn annog plant a phobl ifanc i gyfranogi yn y broses o ddatrys anawsterau yn eu bywydau, roedd deilliannau ar gyfer teuluoedd i weld wedi gwella, roedd yn helpu asiantaethau i weithio gyda'i gilydd, er bod angen rhannu dulliau, nodau, a thechnegau yn llawnach gydag asiantaethau partner.</p>	<p>ar gyfer cyfweliadau, felly rhagfarn bosibl. Cynhaliwyd cyfweliadau gan weithwyr cymdeithasol (mewn tîm gwahanol i'w tîm eu hunain) ac fe'u dadansoddwyd yn annibynnol gan Gyngor Datblygu Gweithlu'r Plant.</p>
--	---	--	---	---



## 12 Appendix four: Evidence base for SFBT

Figure 17 Summary of evidence base for SFBT, as summarised by Woods and Green (2011)

Allwedd ar gyfer Atodiadau 3 a 4	
++	Deilliant ymyrraeth SFBT gadarnhaol yn well na'r grŵp rheoli
+	Deilliant ymyrraeth SFBT gadarnhaol ddim gwell na'r grŵp rheoli, neu yn absenoldeb grŵp rheoli
-	Deilliant ymyrraeth SFBT negyddol
0	Deilliant ymyrraeth SFBT niwtral
Tystiolaeth orau	Dangosodd yr astudiaeth dystiolaeth o briodoldeb methodolegol lefel ganolig o leiaf ar gyfer yr adolygiad

Crynodeb o ddulliau a deilliannau ar gyfer astudiaethau ansawdd uchel				
Astudiaeth ymchwil	Dyluniad/dulliau ymchwil	Ffocws a sampl darged gwlad astudio	Dulliau therapiwtig	Deilliannau
Daki, J., a Savage, R. (2010)  ++/0	Meintiol  Hap-dreialon Wedi'u Rheoli  Tystiolaeth orau	Anawsterau darllen, cymhelliant ac anawsterau cymdeithasol/emosiynol/yymddygiadol  7 plentyn, 7-14 oed  Canada	Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion (SFBT)  5/7 o gydrannau craidd SFBT  2/4 o gydrannau ychwanegol SFBT  Gyda phlant unigol  Gan fyfyrwyr lefel Meistr mewn seicoleg ysgol	Dangosodd y grŵp SFBT welliant mewn agweddau at yr ysgol ac athrawon, dealltwriaeth wrando a rhuglder darllen, a lleihad mewn gorbryder; dangosodd cyfranogwyr y grŵp rheoli fuddion o ran ymwybyddiaeth ffonolegol, a sgiliau sillafu o gymharu â'r grŵp ymyrraeth.
Franklin, C.,  Moore, K., a Hopson, L.	Meintiol  Lled-arbrofol	Problemau ymddygiadol yn yr ystafell ddosbarth	SFBT  5/7 o gydrannau craidd SFBT	Dangosodd y Rhestr Wirio Ymddygiad Plant (CBCL) a Ffurflen Adrodd Athrawon (TRF) welliannau o ran ymddygiad plant yn mewnoli (maint effaith .61) ac allanoli (maint effaith 1.4) yn y grŵp ymyrraeth SFBT, fel y ffurflen Hunan-adroddiad Ieuentid (YSR) ar gyfer ymddygiad allanoli

(2008)		20 o blant, 10-12 oed	2/4 o gydrannau ychwanegol SFBT	(maint effaith 0.86).
++	Tystiolaeth orau	UDA	Gyda phlant unigol  Gan therapyddion lefel Meistr	
Green, S., Grant, A., a Rynsaardt, J. (2007)	Ansoddol  Hap-dreialon Wedi'u Rheoli  Tystiolaeth orau	Gobaith, gwydnwch, iselder, gorbryder a straen  25 o bobl ifanc, 14-18 oed, gyda sgorau anghlinigol ar fesurau gwaelodlin  Awstralia	Rhaglen hyfforddi yn seiliedig ar SF a fframwaith gwybyddol ymddygiadol  2/7 o gydrannau craidd SFBT  0/4 o gydrannau ychwanegol SFBT  Gyda phobl ifanc unigol.  Gan athrawon.	Dangosodd Graddfeydd Nodwedd Gofal a Gwydnwch Gwybyddol (Trait Hope and Cognitive Hardiness) gynnydd sylweddol yn fwy yn y grŵp anogaeth na'r grŵp rheoli. Mae'r Raddfa Iselder, Gorbryder a Straen yn dangos gostyngiad sylweddol yn y sgôr iselder na welwyd yn y grŵp rheoli.
++				
Kvarme, L.G., Solvi, H., Sorum, R., Luth-Hansen, V., Haugland, S. A Natvig G.K. (2010).	Ansoddol Lled arbrofol  Tystiolaeth orau	Plant sydd wedi encilio'n gymdeithasol  144 o blant 12-13 oed wedi'u dyrannu i grwpiau rheoli neu grwpiau arbrofol  Norwy	Dull yn Canolbwyntio ar Atebion (SFA) Ymyrraeth Ail-ymuno â thîm (Furman ac Ahola)  6 x sesiynau wythnosol 1 awr  3/7 o gydrannau craidd  1/4 o gydrannau ychwanegol SFBT  Grwpiau o 3-7 o bobl ifanc  Gan nyrsys ysgol	Hunan-effeithiolrwydd cyffredinol wedi cynyddu ar gyfer merched (maint effaith cymedrol) ar ôl ymyrraeth, ond nid ar gyfer bechgyn. Yn y dilyniant 3 mis, roedd hunan-effeithiolrwydd cyffredinol wedi gwella ar gyfer bechgyn, merched a rheolaethau, gyda mwy o newid yn y grŵp arbrofol. Cafodd y rhaglen lai o effaith ar barthau hunan-effeithiolrwydd penodol.
+/0				
Lloyd, H. & Dallos, R.	Ansoddol	Profiadau defnyddwyr gwasanaethau o	SFBT	Mae SFBT yn darparu strwythur defnyddiol ar gyfer y sesiwn gyntaf drwy adeiladu perthynas therapiwtig, hunan-

(2008)  +/-	Cyfweiliadau  Tystiolaeth orau	sesiynau SFBT cychwynnol  5 o famau gyda phlant ag anableddau dysgu cymedrol/ difrifol  Lloegr	5/7 o gydrannau craidd SFBT  2/4 o gydrannau ychwanegol SFBT  Gyda rhieni  Gan seicolegydd clinigol	effeithiolrwydd a dulliau ymdopi. Gwelwyd y cwestiwn gwyrth, fodd bynnag, fel ffordd di- fudd i ystyried dyfodol a ddymunir.
-------------------	---	---	---	--



**Cordis**Bright Limited

23/24 Smithfield Street, London EC1A 9LF

<b>Telephone</b>	020 7330 9170
<b>Email</b>	<a href="mailto:info@cordisbright.co.uk">info@cordisbright.co.uk</a>
<b>Internet</b>	<a href="http://www.cordisbright.co.uk">www.cordisbright.co.uk</a>